



CRONFA'R HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2024





Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

DATGANIAD O GYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 4 i Ddeddf Diogelwch
Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 1 Gorffennaf 2024

HC 149

SG/2024/146



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents .

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, 25 Camden Road, Llundain NW1 9LN

ISBN: 978-1-5286-5020-5

E-Rif: E03124488

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd
Llyfrfa Ei Mawrhydi



CYNNWYS

1	ADRODDIAD PERFFORMIAD	6
	Trosolwg o'r Perfformiad	8
	Datganiad y Cadeirydd	8
	Amdanom Ni: Trosolwg Strategol	10
	Penawdau Perfformiad	13
	Adroddiad Perfformiad	15
	Crynodeb o Berfformiad	15
	Dadansoddiad Ariannol	28
	Adroddiad Cynaliadwyedd	32
2	ADRODDIAD ATEBOLRWYDD	38
	Adroddiad llywodraethu Corfforaethol	40
	Adroddiad y Cyfarwyddwyr	40
	Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	48
	Datganiad Llywodraethu	50
	Prif Risgiau ac Ansicrwydd	59
	Adroddiad Taliadau	73
	Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	89
	Colledion a Thaliadau Arbennig (Archwiliedig)	89
	Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd	90
3	ADRODDIAD ARIANNOL	95



ADRODDIAD PERFFORMIAD





TROSOLWG O'R PERFFORMIAD

Datganiad y Cadeirydd

Amdanom Ni: Trosolwg Strategol

Penawdau Perfformiad

– Ein Llwyddiannau

ADRODDIAD PERFFORMIAD

Crynodeb o Berfformiad

Dadansoddiad Ariannol

Adroddiad cynaliadwyedd



TROSOLWG O'R BERFFORMIAD

DATGANIAD
Y CADEIRYDD

Mae'r adroddiad a'r cyfrifon a ganlyn yn rhoi trosolwg o lwyddiannau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) dros y flwyddyn ddiwethaf o ran bodloni'r amcanion a osodwyd gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA).

Gan edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau mawr a achosodd heriau i blismona rheilffyrdd. Ysbrydolodd y gwrthdaro Israel-Gaza lefel sydyn a digynsail o weithgarwch protestio mewn gorsafoedd trenau mawr, yn ogystal â chynnydd mewn adroddiadau am droseddau casineb ar y rhwydwaith. Roeddwn yn hynod falch o ymateb plismona BTP i'r heriau hyn. Dangosodd yr Heddlu ystwythder, gwytnwch a hyblygrwydd aruthrol i'r gweithgaredd annisgwyl hwn, gan gydweithio i wella diogelwch teithwyr a staff y rheilffyrdd yn ystod cyfnod sensitif iawn.

Ym mis Mai 2023 gwelwyd Coroni Brenin Siarl III, digwyddiad unigryw arall a oedd yn gofyn am ymateb plismona ar lefel uwch wrth i filoedd o bobl ddefnyddio'r rhwydwaith i deithio yn ôl ac ymlaen i'r Coroni a'r Cyngerdd. Wrth baratoi, gwnaeth swyddogion a staff

BTP ymdrechion enfawr i sicrhau bod yr holl gynlluniau yn eu lle, gan gynnwys y rheidrwydd i lawer o'n pobl ni weithio dros y penwythnos ei hun ac i mewn i Wyl y Banc. Unwaith eto, roeddwn yn hynod falch o'r rhan a chwaraeodd BTP wrth wneud y digwyddiad unwaith-mewn-oes hwn yn llwyddiant.

Ni fyddai gallu ein Heddlu i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol yn ystod y digwyddiadau mawr hyn yn bosibl heb y gwaith sy'n cael ei wneud yn fewnol i gefnogi ein pobl, gan sicrhau eu bod yn meddu ar yr offer angenrheidiol, yn cael eu harwain yn dda ac yn derbyn gofal da. Roeddwn yn falch bod y Swyddfa Gartref yn cydnabod gwaith swyddogion a staff a bod y Corff Adolygu Tâl Plismona wedi cynnig codiad cyflog o 7% eleni. Gwnaethom ni yr un peth, am ein bod yn ystyried hyn yn ddyrchafiad haeddiannol. Mae BTP wedi parhau i alluogi gweithio ystwyth trwy drawsnewid ei alluoedd digidol a thechnolegol eleni, gyda chyflwyniad enfawr o dechnoleg. Mae hyn yn golygu nid yn unig mwy o ddyfeisiau ar gyfer swyddogion a staff ond mwy o allu gan y dyfeisiau hynny. Dyma un yn unig o'r llwyddiannau a gyflawnwyd drwy raglen drawsnewid uchelgeisiol Force on the Move ac edrychaf ymlaen at fwy o welliannau a fydd yn gwneud BTP yn heddlu ar gyfer y 21ain ganrif.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i broffesiynoldeb ein swyddogion a'n staff, ac yn cynnal safonau anhygoel o uchel i sicrhau ein bod yn heddlu dibynadwy a chyfreithlon. Rydym yn dysgu o hanes, ac mae gennym agwedd o

RWY'N HYNOD FALCH A DIOLCHGAR O'R SWYDDOGION SY'N YMDDWYN YN ANHUNANOL AC YN BROFFESIYNOL I GADW'R CYHOEDD SY'N TEITHIO YN DDIOGEL, YN ENWEDIG YN WYNEB AMGYLCHEDDAU HERIOL.

ddim goddefgarwch tuag at ymddygiad amhroffesiynol a byddwn yn parhau i arddel yr agwedd honno.

Mae BTP yn parhau i flaenoriaethu ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod a Merched. Mae'n haws nag erioed i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad trwy ein gwasanaeth riportio mewn neges destun gyfrinachol, ar 61016, ac ar yr ap diogelwch ar y rheilffyrdd cyntaf o'i fath gan BTP, Railway Guardian. Mae'r ap hwn yn darparu canllawiau defnyddiol am gadw'n ddiogel ar y rheilffordd, gan alluogi i chi riportio trosedd yn ddienw ac anfon eich lleoliad at ffrindiau a theulu. Mae wedi cael ei lawrlwytho fwy na 146,000 o weithiau erbyn hyn, ac mae'r nifer yn cynyddu'n gyflym bob mis. Fe welwch yn ein crynodeb o berfformiad fod adroddiadau am droseddau rhywiol wedi cynyddu, ac er y gall hyn ymddangos yn frawychus, credwn nad yw hyn o reidrwydd yn dangos cynnydd yn y mathau hyn o droseddau ond yn hytrach bod cynnydd wedi digwydd yn y nifer o ddioddefwyr sy'n fodlon camu ymlaen a riportio'r troseddau.

Ni fyddai cyfran fawr o'r hyn a gyflawnwyd gan BTP eleni wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth werthfawr ein rhanddeiliaid yn y diwydiant. Mae ein hymdrechion i

fynd i'r afael â throseddau a'u hatal yn cael eu gwella gan y gwaith sy'n digwydd mewn partneriaeth â staff y rheilffyrdd a'r awdurdodau lleol, ac rwyf wedi gweld llawer o enghreifftiau rhagorol eleni o wahanol sefydliadau'n cydweithio i ddatrys problemau ac amddiffyn y cyhoedd ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

Fel heddlu a ariennir gan y diwydiant rheilffyrdd, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian ym mhopeth a wnawn. Wrth i'r diwydiant wynebu newid digynsail dros y flwyddyn ariannol nesaf, bydd BTP yn parhau i weithredu fel Gwarcheidwaid y Rheilffordd yn wynebu y newid hwn, gan flaenoriaethu diogelwch seilwaith y rheilffordd a'r rhai sy'n ei ddefnyddio ar gyfer gweithio a theithio bob dydd.



Ron Barclay-Smith
Cadeirydd

AMDANOM NI: TROSOLWG STRATEGOL

Pwy ydym ni

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA) yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol o'r Adran Drafnidiaeth (DfT) a sefydlwyd ar 1 Gorffennaf 2004 o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Yr hyn a wnawn

Rydym yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwyllo gwaith yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) - yr heddlu penodedig ar gyfer y rheilffyrdd sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Amrywiodd nifer Aelodau BTPA rhwng 10 a 15 drwy gydol 2023/24, a darparwyd profiad a gwybodaeth ganddynt am faterion yn ymwneud â theithwyr, y diwydiant rheilffordd a gweithwyr y rheilffyrdd. Ar hyn o bryd mae'r Aelodau'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i lunio strategaeth BTP, cynlluniau ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol, ac i fonitro ei weithrediadau a dyrannu cyllid. Mae'r aelodau hefyd yn cefnogi busnes drwy bwyllgorau a gweithgorau. Mae'r strwythur presennol (ar 31 Mawrth 2024) yn cynnwys:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl ac Arfarnu
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban
- Gweithgor Pensiynau
- Panel Adolygu Cwynion
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ein gweledigaeth

Heddlu o safon fyd-eang yr ymddiriedir ynddo i ddarparu rheilffordd ddiogel a dibynadwy.

Ein cenhadaeth

Cydweithio i amddiffyn y gymuned rheilffyrdd, gan greu amgylchedd gelyniaethus ar gyfer trosedd

Ein huchelgaïs a'n hamcanion

Mae ein Strategaeth 2022-27 yn nodi ein hamcanion strategol:

- Atal troseddau a diogelu er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd
- Targedu ein hymdrechion plismona arbenigol i sicrhau bod llai o bobl yn dioddef y troseddau mwyaf niweidiol
- Arloesi a chydweithio â'n partneriaid i leihau aflonyddwch
- Ennill ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff y rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd
- Cynhyrchu gwerth trwy dechnoleg a buddsoddiadau cynaliadwy, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol
- Adeiladu Llu modern a chynhwysol lle mae'r adnoddau angenrheidiol gan ein pobl ac maen nhw'n derbyn arweiniad a gofal da ac yn adlewyrchu elfennau gorau ein cymunedau

Disgrifir ein prif risgiau ac elfennau ansicr yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.

Ein gwerthoedd

Mae gwerthoedd yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, yn gwasanaethu'r cyhoedd ac yn ymgysylltu â phartneriaid. Maent yn sylfaen i heddlu yr ymddiriedir ynddo, sy'n ennyn parch ac y teimlir bod ei weithredoedd plismona yn ddilys. Mae ein pobl wedi ystyried ein gwerthoedd yn ofalus trwy ymgysylltu ar draws BTP. Bydd ein gwerthoedd yn ein galluogi i ddangos tystiolaeth bob dydd ein bod NI AR EIN GORAU.

Dyma ein gwerthoedd:

- Rydym yn falch o amddiffyn
- Rydym yn gofalu
- Rydym yn un BTP
- Rydyn ni'n gwneud y peth iawn
- Rydym yn ymdrechu i fod yn well bob dydd






PENAWDAU PERFFORMIAD



**CORONIAD Y
BRENIN SIARL III**



**CYNNYDD O 87%
YN Y LLADRADAU
ADDATRYSWYD**

gymharu â 2022/23



Roeddem wedi
croesawu

**RHAN AMSER I
SWYDDOGION**



**Y RHAGLEN
DALENT ORAU,**

yng Ngwobrau Rhagoriaeth
mewn Rheoli Pobl 2024 gan
Gymdeithas Rheolwyr Pobl y
Gwasanaethau Cyhoeddus



Deliwyd ag

**84,000 O
ALWADAU
BRYN**



Lawrlwythwyd yr ap
Railway Guardian

**FWY NA 146K
O WEITHIAU**



55% YN LLAI O CWYNIION

fesul 1,000 o swyddogion
na'r cyfartaledd cenedlaethol



ADRODDIAD PERFFORMIAD

CRYNODEB O BERFFORMIAD

Cynllun Strategol 2022-27

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ail flwyddyn y Cynllun Strategol sy'n anelu at ddarparu lle diogel i deithwyr, lle gelyniaethus i'r rhai a fyddai'n gwneud niwed a lle diogel i bobl agored i niwed y deuir ar eu traws ar y rhwydwaith. Rydym yn gwneud hyn mewn partneriaeth â'r diwydiant rheilffyrdd, cyrff gorfodi'r gyfraith ehangach, asiantaethau diogelu a grwpiau teithwyr.

Isod mae asesiad o'n perfformiad yn erbyn pob un o'r Amcanion Strategol.



1. Atal troseddau a diogelu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd


Cofnododd BTP 19% yn fwy o droseddau yn 2023/24 nag yn 2022/23. Cynyddodd y risg o fod yn ddioddefwr trosedd o gymharu â'r llynedd, ond parhaodd yn isel, gyda 26.7 o droseddau wedi'u cofnodi fesul miliwn o deithiau teithwyr (2022/23 : 24.6).

26.7

TROSEDDAU FESUL MILIWN O DEITHIAU TEITHWYR (2022/23: 24.6)




Y cyfraddau o droseddau a gofnodwyd ac a ddatryswyd



Cwblhaodd Uned Cynllunio i Atal Troseddu (DOCU) yr Heddlu

2,024 O DDARNAU ATAL TROSEDDAU, gan gynnwys **149** o brosiectau pensaernïol, **393** o ymweliadau safle ar ôl digwyddiad yn dilyn hunanladdiad neu farwolaeth arall, **200** o achrediadau o orsafoedd diogel a **931** o achrediadau maes parcio mwy diogel eleni.




Blaenoriaethau (neu nodau)	Byddwn yn cyflawni	Cynnydd yn 2023/24
Atal troseddau trwy ddyluniad, targedu tynhau amgylchedd y rheilffyrdd i atal troseddau cyffredin ac ymddygiad gwrthgymdeithasol Dull seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â phob math o drosedd â blaenoriaeth, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwn am beth sy'n gweithio yn y ffordd yr ydym yn plismona'r rheilffordd Datblygu strategaethau rheoli effeithiol i fynd i'r afael â bygythiadau a niwed Partneriaeth ag asiantaethau llesiant i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed neu gamfanteisio Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar draws y system cyfiawnder troseddol i gynyddu canlyniadau barnwrol cadarnhaol ac atal troseddau rhag defnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd Plismona gweladwy yn targedu mannau lle ceir llawer o droseddu er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a staff y rheilffyrdd	Llai o ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, fesul miliwn o deithiau teithwyr Llai o achosion yr amheuir eu bod yn hunanladdiadau ar y rhwydwaith rheilffyrdd Cyfradd canlyniadau cadarnhaol gwell i ddioddefwyr troseddau	Mae BTP yn parhau i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd, asiantaethau diogelwch a llesiant i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar y rheilffyrdd neu'n eu defnyddio i deithio, ar gyfer hamdden neu i weithio, yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i wneud hynny. Cofnododd BTP 19% yn fwy o droseddau yn 2023/24 nag yn 2022/23 (cynnydd o 67,391 i 80,532)¹. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Atal Troseddu BTP yn 2022/23, cwblhaodd Uned Cynllunio i Atal Troseddu (DOCU) yr Heddlu 2,024 o ddarnau atal troseddau, gan gynnwys 149 o brosiectau pensaernïol, 393 o ymweliadau safle ar ôl digwyddiad yn dilyn hunanladdiad neu farwolaeth arall, 200 o achrediadau o orsafoedd diogel a 931 o achrediadau maes parcio mwy diogel eleni. Mae'r ymdrechion i atal troseddau hefyd wedi cynnwys cyhoeddiadau rheilffordd ym mis Ionawr ar y rhwydwaith TfL, byrddau gwybodaeth i gwsmeriaid ac arddangosfeydd gweledol eraill sy'n rhoi cyngor 'Gadget Grabbers'. Mae atal niwed ar y rheilffyrdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae'r gwaith yn parhau gydag amrywiaeth o bartneriaid sy'n cynnwys y GIG a Phartneriaethau Gofal Integredig (ICPs), sefydliadau trydydd sector, y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, y diwydiant rheilffyrdd a heddluoedd eraill. Yn 2023/24 gwnaed 2,242 o ymyriadau achub bywyd gan BTP ac eraill ar y rhwydwaith rheilffyrdd a chyflwynodd swyddogion BTP 5,438 o adroddiadau atal hunanladdiad ac ymyriadau iechyd meddwl (2022/23: 2,260 a 5,880 yn y drefn honno). Mae BTP yn ceisio gwella canlyniadau barnwrol yn barhaus er mwyn atal troseddau a dod â nhw o flaen eu gwell. Datrysodd BTP 10,113 o droseddau yn 2023/24, a oedd 9% yn fwy nag yn 2022/23 (9,239). Fodd bynnag, roedd y cynnydd o 19% mewn troseddau a gofnodwyd yn golygu bod y gyfradd ganrannol a ddatryswyd wedi gostwng ychydig o 14% i 13%.


¹ Noder drwy gydol yr Adroddiad Perfformiad, bod niferoedd troseddau cymharol 2022/23 yn amrywio o Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon 2022/23 oherwydd rheolau cofnodi troseddau. Mae'r amrywiad yn llai nag 1% ar gyfer cyfanswm y troseddau a gofnodwyd.

2. Targeddu ein
hymdrechion
i sicrhau llai o
ddioddefwyr
y troseddau
mwyaf difrifol

Er gwaethaf y cynnydd yn y troseddau a gofnodwyd, roedd y risg o ddioddef y troseddau mwyaf difrifol yn parhau i fod yn isel, gyda 1.2 o droseddau trais difrifol a 0.7 o droseddau lladrata fesul miliwn o deithiau teithwyr (2022/23: 1.2 a 0.5 yn y drefn honno).



YM MIS MEDI 2023, FE ENILLON NI WOBR NPCC ‘MAKING SPACES SAFACH’ AM EIN HYMGYRCH ‘SPEAK UP, INTERRUPT’ I LANSIO AP RAILWAY GUARDIAN.



Blaenoriaethau (neu nodau)	Byddwn yn cyflawni	Cynnydd yn 2023/24
Targedu'r troseddau sydd fwyaf niweidiol i'r cyhoedd, staff y rheilffyrdd a'n cymunedau, gan gynnwys troseddau difrifol a threfnedig a chamfanteisio Mynd i'r afael â thanriportio troseddau rhywiol drwy ei gwneud yn haws i bobl wneud adroddiadau a rhoi hyder iddynt y byddwn yn cymryd yr adroddiadau hynny o ddifrif Darparu gallu Gwrthderfysgaeth er mwyn chwarae ein rhan i gadw'r rhwydwaith rheilffyrdd a'r rheilffyrdd tanddaearol yn ddiogel	Llai o ddioddefwyr troseddau mawr, difrifol a threfnedig a chamfanteisio Gwaelodlin gywir o ymddygiad rhywiol digroeso trwy wella hyder dioddefwyr i riportio troseddau a gwella'r boddhad gyda'r gofal a roddir i ddioddefwyr O'r gwir waelodlin, llai o bobl yn dioddef ymddygiad rhywiol digroeso Gallu gwrthderfysgaeth cymesur, wedi'i integreiddio ag adnoddau partner, sydd â'r cyfarpar a'r hyfforddiant cywir ac sydd wedi ei brofi, er mwyn diogelu a pharatoi	Cofnododd BTP 40% yn fwy o droseddau lladrad yn 2023/24 nag yn 2022/23 (cynnydd o 1,460 i 2,051). Sefydlwyd Ymgyrch Invert BTP yn 2023/24 i atal, lleihau a chanfod y troseddau hyn. Datrysodd BTP 87% yn fwy o ladradau nag yn 2022/23 (cynnydd o 126 i 235), gyda'r gyfradd ganrannol a ddatrwyd yn cynyddu o 9% i 12%. Cofnodwyd 16% yn fwy o droseddau trais difrifol (trais ag anaf) yn 2023/24 nag yn y flwyddyn flaenorol (cynnydd o 3,336 i 3,883). Datrysodd BTP 4% o droseddau trais mwy difrifol yn 2023/24 o gymharu â 2022/23 (cynnydd o 804 i 838), ond gostyngodd y gyfradd a ddatrwyd o 24% i 22%. Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd yr ap Railway Guardian wedi ei lawrlwytho 146,715 o weithiau, ac mae'n parhau i annog pobl a'u galluogi riportio pethau. Derbyniodd BTP 1,761 o negeseuon testun 61016 Railway Guardian rhwng lansiad yr ap ym mis Gorffennaf 2022 a diwedd mis Mawrth 2024. Mae BTP wedi datblygu llwybr newydd y tu allan i'r llys i ymdrin â throseddau lefel isel gydag elfen o aflonyddu rhywiol. Bydd y cwrs 'Ystyriwch' yn cyflwyno mewnbwn addysgol i droseddwyr i fynd i'r afael ag ymddygiadau amhrïodol am y tro cyntaf nad ydynt yn cael eu hystyried yn drosedd rywiol (fel 'cellwair' rhywioledig neu fflyrtio digroeso). Cafwyd cynnydd o 20% mewn troseddau treisgar yn erbyn menywod a merched (o 9,464 i 11,357), a 10% yn fwy o droseddau rhyw wedi'u cofnodi (o 2,246 i 2,475) yn 2023/24 o gymharu â 2022/23. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cynnydd yn nifer yr achosion o'r troseddau hyn ond bod dioddefwyr yn fwy parod i riportio achosion oherwydd y negeseuon a'r ymdrechion ar draws y rhwydwaith. Cofnodwyd 6% yn llai o droseddau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol (o 2,040 i 1,908). Gwnaeth y Tasglu Llinellau Cyffuriau 671 o arestiadau yn 2023/24 (2022/23: 598), atafaelwyd 250 o arfau, gwnaed 540 o atafaeliadau cyffuriau a sicrhawyd 22 cyhuddiad o Gaethwasiaeth Fodern.

3. Arloesi a chydweithio â'n rhanddeiliaid i leihau aflonyddwch

Cafwyd cynnydd o 12% yn nifer yr achosion o darfu yn ymwneud â'r heddlu, ond mae nifer y munudau o oedi sylfaenol fesul digwyddiad wedi aros yn sefydlog ar gyfartaledd o 25.7 munud o oedi sylfaenol fesul digwyddiad tarfu.

20,919

PATROLAU AR Y CYD I WEITHIO MEWN MANNAU LLE MAE TARFU'N BROBLEMUS

Canfu asesiad gwerth am arian lefel uchel yn 2023/24 **am bob £1 a wariwyd gan BTP ar HaRT¹,**

CAFODD Y DIWYDIANT RHEILFFYRDD £2.08 MEWN BUDD-DALA £5.61 O FUDD-DALI'R DU.



1 Tîm Lleihau Niwed



Blaenoriaethau (neu nodau)	Byddwn yn cyflawni	Cynnydd yn 2023/24
Nodi a mynd i'r afael gyda'n gilydd â'r hyn sy'n achosi aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r heddlu Dychwelyd y rheilffyrdd i'r gweithredwyr gynted ag y gallwn, gan gydbwyso effaith y tarfu, diogelwch y cyhoedd a chyfrifoldebau cyfreithiol Gweithio gydag asiantaethau statudol a'r sector gwirfoddol i leihau digwyddiadau aflonyddgar Cydweithio drwy fanteisio ar dechnoleg newydd, gan rannu data yn rhagweithiol i sicrhau bod ein dull gweithredu cyfunol wedi'i dargedu, yn effeithiol ac yn effeithlon	Gwella ymgysylltiad a chynllunio ar y cyd â'r diwydiant rheilffyrdd Gostwng y munudau oedi sylfaenol yn ymwneud â'r heddlu fesul digwyddiad Llai o effaith gymdeithasol ac economaidd yn sgil tarfu yn ymwneud â'r heddlu ar y rhwydwaith rheilffyrdd fesul digwyddiad	Mae BTP yn parhau i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd a sefydliadau eraill, gan gynnwys y Samariaid a Railway Children, i ddiogelu pobl a lleihau oedi. Mae hyn yn cynnwys grwpiau partneriaeth amrywiol, trwy ddefnyddio cynlluniau datrys problemau, ac mae'r rheiny'n cynnwys y Gweithgor Aflonyddwch sy'n cael ei gadeirio gan BTP, a thrwy dimau tasg aflonyddwch a ariennir ar y cyd gan Network Rail yng Nghymru a Lloegr. Mae'r timau hyn yn gweithio'n agos iawn gyda Network Rail i nodi bygythiadau o darfiad ar y rheilffyrdd (boed y rheiny'n seiliedig ar ddigwyddiadau, nifer uchel o bobl agored i niwed, tresmasu, lladrad ceblau, fandaliaeth neu gamddefnyddio croesfannau rheilffordd) a'u lliniaru gyda chynlluniau digwyddiadau pwrpasol, cynlluniau datrys problemau, patrolau adweithiol a rhagweithiol. Yn 2023/24, gwnaeth y timau hyn a ariannwyd ar y cyd 20,919 o batrolau penodol i fannau problemus o darfu, 171 o ymgysylltiadau â'r gymuned ac ysgolion, 121 o arestiadau, 70 o ymgysylltiadau â phobl agored i niwed a 152 o ymyriadau achub bywyd. Roedd cynnydd o 12% yn y nifer o achosion o darfu yn ymwneud â'r heddlu rhwng 2022/23 a 2023/24, sef cynnydd o 27,291 i 30,464. Er gwaethaf hyn, arhosodd nifer cyfartalog y munudau oedi sylfaenol fesul digwyddiad yn sefydlog o gymharu â'r llynedd, sef 25.7 (2022/23: 25.7)². Yr amser cyfartalog a gymerwyd i ymdrin â marwolaethau nad oeddent yn amheus ar y rheilffordd, a'u trosglwyddo'n ôl i'r diwydiant yn 2023/24, oedd 103 munud (2022/23: 95 munud). Mae digwyddiadau tarfu sylweddol yn aml yn destun gwaith ôl-drafod rhwng BTP a'r diwydiant rheilffyrdd, ac mae llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar adfer y rhwydwaith a'r pethau sy'n rhwystro i hynny. Mae Tîm Lleihau Niwed (HaRT) arbenigol BTP yn gweithio gyda'r GIG a gwasanaethau cymorth eraill i leihau nifer yr achosion sy'n cael eu cyflwyno dro ar ôl tro ar y rhwydwaith rheilffyrdd gan y rhai mewn argyfwng a hefyd i atal aflonyddwch a niwed i'r rheilffyrdd. Dyma a ganfu asesiad lefel uchel o werth am arian yn 2023/24: am bob £1 a wariwyd gan BTP ar HaRT, mae'r diwydiant rheilffyrdd wedi derbyn £2.08 mewn budd ac mae Prydain wedi derbyn £5.61 mewn budd. Mae BTP yn parhau i fuddsoddi mewn dronau gyda 70 o beilotiaid ledled y wlad bellach a 25 dronau.

2 Cynyddodd cyfanswm y munudau oedi Cynradd i'r rheilffordd o'r digwyddiadau hyn o 11%, sef cynnydd o 702,186 i 781,996.

4. Meithrin ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'i gilydd

Mae plismona wedi gweld craffu dwys yn y cyfryngau, ond mae BTP ac Awdurdod yr Heddlu wedi blaenoriaethu proffesiynoldeb ac ymddygiad, gan arwain at lai o gwynion.

76%

CYTUNWYD BOD BTP YN
CADW POBL FEL NHW'N
DDIOGEL WRTH DEITHIO
AR Y RHWYDWAITH




Blaenoriaethau (neu nodau)	Byddwn yn cyflawni	Cynnydd yn 2023/24
Gwella ein safonau ymddygiad proffesiynol Parhau i feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd trwy ddeall meddwl y cyhoedd yn well Gwrando ar leisiau teithwyr a staff y rheilffyrdd, ac addasu iddynt, er mwyn siapio'r gwasanaethau a ddarparwn Annog ein cymunedau i rannu safbwyntiau, syniadau, gwybodaeth a rhoi gwybod i ni am droseddau a digwyddiadau cyn gynted â phosibl Gwella'r craffu allanol ar ein gweithgareddau gweithredol, gan gynnwys ein defnydd o bwerau plismona Deall sut rydym yn defnyddio ein pwerau ar draws ein holl gymunedau a mynd i'r afael ag anghymesuredd	Gwell atebolrwydd cyhoeddus am ein gwasanaethau plismona Mwy o foddhad gyda phroses ymdrin â chwynion empathig a rhagweithiol Sicrwydd mewnol cryfach o'n safonau proffesiynoldeb wedi'i gefnogi gan ddiwylliant sy'n tynnu sylw at ddrwgweithredu a galw am ei gywiro Gwell cyngor allanol, goruchwyliaeth a chraffu ar ein safonau plismona Gwell canlyniadau o arolygon o agwedd y cyhoedd er mwyn sicrhau hyder mewn plismona ac ymdeimlad o ddiogelwch y cyhoedd	Cafwyd ffocws parhaus ar wella safonau ymddygiad proffesiynol ar draws yr heddlu trwy fuddsoddiad parhaus yn yr Adran Safonau Proffesiynol (PSD). Mae BTP yn parhau i ddatblygu ei ddiwylliant o dynnu sylw at ymddygiad drwg trwy ei wasanaeth 'Speak Up' cyfrinachol a dienw. Yn 2023/24 cafwyd 218 o adroddiadau 'Speak Up' (2022/23: 237). Arweiniodd achosion o gamymddwyn difrifol at gyfradd ddiswyddo gyson o 95% mewn gwrandawiadau yn 2023/24. Yn 2023/24, cafwyd 736 o gwynion, (2022/23: 788), a chafwyd 148 o gwynion fesul 1,000 o swyddogion (2022/23: 162; cyfartaledd cenedlaethol 23/24: 332). Mae BTP yn parhau i dracio meddwl y cyhoedd a monitro tueddiadau. Mae'r uchafbwyntiau diweddaraf, o Draciwr Canfyddiad y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod o Ragfyr i Chwefror 2024, yn dangos bod 90% o ymatebwyr wedi clywed am y BTP. O'r rhai oedd wedi clywed am BTP, roedd 76% yn cytuno bod BTP yn cadw pobl fel nhw yn ddiogel wrth deithio ar y rhwydwaith. Yn gyffredinol, cytunodd 74% eu bod yn credu bod BTP yn gweithio'n galed i atal troseddau, cytunodd 74% eu bod yn teimlo pe byddent yn riportio trosedd i BTP y byddai'n cael ei gymryd o ddifrif a chytunodd 71% fod BTP yn deg wrth ddefnyddio eu pwerau. Eleni lansiwyd platfform newydd i arolygu teithwyr. Mae wedi bod yn fyw ers mis Hydref 2023 ac mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol. Mae pob cylch arolygu'n cynhyrchu tua 3,000 o ymatebion, gan ddarparu cyfoeth o ddata ar agweddau teithwyr. Lansiwyd Arolwg o Ddiodefwyr Troseddau newydd hefyd eleni. Mae'r gwaith cychwynnol o adolygu'r adborth wedi dechrau er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw newidiadau yn y broses o wella'r gwasanaeth i ddioddefwyr. Yn ogystal, lansiwyd arolwg staff rheilffyrdd wedi'i adnewyddu ym mis Mawrth gyda chwestiynau newydd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae cymuned staff y rheilffyrdd ei eisiau gan BTP a'r ffordd orau i ni eu cefnogi. Mae BTPA yn gwella ei graffu ar weithgarwch gweithredol BTP trwy gynyddu ei ffocws ar gyfreithlondeb trwy archwilio defnydd BTP o bwerau yn agosach. Mae perchnogaeth y Grŵp Cyngori Annibynnol Strategol bellach wedi'i throsglwyddo i BTPA i gydlynu'n ganolog, gwella dysgu sefydliadol a chynorthwyo'r Awdurdod i ddwyn BTP i gyfrif. Mae BTP yn parhau i ganolbwyntio ar ddeall sut mae'n defnyddio ei bwerau gweithredol. Yn ogystal â chraffu gan BTPA ac yn allanol, mae gan yr Heddlu nifer o fyrddau craffu mewnol, gan gynnwys byrddau ar gyfer y ddalfa, stopio a chwilio a defnyddio grym. Mae byrddau cyfreithlondeb allweddol yn craffu ar ddata am y defnydd o bwerau plismona, ac mae anghymesuredd yn nodwedd allweddol o'r drafodaeth wrth i'r Heddlu ymdrechu i naill ai esbonio, neu ddiwygio, trwy Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.

5. Cynhyrchu gwerth am arian trwy fanteisio ar dechnoleg, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol

Gan fod y galw wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi buddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella effeithlonrwydd, rydym yn parhau i geisio gwerth am arian.

Rydym wedi creu Offeryn Cynllunio Capasiti sydd wedi bod a gydnabyddir mewn plismona fel rhywbeth sy'n caniatáu ar gyfer

**GALW
GWEITHREDOL
MWY SYML.**



£3.1M

YR ARBEDION ARIAN PAROD A
WNAED YN 2023/24

Blaenoriaethau (neu nodau)	Byddwn yn cyflawni	Cynnydd yn 2023/24
Targedu ein pobl, ein hasedau a'n gweithgareddau tuag at y pethau sy'n cynhyrchu'r gwerth mwyaf i gymuned y rheilffyrdd Herio aneffeithlonrwydd, gan sicrhau fod 'pob ceiniog yn cyfrif' tuag at ein nodau strategol Trawsnewid ein model gweithredu mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn ailosod lle bydd ein galluoedd craidd ar eu mwyaf effeithiol Cwrdd â'r cerrig milltir allweddol yn ein cynllun i ddod yn heddlu sero net o ran carbon erbyn 2035 Dylunio a darparu strategaeth ddigidol, data a thechnoleg i alluogi canlyniadau plismona a yrrir gan werth Gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ysgogi gwell gwerth ledled y diwydiant rheilffyrdd	Perfformiad cryf ymhlith yr heddlu o ran darparu gwasanaethau effeithlon yn erbyn adroddiadau archwilio annibynnol Cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd mesuradwy â thystiolaeth i'w hail-fuddsoddi lle byddant yn cael yr effaith fwyaf ar ein strategaeth Mae ein partneriaid yn credu'n gryf bod BTP yn cynrychioli gwerth da am arian ac yn eu helpu i ysgogi gwell gwerth yn eu busnesau eu hunain Tystiolaeth o gamau dros oes y strategaeth i gyflawni ein cynllun cynaliadwyedd Cynnydd yn erbyn cerrig milltir trawsnewid mawr, gan ddangos y manteision a ddarparwn	Dyma ail flwyddyn ein rhaglen drawsnewid 'Force on the Move', sy'n ceisio dod o hyd i ffyrdd o gynhyrchu mwy o werth trwy arbedion effeithlonrwydd. Gwnaethpwyd arbedion arian parod realeiddiadwy blyneddol o £3.1m yn 2023/24 (heb eu harchwilio). Disgrifir y rhain yn adran 'Sicrhau Buddion ac Effeithlonrwydd' yr Adroddiad Llywodraethu. Mae Every Penny Counts yn galluogi staff i gynnig syniadau sy'n gallu cynhyrchu arbedion. Yn 2023/24, mae hyn wedi arwain at osgoi costau o £102k a nodwyd eleni. Rydym wedi creu Offeryn Cynllunio Cynhwysedd sydd wedi'i gydnabod ym maes plismona fel un sy'n caniatáu ar gyfer galw gweithredol symlach. Dechreuwyd gweithio ar ein Model Plismona wedi'i Optimeiddio y disgwylir iddo sicrhau buddion yn 2024/25. Gweler 'Sicrhau Buddion ac Effeithlonrwydd' i gael rhagor o fanylion. Trwy fuddsoddi yn y tîm a'r systemau, rydym wedi gwella ein gwaith o fonitro cynaliadwyedd. Disgrifir hyn yn fanylach yn adran Cynaliadwyedd yr Adroddiad Llywodraethu. Mae buddsoddi mewn technoleg yn darparu arbedion effeithlonrwydd mewn canlyniadau plismona, megis trwy gyflwyno dyfeisiau llaw a systemau fel Geospatial sy'n cefnogi swyddogion i wneud mwy wrth symud. Mae mentrau fel yr Uned Ymyriadau Brys gyda Network Rail wedi treialu technoleg dronau; rydym hefyd yn cysylltu â heddluoedd eraill i rannu gwersi a ddysgwyd.

6. Adeiladu Llu modern a chynhwysol lle mae'r adnoddau angenrheidiol gan ein pobl ac maen nhw'n derbyn hyfforddiant, arweiniad a gofal da ac yn adlewyrchu elfennau gorau ein cymunedau

Mae pobl wrth galon yr hyn a wnawn, gyda dros 80% o'n costau'n gysylltiedig â chyflogau. Mae mentrau newydd wedi ceisio gwella amrywiaeth ein gweithlu, gan gynnwys bod yr heddlu cyntaf yn y DU i gynnig rolau swyddogion rhan-amser.

1ST HEDDLU I HYSBYSEBU ROLAU SWYDDOGION RHAN-AMSER

Y cyfraddau cynrychiolaeth ethnigrwydd ar gyfer yr holl weithwyr oedd:

Pob Gweithiwr		
Grŵp Ethnig	2023/24 Canran %	2022/23 Canran %
Gwyn	82.2	82.2
Asiaidd	7.9	7.9
Du	3.9	3.9
Cymysg	3.3	3.3
Heb ei nodi	2.7	2.7

Ar gyfer swyddogion heddlu, y cyfraddau Cynrychiolaeth Ethnigrwydd oedd:

Swyddogion Heddlu		
Grŵp Ethnig	2023/24 Canran %	2022/23 Canran %
Gwyn	86.7	85.9
Asiaidd	5.3	5.6
Du	2.4	2.7
Cymysg	2.8	3.0
Heb ei nodi	2.8	2.8

Blaenoriaethau (neu nodau)	Byddwn yn cyflawni	Cynnydd yn 2023/24
Cynrychioli profiadau a chefnidiroedd amrywiol y cymunedau a wasanaethwn yn well Datblygu galluedd a chymarebau arweinyddiaeth i sicrhau grymuso, empathi a chefnogaeth effeithiol Cryfhau sut rydyn ni'n gofalu am ein pobl trwy raglen lles newydd Moderneiddio ein technoleg, offer, dysgu a'n gwasanaethau ystadau Deall a dysgu o hanes, cyfle i fyfyrïo a dysgu ac esblygu	Gwell ymgysylltiad â phobl (cynnyddu meincnodau'r arolwg) Gwell cynrychiolaeth, yn enwedig o ran rhyw ac ethnigrwydd Gweithle cynhwysol lle gall pawb ddod â'u hunain cyfan i'r gwaith, lle sicrhair tystiolaeth o hynny drwy ddadansoddiad teimladau Model arweinyddiaeth mwy effeithlon ac effeithiol ac uwchsgilio ein harweinwyr i arwain Gweithlu gyda'r galluedd a'r profiadau angenrheidiol i gyflawni ein cynllun strategol Y pecyn llesiant mwyaf cynhwysfawr ym maes plismona yn y DU, sy'n adlewyrchu ein gofynion unigryw; gan gynnwys rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid, cymorth sy'n benodol i'r rôl, cynnig cymorth seicolegol gwell a hyb i roi cyngor ac arweiniad Technoleg sefydlog a diogel sydd ar gael ac sy'n cefnogi ein uchelgeisiau digidol a data Ystad sy'n bodloni ein hanghenion gweithrediadol, cynaliadwyedd a busnes	Mae strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth BTP yn cael ei hadnewyddu i sicrhau bod BTP yn dod mor gynhwysol â phosibl. Rhan o'r gwaith hwn yw sicrhau bod yr Heddlu yn cyrraedd ein cymunedau amrywiol allanol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyrraedd pobl ifanc a, thrwy ein Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Heddlu hefyd yn ceisio adeiladu proses ffurfiol ar gyfer cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael profiad o weithio yn BTP. Yn ogystal, trwy ei gysylltiadau cymorth amrywiol i weithwyr, mae BTP yn gweithio i ymestyn ein cyrhaeddiad y tu allan i'r sefydliad i annog pobl i riportio troseddau a digwyddiadau a meithrin perthnasoedd gwaith gwell gyda'r gymuned. Mae ein hadroddiadau am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd yn dangos gostyngiad yn y bwlch cyflog cymedrig ar gyfer staff benywaidd a Du, Asiaidd a Chymysg. Gweler yr Adroddiad Tâl i gael dadansoddiad o'r adroddiadau bwlch cyflog hyn. Er mwyn sicrhau gweithle mwy amrywiol a chynhwysol, mae tîm recriwtio pwrpasol wedi'i ffurfio i chwilio am ymgeiswyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae rolau swyddogion heddlu rhan-amser wedi'u creu, a dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd ym mhlismona'r DU. Mae Cronfeydd Talent wedi'u datblygu a chwblhaodd 99.8% o weithwyr Adolygiadau Datblygiad Personol (PDRs) gan alluogi unigolion i ddatblygu a chamu y tu allan i'w rolau arferol. Mae'r tîm Talent wedi ennill gwobr 'Rhaglen Doniau Orau' y Gwobrau Rhagoriaeth mewn Rheoli Pobl, gan gydnabod cymaint o welliant sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Aethom ati i ailgynllunio datblygiad ein harweinyddiaeth, gan gynnwys dyrchafiadau, yn dilyn yr argymhellion yn adolygiad Casey am arweinyddiaeth gynhwysol. Lansiwyd 'hyb llesiant' newydd yn 2023/24 oedd yn cynnig mwy o adnoddau, offer a digwyddiadau i gefnogi llesiant. Mae ein hymateb rhagweithiol i iechyd, diogelwch a lles yn sicrhau y cynigir cymorth i weithwyr cyn gynted â phosibl unwaith y bydd angen wedi'i nodi. O ystyried natur gwaith yr heddlu, rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y rhai sy'n mynychu digwyddiadau anodd yn cael eu gwahodd i gael cymorth. Mae buddsoddi mewn technoleg yn cefnogi gweithio mwy ystwyth ac effeithlon, yn ogystal â buddsoddiad mewn ystadau modern a chynaliadwy. Mae hyn yn dilyn adborth o'n harolwg ymgysylltu â phobl 2023. Gweler adrannau 'Technoleg' ac 'Adroddiad Cynaliadwyedd' y Datganiad Llywodraethu.

ADRODDIAD ARIANNOL

DADANSODDIAD
ARIANNOL

Y diffyg net ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £33.4 miliwn (2022/23: £107.2 miliwn), ac roedd £17.6 miliwn (2022/23: £105.4 miliwn) ohono’n ymwneud ag IAS19: Addasiad cyfrifo pensiynau Buddion Cyflogaeth (gweler y datganiad llif arian). Y diffyg net wedi’i addasu ar ôl dileu’r addasiad IAS19 yw diffyg o £15.8 miliwn (2022/23: diffyg o £1.8 miliwn).

Mae diffyg yn parhau ar ôl yr addasiad hwn yn bennaf o ganlyniad i dri mater. Derbyniodd BTPA gymeradwyaeth i ddefnyddio elfen o arian wrth gefn i ariannu rhywfaint o’r dyfarniad cyflog yn 2023/24. Nid yw unrhyw ddibrisiant a godir ar asedau a ariennir y tu allan i fecanwaith codi tâl Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu (PSA) yn cyd-fynd yn union â phryd y derbynnir cyllid, ac yn aml mae’r cyllid yn llifo trwy’r datganiad o newidiadau mewn ecwiti yn hytrach nag fel incwm. Yn ogystal, codir costau prydlesu ar ddeiliaid PSA ar sail arian parod yn hytrach nag ar sail cost IFRS16 sy’n creu gwahaniaeth yn amseriad yr incwm a’r gwariant. Mae adenilliad llawn o’r elfennau terfynol hyn o wariant yn dal i gael ei sicrhau dros amser.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £’000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £’000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £’000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £’000	Cyllideb 2024/25 £’000
Incwm	319,838	331,123	350,662	368,251	394,539
Gwariant	(386,460)	(441,006)	(457,861)	(401,600)	(416,241)
Diffyg Net Gan gynnwys costau pensiwn IAS19	(66,622)	(109,883)	(107,199)	(33,349)	(21,702)
Gwarged/(diffyg) net wedi’i addasu Dileu costau pensiwn IAS19	(10,132)	(3,313)	(1,809)	(15,749)	(6,932)

Non-Current Assets	67,690	89,826	98,310	91,245	N/A
Total Assets	125,612	154,049	164,740	161,306	N/A
Current Liabilities	(58,194)	(62,546)	(65,376)	(76,289)	N/A
Non-Current Liabilities	(1,054,862)	(938,016)	(75,128)	(38,217)	N/A
Taxpayers Equity	(987,444)	(846,513)	24,236	(46,800)	N/A

Perfformiad Ariannol Pum Mlynedd

Mae'r tabl yn dangos ffigurau alldro ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 hyd at y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024 a'r gyllideb ar gyfer 2024/25.

Cafodd Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd ar gyfer 2024/25 hyd at 2028/29 ei adolygu gan yr Awdurdod yn ystod 2023/24. Cymeradwywyd cyfanswm y gyllideb rheoli gwariant ar gyfer 2024/25 gan gynnwys cynnydd o 8.9% mewn cyllid PSA.

Mae'r tabl yn dangos mai elfen gyfnewidiol allweddol yr incwm a gwariant blyneddol yw costau pensiwn IAS19. Felly mae ffigwr diffyg wedi'i addasu sy'n dileu cost IAS19 wedi'i ddarparu i ganiatáu cymaroldeb dros y pedair blynedd a sefyllfa ariannol sylfaenol gliriach. Yr addasiad IAS19 yw swm y llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net, costau gweinyddu a gwasanaeth; wedi'u lleihau gan gyfraniadau cyflogwr.

Yr ymrwymiad pensiwn net hefyd yw elfen gyfnewidiol allweddol asedau a rhwymedigaethau. Ar ôl mabwysiadu IAS19: Buddiannau Cyflogeion, mae'r sefyllfa ariannol agoriadol fel yr oedd ar 1 Ebrill 2023 yn dangos rhwymedigaethau pensiwn net o £49.4 miliwn. Rhwymedigaeth net y cynllun ar 31 Mawrth 2024 oedd £16.1 miliwn: gostyngiad o £33.3 miliwn yn y flwyddyn. Mae cyfradd ddisgownt uwch wedi lleihau'r rhwymedigaeth budd-daliadau yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT), fel adran noddi'r Awdurdod, yn gwarantu unrhyw ddiffygion pensiwn. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at Nodyn 23 yn y Datganiadau Ariannol.

Perfformiad y Flwyddyn Gyfredol

Cynyddodd yr incwm a gydnabuwyd yn y flwyddyn o £17.6 miliwn, sef cynnydd o £350.7 miliwn yn 2022/23 i £368.3 miliwn yn 2023/24. Y rheswm pennaf am y cynnydd hwn oedd cynnydd o 4.5% mewn taliadau BTPA a gymeradwywyd gan yr Awdurdod i adennill costau.

Bu gostyngiad o £44.0 miliwn mewn costau staff, o £350.4 miliwn yn 2022/23 i £306.3 miliwn yn 2023/24. Cynyddodd costau cyflogres safonol o ganlyniad i godiad cyflog

o 7% yn 2023/24 a chynnydd yn y pwyntiau colofn cyflog, ond cawsant eu gwrthbwysu gan ostyngiad o £66.1 miliwn yn addasiad cyfraniadau IAS19.

Cynyddodd y gwariant arall o £14.5 miliwn, sef cynnydd o £54.1 miliwn yn 2022/23 i £68.6 miliwn yn 2023/24. Bu cynnydd o £7.6 miliwn mewn rhenti o dan brydlesi gweithredu yn dilyn addasiad yn natganiadau ariannol 2022-23 o ganlyniad i ailasesiad o'r holl brydlesi yn erbyn meini prawf IFRS16. Mae costau adeiladau wedi cynyddu £3.0 miliwn oherwydd cynnydd mewn taliadau cyfleustodau. Mae BTPA hefyd wedi gweld cynnydd chwyddiannol mewn costau eraill gan gynnwys cyfathrebu a chyfrifiaduron.

Mae effaith addasiadau pensiwn IAS19 o £44.8 miliwn ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn is na'r flwyddyn flaenorol (2022/23: £109.3 miliwn) o ganlyniad i'r gostyngiad yn rhwymedigaeth pensiynau'r flwyddyn flaenorol. I gael rhagor o fanylion am y dadansoddiad o'r costau, cyfeiriwch at Nodyn 23 yn y Datganiadau Ariannol.

Yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, gostyngodd gwerth cario asedau anghyfredol o £7.1 miliwn, o £98.3 miliwn yn 2022/23 i £91.2 miliwn yn 2023/24. Gwnaethpwyd ychwanegiadau ac addasiadau o £15.5 miliwn yn y flwyddyn gyfredol ar gyfer gwariant cylchol fflyd, y prosiect cyfrifo defnyddiwr terfynol, gwelliannau lesddaliad yn ogystal ag ailbrisio asedau. Gwrthbwyswyd hyn gan ddibrisiant ac amorteiddiad a godwyd o £22.5 miliwn.

Cynyddodd cyfanswm yr asedau cyfredol o £3.6 miliwn, sef cynnydd o £66.4 miliwn yn 2022/23 i £70.1 miliwn yn 2023/24. Roedd cynnydd mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill o £3.1 miliwn wedi digwydd o ganlyniad i groniadau incwm a godwyd ar gyfer taliadau PSA ychwanegol 2023/24 sydd i'w casglu yn 2024/25.

Cynyddodd cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol o £10.9 miliwn, sef cynnydd o £65.4 miliwn yn 2022/23 i £76.3 miliwn yn 2023/24. Roedd balans incwm gohiriedig gwerth £6.2 miliwn oedd yn cyfrif am y derbyniadau arian parod tâl PSA 2024/25 a gasglwyd yn gynnar

wedi cyfrannu at y cynnydd hwn. Yn ogystal, roedd gwerth dau gyfnod o drethi a thaliadau nawdd cymdeithasol eraill yn ddyledus i CThEM yn cael eu dal fel rhwymedigaeth yn 2023/24



gan nad oedd taliad yn ddyledus eto. Mae hyn yn cymharu â gwerth un cyfnod yn unig o daliadau yn rhwymedigaethau 2022/23.

Gostyngodd gwerth rhwymedigaethau anghyfredol o £36.9 miliwn, o £75.1 miliwn yn 2022/23 i £38.2 miliwn yn 2023/24. Sbardunwyd hyn gan ostyngiad o £33.3 miliwn yn y rhwymedigaeth bensiwn net yn dilyn cyfradd ddisgownt uwch a gymhwyswyd ym mhrisiadau IAS19.

Er bod Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith sylweddol ar lawer o sefydliadau sector cyhoeddus yn ystod 2022/23 a 2023/24, nid yw wedi cael yr un effaith ar y sefydliad hwn. Nid oes unrhyw wariant ychwanegol sylweddol wedi'i achosi o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

Sicrhau Effeithlonrwydd a Buddion

Yn unol â Chynllun Strategol 2022-2027, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio ein cyllideb yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae gan BTP hanes cryf o ryddhau arbedion ac effeithlonrwydd trwy drawsnewid. Yn ail flwyddyn ein rhaglen newid eang 'A Force on the Move', rydym wedi cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd a addawyd sy'n rhyddhau arian i'w ailfuddsoddi er mwyn galluogi gwelliannau pellach o ran cynhyrchiant, perfformiad a llesiant.

Cyflwynwyd arbedion rhyddhau arian parod gwerth £14.7m dros oes y strategaeth (hyd at 2027), gydag arbedion ariannol sylweddol o £3.1m elen¹. Aethom ati i gynnal adolygiadau strwythurol o rengoedd goruchwyllo Uwcharolygydd i Arolygydd a'u swyddogaethau cymorth. Aethom ati i adolygu ein gallu

Gwrthderfysgaeth sydd hefyd wedi ymgorffori gwelliannau i'n galluoedd Ymarfer Corff a Phrofi. Yn ogystal, mae'r Heddlu wedi nodi arbedion osgoi costau o £0.45m y flwyddyn drwy symleiddio gwasanaethau iwnifform a'n hól troed eiddo tiriog ym Manceinion. Mae ein hymgyrch 'Mae Pob Ceiniog yn Cyfri' yn gofyn i staff gynnig syniadau a allai gynhyrchu arbedion. Un cyfle o'r fath oedd darparu rhywfaint o'r hyfforddiant ar gyfer pobl ar brawf fel darpariaeth ar-lein. Yn 2023/24, mae'r syniadau hyn wedi arwain at osgoi costau werth £102k.

Yn unol â Fframwaith Effeithlonrwydd y Llywodraeth, rydym wedi sefydlu amrywiaeth o arbedion cynhyrchiant â gwerth ariannol drwy ddarparu atebion technolegol ac ailgynllunio gwasanaethau sydd wedi lleihau'r amser a dreulir gan swyddogion a staff ar dasgau llaw biwrocrataidd.

Mae'r portffolio Trawsnewid wedi canolbwyntio ar gyflawni ein rhaglen newid uchelgeisiol o fewn ei amlen o fuddsoddiad. Mae wedi ceisio ail-fuddsoddi'r arbedion sy'n rhyddhau arian fel sail i gynnal gallu newid canolog, er mwyn sicrhau bod trawsnewid yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad. Mae'r portffolio wedi cefnogi ystod o welliannau gallu cylchol gan gynnwys Fideo ar y Corff, Cyfrifiadura gwell, adnewyddu fflyd, offer plismona arbenigol ac asedau dysgu a datblygu. Mae'r rhain yn cyd-fynd â mentrau newid a fydd yn gwneud y gorau o gyflawni ein hamcanion (Plismona Integredig a Diogelwch, gwelliannau i ystadau ac adleoli, Porth Cuddwybodaeth Arbenigol, cardiau gwarant digidol newydd, Amnewid y fewnwyd ac adleoli'r Ganolfan Ddata).

¹ unaudited

Mae'r meysydd cynnydd allweddol eleni yn cynnwys:

Gwelliannau mewn Technoleg

Mae'r Heddlu wedi parhau i hybu arloesedd trwy gyfres o ddatblygiadau gallu technolegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth a'n cynlluniau plismona. Rydym wedi lansio ein cais cudd-wybodaeth a briffio newydd, Geospatial, a gafodd ei dreialu yn rhan o ymgyrch blismona ar gyfer Coroniad y Brenin Siarl III ar 6 Mai 2023. Mae Geospatial yn arwain y ffordd o ran symud swyddogion i ddigwyddiadau yn eu hardal mewn ffordd fwy effeithlon a chynyddu effeithiolrwydd gweithgarwch diogelu ac atal troseddau. Mae manteision y cais yn cynnwys yr holl sesiynau briffio cudd-wybodaeth mewn un lle, sesiynau briffio sy'n benodol i leoliad yn cael eu gwrthio'n syth i ddyfeisiau symudol swyddogion tra'u bod ar batrôl a swyddogaeth mapio i wella ymwybyddiaeth y swyddogion i gyd am y sefyllfa. Mae eisoes yn darparu canlyniadau cadarnhaol ar lawr gwlad. Enghraifft o hyn oedd ym mis Chwefror 2024, pan oedd swyddog yn Northampton wedi gweld y sesiwn friffio Geospatial ac wedi adnabod unigolyn hysbys. Yn dilyn chwiliad, roedd y swyddog wedi gallu cyflawni arestiad, dychwelyd nwyddau wedi'u dwyn i ddiodefwr ac wedi cychwyn cymorth diogelu i'r troseddwr.

Rydym wedi dechrau gweithredu'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol (NEP) a sefydlwyd i ddarparu set o safonau ar draws yr holl gymwysiaid TG a ddefnyddir mewn plismona. Bydd NEP yn ei gwneud hi'n haws cyfathrebu a chydweithio â chydweithwyr a heddluoedd eraill rydyn ni'n gweithio gyda nhw a darparu gwell mynediad at wybodaeth trwy well cymwysiaidau. Mae hefyd yn lliniariad allweddol ar gyfer ein risg strategol Seiber a Diogelwch Data.

Cynllunio Strategol

Fel sefydliad sy'n cael ei yrru gan werth, rydym wedi datblygu Cylch Cynllunio Strategol newydd sy'n cysylltu ac yn alinio ein strategaeth, ein hasesiadau cudd-wybodaeth a bygythiad, Datganiad Rheoli'r Heddlu (newidiadau yn y galw), cyllid a chynllunio'r gweithlu yn un broses. Mae hyn yn gyfle i gefnogi BTPA a BTP ar y cyd ('BTP/A') i symud ymlaen â phenderfyniadau estynedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac argymhellion ar gyfer pob cylch cynllunio ariannol blyneddol. Am y tro cyntaf, mae hyn wedi cynnwys Adolygiad Gallu lle mae'r holl wybodaeth, data a mewnbwn yn cael eu coladu, gan gymharu capasiti a gallu pob swyddogaeth gorfforaethol yn erbyn y galw presennol a'r galw a ragwelir a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

Elfen arloesol o'r cylch newydd hwn yw cyflwyno offeryn meddalwedd Cynllunio Capasiti a ddatblygwyd yn fewnol, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adolygiad Cynhyrchiant Heddlu NPCC2, Idran sy'n dangos sut y rheolir galw gweithredol a pha gapasiti gweddilliol rydym yn ei ganiatáu ar gyfer plismona rhagweithiol. Mae plismona rhagweithiol yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau, megis patrolau amlwg iawn o fannau lle ceir llawer o broblemau o darfu a throseddau – patrolau wedi eu harwain gan ddadansoddiadau a yrrir gan ddata, gweithio gyda phartneriaid i atal troseddau drwy ddull cydweithredol o ddatrys problemau, a rheoli pobl mewn argyfwng i ffordd oddi wrth y rheilffordd er mwyn atal tarfu. Rydym yn darparu patrolau gwelededd a sicrwydd lle mae ofn uchel o drosedd. Mae Hyb Strategol yn cael ei datblygu hefyd i gynnal ein cylch cynllunio busnes integredig newydd ar gyfer yr Heddlu cyfan.

Trawsnewid ein model gweithredu mewn ffordd gynaliadwy

Yn unol â'n cynllunio strategol, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu rhaglen Model Plismona Wedi'i Optimeiddio (OPM) a fydd yn cydbwysu ein horiau plismona rhagweithiol ar draws adrannau fel y gallwn fynd i'r afael yn well â manau problemus o ran troseddau, cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, a chyflwyno cyfleoedd i fwy o'n pobl. Bydd OPM yn edrych ar Gwnstabiad, Rhingylliaid, a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar draws ein Hadrannau rheng flaen i weld sut y gallwn ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym yn y ffordd orau bosibl, gan ystyried agweddau unigryw pob rhanbarth. Rhaid i'n model gweithredu gyflawni'r hyn sydd ei angen ar y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau hefyd ein bod yn gwneud y peth cywir i'n pobl ac yn adlewyrchu ein gwerth o fod yn un BTP. Amcangyfrifir y bydd y gwaith hwn yn cefnogi meintioli cyfle i wneud arbedion ariannol gwerth £9.3m y flwyddyn. Casglwyd data dros y flwyddyn ddiwethaf i'w fewnbynnu i'r OPM. Mae gweithgaredd yn cael ei gwblhau i ddatblygu'r offeryn cynllunio gallu ar gyfer ein Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) rheng flaen a'r Adran Rheoli Troseddau, er mwyn llywio gwaith cynllunio busnes a gwaith OPM yn y dyfodol.

2 <https://www.gov.uk/government/publications/policing-productivity-review>

ADRODDIAD ARIANNOL

ADRODDIAD CYNALADWYEDD

Mae BTP wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n ymwneud â'r hinsawdd sy'n gyson â'r canllawiau am gymhwyso datgeliad sydd wedi'u halinio gan Dasglu Tasglu EF ar Ddatgeliad Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae BTP wedi cydymffurfio ag argymhellion TCFD a datgeliadau argymhellion ynghylch:

- llywodraethu – pob datgeliad a argymhellir o dan (a) arolygiaeth y Bwrdd a (b) rôl y rheolwyr
- metrigau a thargedau – datgeliadau o dan (b) Allryiadau

Mae hyn yn cyfateb ag amserlen gweithredu datgeliad y llywodraeth ganolog sydd wedi'i halinio â TCFD. Mae BTP yn bwriadu gwneud datgeliadau ar gyfer datgeliadau Strategaeth, Rheoli Risg a Metrigau a Thargedau (a) a (c) mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol yn unol ag amserlen gweithredu'r llywodraeth ganolog.

Mae strategaeth Carbon Sero Net ('NZC') BTP yn eiddo ar y cyd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Masnachol. Mae cynnydd a pherfformiad ar sero net/cynaliadwyedd yn cael eu monitro ar hyn o bryd trwy strwythur llywodraethu 'Force on the Move'.

Dyrennir Uwch Swyddogion Cyfrifol i bob rhaglen, tra bod arweinwyr y ffrydiau gwaith priodol yn gyfrifol am gyflawni. Darperir trosolwg llywodraethu trwy fyrdau swyddogaethol, ac i Fwrdd

Gweithredol yr Heddlu sy'n cwmpasu cynnydd NZC, ac adroddir ar gynnydd a mesuriadau blynyddol i'r BTPA.

Mae risgiau a chyfleoedd strategol ac ystadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu rheoli a'u riportio drwy broses risgiau BTP ac adroddir ymhellach ar risgiau sy'n gysylltiedig â hinsawdd yr ystâd i'r Adran Drafnidiaeth drwy'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol blynyddol.

Mae BTP a'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflawni NZC erbyn 2035. Mae'n elfen allweddol o Gynllun Strategol 2022-2027 ac fe'i cefnogir gan strategaeth NZC 2022-2035 a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2022. Mae'r elfennau allweddol y manylir arnynt yn ein strategaeth yn seiliedig ar rymuso personol ac ar osod NZC wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mentrau Cyflawni

- During 2023/2024 the continuation of mobilising the strategy has seen the completion of a series of initiatives:
- accurate data collection, analysis and recording via specialist software,
 - active engagement with supply chain to tackle complex carbon accounting of Scope 3 emissions,
 - embedding Net Zero thinking as business as usual in all areas of the organisation,
 - engagement with staff to raise awareness of strategy and empower them to make sustainable changes,
 - removal of unnecessary single use plastics from our operations,
 - planning estate reductions and upgrades to fabric of buildings through refurbishment projects,
 - sourcing uniform and new products from NZC factories, and
 - implementing recycle to reuse and zero to landfill schemes.

Monitro ac adrodd ar ddata

Mae BTP wedi dewis 2019/20 fel y flwyddyn waelodlin i adrodd yn ei herbyn am fod hyn yn adlewyrchu blwyddyn gyda'r data mwyaf cadarn cyn y pandemig. Yr ailfesuriad data cyntaf yw 2022/23 gan nad oedd blynyddoedd Covid-19 yn adlewyrchu blwyddyn weithredu arferol. Diwygiwyd data gwaelodlin gwreiddiol 2019/20 yn dilyn dadansoddiad sylweddol o ddata craidd, casglu data gwell a darparu setiau data newydd. Rhoesom feddalwedd monitro newydd ar waith yn 2023/24 a fydd yn ein galluogi i gofnodi ein heffaith carbon yn fwy cywir. Nid oedd data 2023/24 ar gael ar adeg cyhoeddi ond bydd yn cael ei adrodd ar ein gwefan.

Mae cwmpas ein hadroddiadau cynaliadwyedd yn cynnwys ein gweithrediadau. Mae gennym ragamcanion ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a 2 lle mae gennym adeiladau a ddarperir gan Transport for London ('TfL') a phob adeilad lle rydym yn talu taliadau heb fesurydd. Er eu bod yn wirfoddol, mae gweithgareddau Cwmpas 3 yn cynnwys teithio busnes, gweithgareddau fflyd, staff yn cymudo a gweithgareddau cadwyn gyflenwi. Hyd nes y gellir gweithio drwy ymarferoldeb casglu data cadwyn gyflenwi cymhleth yn llawn, defnyddir data gwariant ar gyfer cyfrifiadau.

Cwmpasau Allyriadau	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2019/20	Perfformiad Gweithredol 2022/23	Targed gweithredol ¹ 2030 Cwmpas 1 a 2, 2035 Cwmpas 3
Cyfanswm Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr tCO ₂ e	18,873	19,686	10,149 tCO ₂ e - 2030 6,187 tCO ₂ e - 2035
Cwmpas 1 - Ynni Uniongyrchol	3,343	3,267	< 46.2% by 2030
Cwmpas 2 - Ynni Anuniongyrchol	2,619	1,796	< 46.2% by 2030
Cwmpas 3 - Teithio busnes, fflyd, cadwyn gyflenwi graidd, staff yn cymudo	12,911	14,623	< 67.2% by 2035

¹ Mae targedau interim wedi'u gosod yn unol â'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, sef bod allyriadau Cwmpas 1 a 2 yn cyrraedd NZC erbyn 2030 ac allyriadau Cwmpas 3 yn gwneud hynny erbyn 2035. Yn dilyn targed 2035, gosodir targedau pellach i gyflawni'r uchafswm gostyngiadau erbyn 2050, i leihau'r ddibyniaeth ar wrthbwyso ac i sicrhau y gellir cynnal NZC ymhell i'r dyfodol.

Targedau a Chynnydd Ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy Gwyrdd 2021-2025

Mae BTP yn adrodd ar berfformiad allyriadau carbon i'r Adran Drafnidiaeth drwy'r targedau cysylltiedig â 'Gwyrddio Ymrwymiadau'r Llywodraeth' (GGC). Yn ogystal, rydym yn asesu effeithiau amgylcheddol ein gweithrediadau yn barhaus ac yn gosod

amcanion a thargedau i wella ein perfformiad amgylcheddol. Byddwn yn adolygu ac yn adrodd yn erbyn y targedau hyn yn rheolaidd. Sylwch ein bod yn defnyddio gwaelodlin ddiwygiedig o 2019/20 er bod y gostyngiadau GGC yn seiliedig ar 2017/18 sydd wedi'u cynnwys er gwybodaeth (lle maent ar gael).

Thema	Mesur	Uned	Gwaelodlin Ddiwygiedig BTP 2019/20	Gwirion- eddol 2021/22	Gwirion- eddol 2022/23	Gwirion- eddol 2023/24	Targed Gostyngiad o Waelodlin 2017/2018 GGC
Lliniaru'r Newid Hinsawdd	ULEV ² ceir	% fflyd ceir	0%	29%	29%	29%	25% erbyn Rhagfyr 2022
	Teithiau Awyr Busnes Domestig	Teithiau awyr a gyme- wyd	228	74	96	166	<30% (2017/18: 245 o deithiau awyr)
Lleihau Gwastraff	Cyfanswm Gwastraff ³	Dunnell	173t	118t, sy'n cyfateb i 6% i safleoedd tirlenwi	108t, sy'n cyfateb i 6% i safleoedd tirlenwi	178.65t, sy'n cyfateb i 1% i safleoedd tirlenwi	<15% o wastraff cyffredinol a <5% i safleoedd tirlenwi (2017/18: 48% o wastraff i safleoedd tirlenwi)
	Defnydd papur	Rimau	19,778	8,241	9,453	7,550	<50% (2017/18: 18,786)
Lleihau'r Defnydd o Ddŵr	Defnydd dŵr ⁴	M ³ /FTE	3.24	2.07	2.03	2.88	<8% (2017/18: 5.55m ²)

2 Cerbydau Allyriadau Isel lawn – Targed 25% erbyn Rhagfyr 2022 a 100% erbyn Rhagfyr 2027
3 Gwastraff – Mae'r contract Rheoli Cyfleusterau Cyfan (TFM) yn cynnwys casglu a gwaredu gwastraff ar % o safleoedd BTP; mae gan y safleoedd sy'n weddill wasanaeth casglu a gwaredu gwastraff a ddarperir gan y landlord
4 Mae defnydd dŵr yn cael ei fesur ar % o leoliadau BTP gyda'r safleoedd sy'n weddill lle mae gennym gytundebau i dalu tâl gwasanaeth heb fesurydd.



Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn parhau i ostwng ar gyfer Cwmpas 1 a 2 yn unol â llwybr llithro. Mae Cwmpas 3 wedi gweld cynnydd gyda buddsoddiad uwch mewn asedau na blyneddodedd blaenorol – offer TG a cherbydau trydan sy'n costio bron ddwywaith cymaint â cherbydau Peiriannau Tanio Mewnol. Mae cael cerbydau trydan yn rhan o'r ffylid eisoed yn cyfrannu at leihau allyriadau yn gyffredinol.

Mae'r Ystâd yn cyfrannu'n fawr at leihau allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2, ac mae ganddi raglen gynlluniedig o adleoli i adeiladau llai yn unol â pholisïau gweithio'n gallach. Bydd llwyddiant adleoliad ein hyb yn Birmingham i adeilad mwy modern ac effeithlon ynghyd â phlat llawr gostyngol yn cael ei ailadrodd pan fyddwn yn adleoli pencadlys ein heddlu yn ddiweddarach yn 2024 i adeiladau modern newydd a fydd tua 50% yn llai.

Ar gyfer yr ystâd sy'n weddill mae gennym gynllun 10 mlynedd i ddatgarboneiddio adeiladau trwy amnewid goleuadau LED fel y trefniant safonol yn ystod y gwaith

adnewyddu, cynllun i amnewid i LED yn llwyr ar gyfer yr ystâd sy'n weddill, ac amrywiaeth o fentrau tymor hwy megis ailosod boeleri tanwydd ffosil, gosod araeau PV solar, a gwella ffabrig yr adeiladau lle bo'n berthnasol.

Caffael Cynaliadwy

Mae BTP yn cymhwyso'r defnydd o Safonau Prynu'r Llywodraeth (GBS) a rheoli effeithiau cadwyn gyflenwi, fel sy'n ofynnol gan GGC. Rydym wedi mabwysiadu safiad Swyddfa'r Cabinet i NZC ar gystadlaethau mawr gwerth £5m+ ond gostyngodd BTP y trothwy ymhellach fel bod cystadlaethau sy'n fwy na £200k yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gadarnhau eu hymrwymiad i NZC a chael strategaeth ar waith erbyn 2025.

Rydym wedi cydweithio â chyflenwyr i ddarparu cynhyrchion NZC o ffynonellau cynaliadwy; cyflwynwyd iwnfform wedi'i weithgynhyrchu o ddeunyddiau adnewyddadwy, wedi'u hailgylchu, a chynaliadwy, anfon dim byd i safleoedd tirlenwi a menter ailgylchu i aildddefnyddio. Mae'r holl asedau TG yn cael eu tracio hyd

ddiwedd eu hoes pan gânt eu hasesu a'u hailgylchu, eu hail-farchnata neu eu hadleoli ac ni chaiff unrhyw offer ei anfon i safleoedd tirlenwi gan arwain at arbed dros 15ltCO₂e yn ystod 2023/24.

Aethom ati i newid cyflenwadau swyddfa i fod o ffynonellau cynaliadwy, tynnu miloedd o eitemau plastig untro na ellir eu hailgylchu o'n porth archebu a chyflwyno categori gwobr blynyddol i'r cyflenwr cynaliadwy gorau yn y gwobrau 'Ni ar ein Gorau' i gydnabod y cyflenwr sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf wrth gefnogi BTP yn ein taith i NZC.

Rydym wedi dewis tariff trydan Di-Garbon i Fusnes sy'n golygu bod y cyflenwad yn cael ei gefnogi gan gynhyrchu pŵer niwclear Di-Garbon yn hytrach na phŵer o losgi tanwydd ffosil, sy'n dangos ein hymrwymiad gwirioneddol i Sero Net.

Cefnogi staff, ymgysylltu, recriwtio a dysgu

I gynnwys ein pobl ar y daith i NZC rydym wedi sefydlu grŵp Llysgennad Sero Net a fydd yn cefnogi newid yn y ffordd y mae ein pobl yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd er mwyn lleihau eu heffaith unigol ar yr amgylchedd yn y gwaith. Cynhelir sesiynau rheolaidd lle rhoddir diweddariadau am uchelgeisiau cynaliadwyedd a chynnydd fel y gellir rhaeadr newyddion i gydweithwyr i helpu i sicrhau newid diwylliannol, fforwm i gyfarfod, rhannu a chynhyrchu syniadau a thrafod ffyrdd o wella a lleihau allyriadau carbon. Ategir hyn gan ymgyrch gyfathrebu fewnol i greu ymgysylltiad a chodi ymwybyddiaeth. Cefnogir hyn ymhellach gan adran adnoddau parhaol lle gall pobl gael mynediad at ddeunyddiau a phecynnau dysgu, dod o hyd i ddolenni at wefannau perthnasol, adnoddau PDF a fideos allanol sydd oll yn ymwneud â Sero Net a'r argyfwng hinsawdd.

Mae pob swydd wag allanol a mewnol yn cynnwys negeseuon ein strategaeth i ddangos ein hymrwymiad i ddod yn sefydliad Sero Net

Teithio – Fflyd Ceir

Ar hyn o bryd mae gan fflyd BTP 580 o gerbydau, ac mae 296 o'r rhain yn geir. Mae

cyfanswm o 85 o geir (29%) bellach yn gwbl drydanol, sy'n rhagori ar darged Fflyd Werdd y Llywodraeth o gael 25% o'r fflyd ceir yn rhai gydag allyriadau sero erbyn Rhagfyr 2022.

Teithiau Awyr Domestig

Yn ystod 2023/24, cafwyd cyfanswm o 166 o deithiau awyr domestig (2022/23: 96⁵) sy'n gynydd o 72.9% eleni. Mae'r cynnydd mewn teithiau awyr domestig yn adlewyrchu'r ffaith bod BTP yn Heddlu Cenedlaethol ac yn dychwelyd i'w fusnes arferol ar ôl pandemig. Sbardunau'r cynnydd hwn yw arbedion costau ac amser o gymharu â dulliau eraill o deithio. Mae'n adlewyrchu gostyngiad o 27.2% o gymharu â gwaelodlin ddiwygiedig BTP yn 2019/20 a gostyngiad o 32.2% o gymharu â gwaelodlin GGC yn 2017/18.

Papur

Mae'r defnydd o bapur yn parhau i fod yn is na'r targed gweithredol o <50% yn erbyn gwaelodlin ddiwygiedig 2019/20 a llinell sylfaen GGC 2017/18 gyda gostyngiad blynyddol o 20% ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Mae'r symudiad tuag at fwy o brosesau digidol wedi cadw'r defnydd o bapur i'r lleiaf posibl ac rydym wedi sicrhau mai dim ond papur o ffynonellau cynaliadwy y gellir ei archebu trwy ein cyflenwr deunydd ysgrifennu. Rydym wedi gosod archebion yn 2023/24 a fydd yn arwain at newid pob dyfais amlswyddogaethol yn 2024, gan arwain at effeithlonrwydd ynni uwch a llai o ddefnydd o getris inc. Disgwylir i'r perfformiad hwn gael ei gynnal ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Dŵr

Mae'r defnydd o ddŵr yn parhau i ostwng i 2.88M 3 fesul CALI, sy'n llawer is na tharged y Llywodraeth o leihau'r defnydd o 8% o leiaf. Gwelwyd gostyngiad o 51.9% ers 2017/18. Mae'r defnydd yn cael ei fesur ar 10% o leoliadau BTP ac yn y safleoedd sy'n weddill mae gennym gytundebau i dalu tâl gwasanaeth heb fesurydd. Mae gan BTP lefel llai o ddŵr fesul CALI sy'n adlewyrchu deiliadaeth is o adeiladau ar y safleoedd sydd â dŵr wedi'i fesur. Disgwylir i'r duedd hon barhau i ostwng wrth i adleoli ystadau arfaethedig arbed lle a chyfleustodau.

⁵ Dangosodd cyfrifon cyhoeddedig 2022/23 75 o deithiau awyr. Ceir y gwahaniaeth oherwydd anfoneb hwyr gan ein cyflenwyr teithio.

Gwastraff

Rhagorwyd ar dargedau Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth i leihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir o 15% o waelodlin 2017 i 2018, gan mai dim ond 1% (178t) a aeth i safleoedd tirlenwi yn 2023/24 (2022/23: 6%). Mae'r contract Cyfanswm Rheoli Cyfleusterau (TFM) yn cwmpasu casglu a gwaredu gwastraff mewn dros 40% o safleoedd BTP; mae gan y safleoedd sy'n weddill wasanaeth casglu a gwaredu gwastraff a ddarperir gan y landlord. Dywedodd landlordiaid fod cyfanswm o 108 tonnelli wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi yn 2022/23.

Adeiladu cynaliadwy

Nid yw BTP wedi cael unrhyw waith adnewyddu mawr yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ond maent yn y camau cynllunio terfynol i adleoli Hyb Llundain ar ddiwedd 2024. Y gostyngiad yn y plât llawr o ganlyniad i adleoli yw c. 50% ac er bod y landlord yn gyfrifol am y gwaith adnewyddu, ymgynghorir yn llawn â BTP. Mae ffactorau cynaliadwyedd a NZC wedi'u cynnwys yn yr holl gynlluniau a fydd yn sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn

allyriadau carbon ar unwaith ac ymhell i'r blynyddoedd i ddod.

Addasiadau newid hinsawdd

Mae BTP yn parhau i fod heb unrhyw leoliadau lle mae angen addasu i newid hinsawdd. Mae'r safleoedd yn parhau i gael eu hasesu i ganfod y risg eu bod yn agored i lifogydd, ac mae ffactorau o'r fath yn cael eu hystyried wrth gynllunio parhad y busnes. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd wedi'i wreiddio o fewn prosesau llywodraethu, gwneud penderfyniadau a sicrwydd cyffredinol ac mae canllawiau ac ystyriaethau Sero Net wedi'u cynnwys mewn achosion busnes fel elfen safonol lle bo'n berthnasol.



Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad

25 Gorffennaf 2024





ADRODDIAD ATEBOLRWYDD



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Datganiad o Gyfrifoldebau'r
Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad Llywodraethu

Prif Risgiau ac Ansicrwydd

ADRODDIAD TALIADAU

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ARCHWILIO

Colledion a Thaliadau Arbennig

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr
a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r
Senedd

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

ADRODDIAD Y
CYFARWYDDWYR

Aelodau'r Awdurdod:



RON BARCLAY-SMITH
Cadeirydd

Penodwyd 5 Mawrth 2018. Ailbenodwyd 5 Mawrth 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu: Cadeirydd
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl a Gwerthuso: Cadeirydd

- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban: Cadeirydd (tan 23 Tachwedd 2023)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig: Aelod o'r Tribiwnlys Rheoleiddio
- Pitteadie Castle Ltd: Cyfarwyddwr



DYAN PERRY
Deputy Chair

Penodwyd ar 12 Chwefror 2024 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu: Dirprwy Gadeirydd
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl a Gwerthuso: Dirprwy Gadeirydd
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Dirprwy Gadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Network Rail: Cyfarwyddwr Anweithredol (o 24 Mehefin 2024)
- Ymgynghoriaeth Newton: Cynghorydd

- Cwmni Rheilffordd East West: Cyfarwyddwr Anweithredol (Corff hyd braich yr Adran Drafnidiaeth, Cadeirydd y Pwyllgor SHE)
- Llywodraeth Awstralia: Awdurdod Rheilffordd Cyflymder Uchel: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Uwchraddio Llwybr TransPennine: Cyfarwyddwr Anweithredol (Cynrychiolydd yr Adran Drafnidiaeth ar Fwrdd y Rhaglen)
- Grŵp Rheilffordd Cyflymder Uchel: Cadeirydd
- Academi Sgiliau Genedlaethol - Rheilffyrdd: Cadeirydd
- MEDD Properties Ltd: Cyfarwyddwr



BILL MATTHEWS

Penodwyd 1 Tachwedd 2012. Ailbenodwyd 31 Hydref 2019 gyda thymor o dair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth ei dymor i ben 30 Ebrill 2023.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban: Cadeirydd
- Gweithgor Pensiynau: Cadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Cofrestr Genedlaethol yr Alban: Cyngorydd Anweithredol
- Hunangyflogedig: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) a'r Cyngor Meithrin a Bydwreigiaeth (NCM)
- Bwrdd Unedol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu: Aelod Anweithredol
- Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yr Alban: Cadeirydd
- Scottish Futures Trust: Cyfarwyddwr
- Redress Scotland: Cadeirydd Dros Dro



BEVERLEY SHEARS

Penodwyd 26 Ionawr 2017 gydag estyniad o dri mis wedi'i ganiatáu. Ailbenodwyd 3 Ebrill 2020 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth ei thymor i ben 25 Ionawr 2024.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Gweithgor Pensiynau

- Pwyllgor Pobl a Diwylliant: Cadeirydd
- Gweithgor Cynllun Plismona

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Anglia: Cyfarwyddwr Anweithredol Dirprwy Gadeirydd
- Prifysgol De Montfort: Llywodraethwr Annibynnol
- De Montfort University Students Union DSU Ltd: Cyfarwyddwr
- Blue Amaranth Consulting Ltd: Perchennog



WILLIE GALLAGHER

Penodwyd 26 Ionawr 2017 gydag estyniad o dri mis wedi'i ganiatáu. Ailbenodwyd 11 Mawrth 2021 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu

- Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Cadeirydd (o 31 Ionawr 2024)
- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Dim



ANDREW COOPER

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd. Penodwyd yn Ddirprwy Gadeirydd Dros Dro 1 Rhagfyr 2020 dros dro tan 19 Mai 2023. Ailbenodwyd 20 Mai 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis gan gynnwys estyniad fel Dirprwy Gadeirydd Dros Dro wedi'i ymestyn tan 11 Chwefror 2024.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Cadeirydd
- Gweithgor Pensiwn: Dirprwy Gadeirydd
- Gweithgor Cynllun Plismona (tan 31 Ionawr 2024)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Dim



KENNA KINTREA

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Ailbenodwyd 20 Mai 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis..

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Cadeirydd

- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban
- Gweithgor Cynllun Plismona (tan 31 Ionawr 2024)
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio (o 31 Ionawr 2024)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Akroa Cyf: Cyfarwyddwr
- NNB Generation Company (HPC) Limited: Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol



SIR CRAIG MACKEY

Penodwyd 20 Mai 2019 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Ailbenodwyd 20 Mai 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad: Cadeirydd (o 31 Ionawr 2024)

- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Gweithgor Cynllun Plismona: Dirprwy Gadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Aelod Annibynnol Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil
- Awdurdod Heddlu Dinas Llundain: Aelod Annibynnol
- CTM Strategy and Consulting Ltd: Cyfarwyddwr



FIONA BRUNSKILL

Penodwyd ar 23 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl a Gwerthuso (tan 31 Ionawr 2024)

- Gweithgor Pensiwn: Cadeirydd (o 31 Ionawr 2024)
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Dirprwy Gadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Trafnidiaeth i Lundain: Prif Swyddog Pobl



EMIR FEISAL

Penodwyd ar 28 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Archwilio a Sicrwydd Risg: Dirprwy Gadeirydd
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad (o 31 Ionawr 2024)
- Gweithgor Pensiwn (tan 31 Ionawr 2024)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Yr Arolygiaeth Gynllunio: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio
- YMCA Dinas Llundain a'r Gogledd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
- (Rhan Amser)
- Tŷ'r Cwmnïau: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Bwrdd Safonau'r Bar: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Yr Ombwdsmon Pensiynau: Cyfarwyddwr Anweithredol

- Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio (daeth y tymor i ben ym mis Chwefror 2024)
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Anrhydeddau Gwasanaeth Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet: Aelod pwyllgor
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Ynad, a Barnwr y Llys teulu
- Abaty Wycombe, Ysgol Merched Annibynnol: Llywodraethwr



NICK HAWKINS

Penodwyd ar 28 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl ac Arfarnu
- Panel Adolygu Cwynion
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant: Cadeirydd (o 31 Ionawr 2024)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a

Throseddu: Y Cadeirydd sy'n Gymhwysedig yn Gyfreithiol, rhanbarthau Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Ddwyrain, De Ddwyrain a De Orllewin Lloegr

- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig: Cadeirydd Lleyg ac Aelod, Tribiwnlys Rheoleiddio
- The Hawkins Consultancy Ltd: Cyfarwyddwr
- Tenantiaeth Siambrau Normanton: Bargyfreithiwr (Hunangyflogedig fel tenant mewn siambrau)
- Canolfan Chwaraeon a Chymuned Wellesbourne: Ymddiriedolwr



ARGLWYDD JACKSON O PETERBOROUGH (STEWART JACKSON)

Penodwyd ar 28 Chwefror 2022 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (tan 31 Ionawr 2024)
- Panel Adolygu Cwynion

- Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Yr Adran Drafnidiaeth: Comisiynydd Preswylwyr HS2
- Wheelpower: Cadeirydd y Pwyllgor Codi Arian
- Regen Aspire Limited: Cyfarwyddwr
- Political Insight Ltd: Sylfaenydd, Cadeirydd a Chyfarwyddwr
- Tŷ'r Arglwyddi: Arglwydd y Deyrnas fel Barwn Jackson o Peterborough



BRIAN LYNCH

Penodwyd ar 15 Ionawr 2024 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (o 31 Ionawr 2024)

- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad: Dirprwy Gadeirydd (o 31 Ionawr 2024)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Trafnidiaeth i Lundain: Pennaeth Gweithrediadau



PATRICIA HAYES

Penodwyd ar 15 Ionawr 2024 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant: Dirprwy Gadeirydd (o 31 Ionawr 2024)

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Cyd-fenter Skanska, Costain, Strabag: Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Tîm y Rhaglen Integredig
- Baringa Management Consulting: Cynghorydd
- London Travelwatch: Cadeirydd
- Transport Focus: Aelod



PAULA CARTER

Penodwyd ar 15 Ionawr 2024 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Penodiadau, Tâl ac Arfarnu
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF): Ynad
- Yr Undeb Rygbi (RFU): Cyfarwyddwr Anweithredol
- Awdurdod Porthladd Llundain: Is-Gadeirydd
- Chartstone Ltd: Cyfarwyddwr
- Be the Business Ltd (Masnachol): Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 31 Mawrth 2024)
- Pwyllgor Cynghori Ofcom i Loegr: Cadeirydd



ABDUL ELGHEDAFI

Penodwyd ar 15 Ionawr 2024 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Panel Adolygu Cwynion
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Bwrdeistref Harrow yn Llundain: Prif Gyfreithiwr Cynorthwyol (Gweithredol dros Fwrdeistref Llundain Harrow, Barnet a Hounslow a Chyngor Bwrdeistref Slough)
- Yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru: Aseswr Annibynnol (Apeliadau a Chwynion Cyllid Myfyrwyr)
- Yr Adran Drafnidiaeth: Aelod Panel

Apeliadau Annibynnol a Chadeirydd (Apeliadau Tocynnau Cosb ar ran Cwmnïau Gweithredu Trên (TOCs))

- Gwasanaethau ERA: Aelod o'r Pwyllgor Didueddrwydd
- Uned Cymorth Comisiynu De, Canolbarth a Gorllewin y GIG: Aelod Annibynnol dros Wasanaeth Ceisiadau Cyllido Unigol (IFR) Kent Medway
- Tribiwnlys Haen Gyntaf yn yr Alban: Aelod Cyffredin
- Prifysgol Aberdeen: Uwch Diwtor
- Cyngor Bwrdeistref Islington yn Llundain: Aelod Annibynnol o'r Panel ar gyfer y Cynllun Taliad Cymorth
- Cymdeithas Ddeieteg Prydain: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban: Aelod o'r Cyngor



IAIN WHYTE

Penodwyd ar 6 Tachwedd 2023 gyda thymor o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Awdurdod yr Heddlu
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban: Cadeirydd (o 24 Tachwedd 2023)
- Gweithgor Cynllun Plismona
- Gweithgor Pensiwn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Cyngor Dinas Caeredin: Cynghorydd
- Edinburgh March Riding Association Ltd: Cadeirydd
- Edinburgh International Conference Centre Limited: Cyfarwyddwr
- EDI Group Ltd: Cyfarwyddwr

Swyddogion yr Awdurdod

Prif Swyddog Gweithredol
– Hugh Ind

Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd – Sarah Church

Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd (dros dro 15 Awst 2022 – 14 Medi 2023)
– Rubeela Qayyum

Grŵp Prif Swyddogion BTP

Prif Gwnstabl – Lucy D’Orsi CVO QPM

Dirprwy Brif Gwnstabl – Alistair Sutherland QPM

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Cyswllt Cyhoeddus a Throseddau Arbenigol – Charlie Doyle

Paul Furnell (penodiad dros dro i gyflenwi dros y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Doyle rhwng 8 Ionawr 2024 a 6 Gorffennaf 2024)

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Gweithrediadau Arbenigol – Sean O’Callaghan

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Plismona Rhwydwaith (penodiad parhaol 31 Mawrth 2023 yn dilyn penodiad dros dro i’r rôl ym mis Awst 2021) – Allan Gregory

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol – Tracey Martin, diweddodd y tymor ar 29 Mai 2023

Steff Sharp (penodiad dros dro rhwng 19 Mehefin 2023 a 19 Awst 2024)

Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant – Rachael Etebar

Trefniadau pensiwn

Mae BTP yn dilyn IAS 19: Buddion Cyflogeion sydd wedi achosi i rwymedigaethau Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ("cynllun Swyddogion Heddlu") ac Adran Costau a Rennir yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd ("Cynllun Staff") gael eu cofnodi ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Cyfeiriwch at nodyn 23 i weld datgeliad pellach yn ymwneud â'r ddau gynllun pensiwn. Cyfeiriwch at nodyn 2.19 i weld polisi cyfrifyddu BTPA ar gyfer pensiynau.

Cynhaliwyd prisiad llawn diwethaf y cynllun Swyddogion Heddlu ar 31 Rhagfyr 2021. Roedd ganddo sylfaen asedau o £1,746 miliwn a lefel ariannu Darpariaethau Technegol o 104%.

Cynhaliwyd prisiad llawn diwethaf y cynllun Staff ar 31 Rhagfyr 2022. Cymeradwywyd y prisiad hwn ym mis Mehefin 2024.

Twyll, llwgrwobrwyo a llygredd

Mae BTPA yn dilyn Safonau Gweithredol Gwrth-dwyll Swyddfa'r Cabinet ac yn cymryd agwedd dim goddefgarwch os bydd unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd. Ymchwilir yn egniol i unrhyw achosion a amheuir o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn unol â Pholisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd BTP. Mae'r polisi ar gael i'w ddarllen ar wefan BTPA.

Yn unol ag arfer gorau, mae BTP a'r Awdurdod yn rhagweithiol wrth atal a chanfod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, gan ddefnyddio asesiadau risg i bennu ffrydiau gwaith a meysydd ffocws.

Mae gan BTP a'r Awdurdod bolisi chwythu'r chwiban sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd da. Mae mecanwaith dienw i'w gael lle gall gweithwyr roi gwybod am unrhyw amheuron neu bryderon. Cyflwynir adroddiadau chwythu'r chwiban i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Archwilwyr

Mae cyfrifon Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ("C&AG") o dan y Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth (2003). Cost yr archwiliad yw £165,000 (2022-23: £143,500). Mae'r gwaith o ddarparu'r archwiliad hwn wedi'i is-gontractio i KPMG LLP. Ni wnaeth KPMG LLP na'r C&AG unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio ar gyfer BTPA (2021-22: £dim).

Cyn belled ag y gŵyr y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r holl wybodaeth archwilio berthnasol ar gael i'r archwilwyr. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam angenrheidiol i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar ddyddiad llofnod y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.



Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad

25 Gorffennaf 2024



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth (2003), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi cyfarwyddo BTPA i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa BTPA ac o'i hincwm, gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratwir y cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud hyn yn benodol:

- Cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- Paratwir datganiadau ariannol ar sail busnes parhaus, a
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Drafnidiaeth wedi dynodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Gweithredol, gyda chytundeb yr Adran Drafnidiaeth, wedi penodi'r Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, i fod yn atebol am yr adnoddau a'r asedau, rhwymedigaethau a llif arian cysylltiedig sy'n dod o dan ei rheolaeth. Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon BTPA.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol am gyfeiriad a rheolaeth yr Heddlu ac mae'n ofynnol iddo ystyried y cynlluniau a'r strategaethau a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn nodi'r berthynas rhwng cyfrifoldebau statudol a chyfraith gyffredin y Prif Gwnstabl, annibyniaeth mewn materion plismona

a chyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli a gwariant BTP, a chyfrifoldeb ar y cyd am baratoi'r cyfrifon hyn. Mae'r penodiad hwn yn adlewyrchu ymreolaeth grantiau BTPA i BTP wrth wario'r gyllideb a roddwyd iddo gan BTPA, ac annibyniaeth lawn BTP mewn materion plismona. Fodd bynnag, rôl BTPA o hyd yw arfer goruchwyliaeth briodol o BTP.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano; ar gyfer cadw cofnodion cywir; a diogelu asedau BTPA, fel y nodir yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilyr y Gronfa BTP yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw'r archwilyr yn ymwybodol ohoni.

Cadarnhaf hefyd fod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymeraf gyfrifoldeb personol am feirniadaethau a wnaed i sicrhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

DATGANIAD LLYWODRAETHU

Cyflwyniad y Swyddog Cyfrifyddu i lywodraethu corfforaethol

Fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rwy'n gyfrifol am gynnal system gref o lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gan hefyd ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r dyletswyddau a roddwyd i mi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

Penodir y Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol gyda chyfrifoldeb am gyllideb BTP, trafodion a materion cysylltiedig yn ymwneud â rheolaeth ariannol, polisïau, nodau ac amcanion BTP.

Fel Corff Hyd Braich yr Adran Drafnidiaeth (DfT), mae Cadeirydd a Gweithrediaeth BTPA yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion. Mae gan yr Awdurdod a'r Prif Gwnstabl fynediad i'r tîm Gweinidogol, i drafod plismona a strategaeth.

Mae gan BTPA ddyletswydd i oruchwylio BTP, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn adeiladol, mewn diwylliant sy'n meithrin didwylledd a dadl. Caiff hyn ei ailadrodd yn strwythur llywodraethu BTP a cheir gweithio effeithiol rhwng y ddau sefydliad. Mae BTPA yn ymdrechu i wella llywodraethu yn barhaus, o ran strwythurau pwyllgorau, adrodd i bwyllgorau ac adolygu effeithiolrwydd y bwrdd. Mae'r Cod Llywodraethu yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i adnewyddu i gynnwys newidiadau ac mae ar gael ar wefan BTPA.

Yn 2023/24, mae cynllunio ariannol,

cynllunio buddsoddiadau a buddion ac arbedion effeithlonrwydd wedi bod yn ffocws allweddol i oruchwyliaeth y pwyllgor. Rydym yn ceisio darparu gwerth am arian i'n rhanddeiliaid ac mae gennym awydd buddsoddi mewn prosiectau a fydd yn gwella effeithlonrwydd ac yn ein galluogi i dyfu ein partneriaethau gyda diwydiant – ac mae hyn oll yn arwain at well gwasanaeth plismona i deithwyr a diwydiant (gweler enghreifftiau yn y crynodeb Perfformiad).

Mae'r Prif Gwnstabl wedi parhau i ganolbwyntio ar wella diwylliant ac atebolrwydd BTP, gan arwain at rymuso gweithwyr ymhellach a pherchnogaeth gryfach gan uwch reolwyr ar feysydd allweddol. Bu ymdrech hefyd i ddeall gallu'r Heddlu a sut i fanteisio i'r eithaf ar hyn, yn enwedig lle mae galw cynyddol am blismona. Mae'r Offeryn Cynllunio Cynhwysedd wedi galluogi i'r broses o wneud penderfyniadau ddod o hyd i'r model plismona gorau posibl, menter sydd yn ei chamau gweithredu cynnar ar 31 Mawrth 2024.

Mae lefel uchel o graffu allanol ar blismona yn parhau, felly mae cael sicrwydd o ddefnydd cyfreithlon pwerau'r heddlu yn derbyn lefel uchel o graffu ar draws y pwyllgorau. Mae galw ychwanegol am blismona yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi bod yn heriol, yn enwedig wrth ymateb i'r protestiadau cyhoeddus yn dilyn y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Mae angen rheoli protestiadau yn ofalus iawn. Mae llywodraethu gweithredol cryf wedi galluogi'r Heddlu i lywio hyn; gyda goruchwyliaeth gan y pwyllgorau. Mae deall anghenion y cymunedau y mae BTP/A yn eu gwasanaethu yn hanfodol i



wella ymddiriedaeth a hyder. Mae BTPA wedi arwain cyfarfodydd Grŵp Cyngori Annibynnol Strategol er mwyn deall ein cymunedau yn well.

Mae'r ddau sefydliad wedi cydweithio'n agos i ddeall, lliniaru a rheoli risgiau strategol. Defnyddir hwn, yn ei dro, i gynllunio gweithgareddau sicrwydd yn seiliedig ar risg ar draws y tair llinell amddiffyn. Mae mapio'r sicrwydd a gafwyd yn caniatáu i mi, fel Swyddog Cyfrifyddu, oruchwylio'r amgylchedd rheolaeth fewnol. Mae adroddiadau cryfach i fyrdau BTP a phwyllgorau BTPA yn galluogi trafodaethau cydweithredol ar reolaethau mewnol a throsolwg o unrhyw gamau adferol sydd eu hangen. Mae defnyddio archwiliadau dwfn i ganfod risgiau strategol wedi hwyluso gwell dealltwriaeth o'r risgiau sy'n rhoi'r

bygythiad mwyaf i'r sefydliad, ac mae'r sicrwydd yn ei le i ddilysu'r ffaith bod y prosesau a'r rheolaethau lliniaru wedi'u cynllunio ac yn gweithredu'n effeithiol. Ceir rhagor o fanylion yn adrannau Rheoli Risg a Sicrwydd yr Adroddiad Llywodraethu.

Yn y flwyddyn sy'n dod bydd lefel uchel o newid yn digwydd yn BTP/A wrth i'n Hystadau gael eu symleiddio, gan gynnwys symud ein Hyb yn Llundain a rhoi'r model plismona wedi'i optimeiddio newydd ar waith, a bydd newid gan ffactorau allanol hefyd, yn cynnwys diwygiad y rheilffyrdd gan y llywodraeth a'r amgylchedd economaidd. Bydd BTP a'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio llywodraethu cryf, rheoli risg a rheolaethau mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd, a byddent yn addasu'r rhain lle bo angen.

Y Strwythur Llywodraethu ar 31 Mawrth 2024

Yr Awdurdod

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer y rheilffyrdd. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Gweithrediaeth yr Awdurdod Mae tîm Gweithredol yr Awdurdod yn cefnogi'r Aelodau drwy:

- Sicrhau bod prosesau effeithlon ac effeithiol ar waith i fodloni dyletswyddau statudol yr Awdurdod
- Datblygu cynlluniau a strategaethau
- i ategu'r strwythur llywodraethu ffurfiol megis Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Darparu swyddogaeth sicrwydd
- Perchnogi a rhedeg y model dyrannu costau i dalu costau plismona

Dyletswyddau Statudol

- Sicrhau'r gwaith o gynnal a chadw heddlu effeithlon ac effeithiol
- Sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol ar y rheilffyrdd
- Penodi'r Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol
- Gwneud Cytundebau Gwasanaeth Heddlu gyda gweithredwyr y rheilffyrdd
- Cyflogi cwnstabliaid a staff yr heddlu
- Rheoleiddio llywodraethu, gweinyddiaeth ac amodau'r rhai a gyflogir gan BTP
- Pennu strategaeth, amcanion a chyllideb ar gyfer plismona'r rheilffordd
- Cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus

Is-bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol Heddlu BTP

Penodiadau, Tâl a Gwerthuso

- Cymeradwyo recriwtio uwch swyddogion y BTP a Phrif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BTPA
- Monitro perfformiad blynyddol y staff uwch yn BTP a BTPA
- Arwain ar faterion y gweithlu gan gynnwys amodau gwasanaeth swyddogion heddlu, staff a swyddogion gwirfoddol
- Arwain ar ymgysylltu â chymdeithasau staff

Plismona Rheilffyrdd yr Alban

- Darparu atebolrwydd a thryloywder ar gyfer plismona rheilffyrdd yn yr Alban
- Darparu trosolwg a chraffu ar reolaeth ddiogel ac effeithiol plismona rheilffyrdd yn yr Alban
- Asesu ac adrodd ar werth am arian mewn perthynas â'r elfennau hynny o Gronfa BTPA a fuddsoddwyd mewn plismona rheilffyrdd yn yr Alban

Archwilio a Sicrwydd Risg

- Adolygu a chynghori ar faterion sy'n ymwneud ag archwiliad mewnol ac allanol BTPA
- Rhoi argymhelliad i'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu
- Cynghori'r Awdurdod ar effeithiolrwydd cynlluniau'r BTPA a BTP ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu

Gweithgor Pensiwn

- Darparu trosolwg o gynlluniau pensiwn swyddogion heddlu a staff heddlu
- Cymeradwyo argymhellion ar bensiynau i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad

- Monitro a herio perfformiad gweithredol a busnes a chyflawni cynlluniau strategol a blynyddol

Pobl a Diwylliant

- Goruchwyllo ac arfarnu ymagwedd BTP tuag at faterion yn ymwneud â phobl, diwylliant, arweinyddiaeth ac ymddygiad

Strategaeth a Chynllunio

- Sicrhau dull integredig o ddatblygu'r Strategaeth, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Plismona a'r Gyllideb Flynyddol

Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Goruchwyllo a chynghori ar gyfathrebiad ac ymgysylltiad BTP a BTPA â diwydiant, y cyhoedd a rhanddeiliaid pwysig eraill yn ogystal ag alinio ymgysylltiad BTP a BTPA â rhanddeiliaid
- Goruchwyllo adnewyddiad y Cynllun Plismona

Y Panel Adolygu Cwynion

- Adolygu'n annibynnol ymholiadau cwynion sy'n cael eu trin yn lleol gan BTP pan ofynnir am hynny gan aelod o'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar y modd yr ymdriniwyd â'r gŵyn a chanlyniad y gŵyn ac a oedd hyn yn rhesymol a chymesur.
- Ystyried dysgu sefydliadol a thueddiadau sy'n codi

Bwrdd Gweithredol Heddlu BTP

- Gosod naws a chyfeiriad strategol i BTP
- Gweithredu fel yr uwch fforwm gwneud penderfyniadau ar gyfer BTP
- Ystyried adroddiadau amlygu gan fyrddau llywodraethu BTP
- a rhoi cymeradwyaeth neu gyfarwyddyd pellach fel y bo'n briodol
- Ystyried risgiau lefel uchel a chamau gweithredu i liniaru risg
- Darparu trywydd archwilio ar benderfyniadau allweddol

Awdurdod yr Heddlu

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod hyd at chwe gwaith y flwyddyn ac mae'n ofynnol iddo wneud penderfyniadau penodol yn unol â'r dyletswyddau statudol a nodir uchod.

Penodir Cadeirydd ac Aelodau BTPA gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Daw'r aelodau o blith pobl sydd â phrofiad o'r diwydiant rheilffyrdd, staff y rheilffyrdd, y cyhoedd sy'n teithio ac eraill sydd â phrofiad dynodedig ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Ni fwriedir i aelodau gynrychioli'r buddiannau hynny, ond maent i gyd yn cydweithio ac yn gweithredu fel un corff corfforaethol.

Mae manylion yr Aelodau presennol wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwyr; gan gyfeirio hefyd at yr Is-bwyllgorau y maent yn gwasanaethu arnynt. Mae manylion presenoldeb pobl mewn cyfarfodydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

Is-bwyllgorau

Mae'r is-bwyllgorau a restrir isod wedi'u hamserlennu'n ffurfiol drwy gydol y flwyddyn. Nid yw hyn yn ystyried cyfarfodydd pwyllgor arbennig ychwanegol, sesiynau briffio brecwast rheolaidd, sesiynau hyfforddi a sesiynau Aelodau yn unig.

YPwyllgor ArchwilioaS i crwydd Risg

Kenna Kintrea sy'n cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC). Mae ganddo bum Aelod ar hyn o bryd, cafodd bum cyfarfod yn 2023/24 a gwnaeth amrywiaeth eang o weithgareddau sicrhad yn cynnwys goruchwyllo:

- Gweithgareddau Rheoli Risg a Gwrth-dwyll
- Cydymffurfiaeth ariannol, gan gynnwys paratoi Cyfrifon a chydymffurfio â safonau a rheoliadau
- Y Rhaglenni Archwiliadau Mewnol ac Allanol
- Rhaglen Archwilio Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (H MI CFRS) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi

yr Alban (HMICS)

- Cyflwyniad yr Adroddiad Sicrhad Rheolaeth i'r i Adran Drafnidiaeth
- Goruchwyllo gweithrediad y camau adferol sy'n deillio o archwiliadau, adolygiadau allanol a chyflwyniadau i'r Adran Drafnidiaeth
- Monitro ac asesu cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol a'r perfformiad yn eu herbyn
- Adolygu archwiliad dwfn o risgiau

Y Pwyllgor Penodiadau, Tâl a Gwerthuso

Ron Barclay-Smith yw cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, Tâl a Gwerthuso Ar hyn o bryd mae ganddo dri Aelod, cyfarfu deirgwaith yn 2023/24 ac ystyriodd faterion yn cynnwys:

- Recriwtio Prif Gwnstabl Cynorthwyol
- Adolygiadau Perfformiad Uwch Swyddogion a Staff

Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad

Craig Mackey yw cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad (a elwid gynt yn Bwyllgor Perfformiad a Chyflawni). Mae ganddo bum Aelod ar hyn o bryd, cyfarfu bedair gwaith yn ystod 2023/24 ac mae'n bodoli i graffu ar gynllun plismona a pherfformiad ariannol a masnachol BTP; a'i berfformiad ar draws meysydd allweddol Cyfreithlondeb. Yn ystod y flwyddyn ystyriodd ystod o faterion safonol a thematig fel y maent wedi eu nodi yn ei gynllun gwaith blynyddol:

- Monitro'r Cynllun Plismona a pherfformiad Ariannol a Masnachol bob chwarter
- Monitro Cyfreithlondeb yn chwarterol gan gynnwys Arestio, Carcharu, Defnyddio Grym, a Stopio a Chwilio
- Archwiliadau dwfn thematig ar bynciau sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu Hiliol, Defnyddio Grym a'r Ddalfa
- Archwiliad dwfn i risgiau mewn perthynas â Chyfreithlondeb

Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio yw Andy Cooper. Mae ganddo chwe Aelod ar hyn o bryd, cyfarfu bedair gwaith yn ystod 2023/24 ac mae'n bodoli i sicrhau dull integredig o ddatblygu'r Strategaeth, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Plismona a'r Gyllideb flnyddol. Drwy gydol y flwyddyn, ystyriodd:

- Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2024-29
- Sganio'r gorwel
- Goruchwyllo meysydd thematig o weithredu'r strategaeth
- Adolygiad blynyddol o Gynllun Plismona 2022-25
- Dileu proses Cau Pen y Mwdwl y Model Dyrannu Costau.
- Argymell achosion busnes i'r Awdurdod Llawn
- Goruchwyllo'r rhaglen drawsnewid 'A Force on the Move' a'r Strategaeth Garbon Sero Net
- Dyraniad Taliadau Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu i ddiwydiant ar gyfer 2024-25
- Rhaglen Beilot Diogelwch a Phlismona Integredig
- Archwiliadau dwfn i risg mewn perthynas â Gweithio mewn Partneriaeth a Rheoli Newid

Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban

Cadeirydd Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban oedd Ron Barclay-Smith tan 23 Tachwedd 2023 ac yna Iain Whyte. Mae ganddo dri Aelod o BTPA a dau Aelod o Awdurdod Heddlu'r Alban (SPA). Cyfarfu bedair gwaith yn 2023/24. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r BTPA, SPA a Gweinidogion Llywodraeth yr Alban ynghylch darparu plismona rheilffyrdd yn yr Alban. Drwy gydol y flwyddyn, ystyriodd y pethau hyn:

- Monitro perfformiad Cynllun Plismona BTP yn yr Alban yn chwarterol
- Monitro enghreifftiau o gydweithio rhwng BTP a Heddlu'r Alban yn chwarterol
- Monitro gweithgarwch archwilio ac

arolygu BTP yn chwarterol gan gyfeirio at yr Alban

- Adolygiad Blynyddol o Gynllun Plismona 2022-25 mewn perthynas â'r Alban
- Eitemau thematig ar Garbon Sero Net/ Cynaliadwyedd BTP, Tresmasu, Stopio a Chwilio Iechyd Meddwl, Proffesiynoldeb a Pholisi Asesu a Dyrannu Troseddau'r Heddlu
- Strategaeth Plismona Bro BTP 2022-25
- Ymgysylltu â phartneriaid diwydiant o'r Alban
- Adroddiad gwerth am arian blynyddol ar gyfer BTP yn yr Alban

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Bev Shears oedd cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant hyd nes i'w thymor ddod i ben ar 25 Ionawr 2024. Y cadeirydd presennol yw Nick Hawkins. Ar hyn o bryd mae ganddo bum Aelod. Cyfarfu bum gwaith yn 2023/24 ac ystyriodd amrywiaeth o faterion gan gynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

- Monitro data Perfformiad pobl yn chwarterol
- Adroddiadau bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Heddlu
- Proffesiynoldeb a chamymddwyn
- Lles, iechyd a diogelwch
- Strategaeth Pobl 2022-25
- Denu, Recriwtio a Chadw
- Canlyniadau'r Arolwg i'r Bobl i Gyd
- Cynllun Gweithlu Strategol
- Dysgu a Datblygu
- Dyfarniad Cyflog Staff a Swyddogion Heddlu
- Mentrau i hyrwyddo diwylliant mewnol priodol o fewn yr Heddlu
- Adroddiad Blynyddol ar Adolygiadau o Gwynion
- Archwiliad risgiau dwfn ar Gyfreithlondeb

Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cadeiriwyd y Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gan Willie Gallagher. Mae'r Gweithgor Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn adrodd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio. Ar hyn o bryd mae ganddo dri Aelod a chyfarfu unwaith yn 2023/24. Mae'n gyfrifol am oruchwyllo a chynghori ar gyfathrebiad ac ymgysylltiad yr Heddlu a'r Awdurdod â diwydiant, y cyhoedd a rhanddeiliaid pwysig eraill, yn ogystal ag unrhyw adnewyddiad i'r Cynllun Plismona. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cael ei ailystyried.

Y Gweithgor Pensiynau

Mae'r Gweithgor Pensiynau'n adrodd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Cafodd ei gadeirio gan Fiona Brunskill yn ystod 2023/24 ac ar hyn o bryd mae ganddo dri Aelod. Cyfarfu bedair gwaith yn 2023-24. Mae'n gyfrifol am oruchwyllo materion pensiwn sy'n ymwneud â'r Heddlu a'r Awdurdod, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Brisiad(au) Cynllun Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu, y Cynlluniau eu hunain, a Pholisi Pensiwn BTP.

Y Panel Adolygu Cwynion

Mae'r Panel Adolygu Cwynion yn bodoli'n annibynnol i adolygu'r modd yr ymdriniwyd â chwynion a chanlyniad y cwynion ac i benderfynu a ymdriniwyd â'r gŵyn dan sylw yn rhesymol ac yn gymesur ac a yw'r canlyniad yn llifo'n rhesymegol o'r canfyddiadau. Yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwynion, mae'r Panel hefyd yn ystyried unrhyw themâu neu dueddiadau a dysgu sefydliadol ehangach mewn perthynas â chwynion. Mae'n gwneud hyn yn unol â Rheoliadau Cwynion a Chamymddwyn 2020 a Chanllawiau Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae'n cynnwys tri Aelod a'r Pennaeth Cyfreithlondeb a Pherfformiad a chyfarfu 12 o weithiau (2022/23: 11) i ystyried 37 adolygiad yn 2023/24 (2022/23: 34). Cyflwynwyd ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Mawrth 2024.



Presenoldeb y Pwyllgor

Enw'r aelod	Nifer cyfarfodydd yr Awdurdod a fynychwyd/nifer cyfarfodydd yr Awdurdod yr oedd ar gael	Nifer y Pwyllgorau Penodiadau, Tâl ac Arfarnu a fynychwyd / nifer dyddiadau'r Pwyllgorau yr oedd ar gael	Nifer cyfarfodydd y Panel Adolygu Cwynion a fynychwyd/nifer y dyddiadau yr oedd ar gael ar gyfer Pwyllgorau	Nifer y Pwyllgorau Pobl a Diwylliant a fynychwyd / nifer dyddiadau'r Pwyllgorau yr oedd ar gael	Nifer y Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg a fynychwyd / nifer y dyddiadau Pwyllgor yr oedd ar gael
Ron Barclay-Smith	4/4	3/3			
Andrew Cooper	4/4			3/3	5/5
Fiona Brunskill	4/4	3/3			
Emir Feisal	3/4				4/5
Willie Gallagher	3/4				
Nick Hawkins	4/4	3/3	12/12	4/4	
Stewart Jackson	4/4		10/12	4/4	4/4
Kenna Kintrea	4/4				5/5
Sir Craig Mackey	3/4				
Beverley Shears ¹	2/3			3/3	
Iain Whyte ²	2/2				
Abdul Elghedafi ³	1/1		2/2	1/1	1/1
Brian Lynch ⁴	1/1				0/1
Paula Carter ⁵	1/1	0/0		1/1	
Patricia Hayes ⁶	1/1			1/1	
Dyan Perry ⁷	1/1	0/0			

1 Gadawodd Beverley Shears ar 25/01/2024
2 Ymunodd Iain Whyte ar 06/11/2023
3 Ymunodd Abdul Elghedafi ar 15/01/2024
4 Ymunodd Brian Lynch ar 15/01/2024
5 Ymunodd Paula Carter ar 15/01/2024
6 Ymunodd Patricia Hayes ar 15/01/2024
7 Ymunodd Dyan Perry fel Dirprwy Gadeirydd ar 12/02/2024

Committee Attendance

Enw'r aelod	Nifer y Pwyllgorau Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad a fynychwyd / nifer dyddiadau'r Pwyllgorau yr oedd ar gael	Nifer y Pwyllgorau Strategaeth a Chynllunio a fynychwyd / nifer dyddiadau'r Pwyllgorau yr oedd ar gael	Nifer Pwyllgorau Plismona Rheilffyrdd yr Alban a fynychwyd / nifer dyddiadau'r Pwyllgorau yr oedd ar gael	Nifer y Gweithgorau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a fynychwyd / nifer dyddiadau'r cyfarfodydd yr oedd ar gael	Nifer y Gweithgorau Pensiwn a fynychwyd / nifer dyddiadau'r cyfarfodydd yr oedd ar gael
Ron Barclay-Smith			3/3		
Andrew Cooper		4/4		1/1	1/1
Fiona Brunskill		3/4			4/4
Emir Feisal	0/1	2/3			2/3
Willie Gallagher	4/4	1/1	3/4	1/1	
Nick Hawkins					
Stewart Jackson					
Kenna Kintrea		2/2	4/4	1/1	
Sir Craig Mackey	4/4	3/4		0/0	
Beverley Shears ⁸	3/3			1/1	1/3
Iain Whyte ⁹			2/2	0/0	1/1
Abdul Elghedafi ¹⁰					
Brian Lynch ¹¹	1/1				
Paula Carter ¹²		1/1			
Patricia Hayes ¹³	1/1				
Dyan Perry ¹⁴		1/1			

8 Gadawodd Beverley Shears ar 25/01/2024
9 Ymunodd Iain Whyte ar 06/11/2023
10 Ymunodd Abdul Elghedafi ar 15/01/2024
11 Ymunodd Brian Lynch ar 15/01/2024
12 Ymunodd Paula Carter ar 15/01/2024
13 Ymunodd Patricia Hayes ar 15/01/2024
14 Ymunodd Dyan Perry fel Dirprwy Gadeirydd ar 12/02/2024

Y Tîm Gweithredol

Mae gan BTPA Dîm Gweithredol o 13, sy'n cwmpasu strategaeth a pherfformiad, llywodraethu, cydymffurfio, cyllid, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Penodir Prif Swydddog Gweithredol BTPA yn Swydddog Cyfrifyddu gan y Prif Swydddog Cyfrifyddu yn yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Prif Swydddog Ariannol BTPA yn cyflawni rôl y Trysorydd i BTPA gyda'r cyfrifoldeb am reolaeth gywir Cronfa BTP. Mae hyn yn galluogi BTPA i dderbyn cyngor ariannol annibynnol ar bob agwedd ar ei weithgarwch, gan gynnwys y broses cynllunio strategol a llunio polisi, yn ogystal ag ar faterion cyllidebol.

Ar wahân i hyn mae Prif Gwnstabl BTP wedi cael ei benodi'n Swydddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Yn y rôl hon, rhoddodd y Prif Weithredwr gyfrifoldebau i'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â holl wariant a gweithgareddau BTP o fewn y gyllideb y cytunwyd arni a phrosiectau referniw neu gyfalaf penodol fel y'u diffinnir yn y Cynllun Dirprwyo.

Rheoli Risg

Mae BTP/A yn dilyn y Llyfr Oren ar Reoli Risg, gan alluogi diwylliant risg cadarnhaol ac mae'n gweithio'n barhaus i wreiddio rheoli risg ymhellach yn eu gweithgareddau a'u penderfyniadau.

Mae trefn rheoli perfformiad yn ei lle, lle mae BTPA yn cytuno ar amcanion ar gyfer Grŵp y Prif Swyddogion. Mae'r adolygiadau o ddatblygiad perfformiad yn cael eu cychwyn ar ddiwedd y flwyddyn gan Brif Gwnstabl Grŵp y Prif Swyddogion a Phrif Weithredwr Gweithrediaeth BTPA. Mae Cadeirydd BTPA yn asesu'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Gweithredol BTPA yn erbyn amcanion diffiniedig. Asesir y rhain gan Bwyllgor Penodiadau, Tâl ac Arfarnu Awdurdod yr Heddlu. Yr unig gyfle ar gyfer datblygiad cyflog ar sail perfformiad yw i Brif Gwnstablaid Cynorthwyol (a staff cyfatebol), sy'n symud drwy raddfa gyflog pan asesir bod eu perfformiad yn foddhaol neu'n eithriadol. Mae'r Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cael cyflog ar gyfradd benodol.

26 Dangosir y cyflog ar sail croniadau. Datgelwyd 2022/23 ar sail arian parod felly mae wedi cael ei ailddatgan
27 Ymunodd Rubeela Qayyum ar 15/08/2022 i lenwi cyfnod mamolaeth Sarah Church tan 14/09/2023

Taliadau bonws

Mae BTPA yn talu bonysau bach o hyd at £500 i'r rhai sy'n cyflawni sgôr eithriadol ar eu Hadolygiad Datblygiad Personol neu'r rhai a enwebwyd gan gydweithwyr ar gyfer gwobr "Gwneud y Gwahaniaeth", sy'n cael ei farnu gan baneli drwy gydol y flwyddyn ar gyfer gweithwyr sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau. Mae swyddogion arfau tanio sy'n cael eu cadw wrth gefn yn derbyn bonws bach bob nos am baratoi i'w defnyddio, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y symiau bonws.

Datgeliadau Cyflog Teg (Archwiliwyd)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl y chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf yng ngweithlu'r sefydliad.

Canran y newid yn y cyfanswm cyflog a bonysau'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chyfartaledd y staff

	2023/24		2022/23 (Ailddatganwyd)	
	Cyfanswm cyflog a lwfansau	Taliadau Bonws	Cyfanswm cyflog a lwfansau	Taliadau Bonws
Cyfartaledd y staff	7.24%	-19.15%	6.51%	24.88%
Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf	2.82%	0%	2.90%	0%

Cymhareb rhwng cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a'r chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf ar gyfer tâl staff

	Chwartel isaf	Canolrif	Chwartel uchaf
2023-24	5.3: 1	4.1: 1	3.4: 1
2022-23	5.5: 1	4.4: 1	3.5: 1

Chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf tâl y staff ar gyfer cyflogau a chyfanswm tâl a buddion

	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23
	Chwarterel isaf		Canolrif		Chwarterel uchaf	
Cyflog	31,585	28,932	41,049	36,852	46,044	43,032
Cyfanswm Tâl a Buddiannau	34,658	32,390	44,917	40,105	53,268	50,066

Tâl wedi bandio y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn yr Adran yn 2023/24 oedd £182,500 (2022/23: £177,500). Roedd hyn 4.1 gwaith (2022/23: 4.4 gwaith) cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £44,917 (2022/23: £40,105). Ni dderbyniodd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf unrhyw daliadau bonws yn 2023/24 na 2022/23.

Yn 2023/24, derbyniodd 0 (2022/23: 0) o weithwyr dâl oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Ac eithrio'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf, roedd y tâl yn amrywio o £15,000-£20,000 i £160,000-£165,000 (2022/23: £15,000-£20,000 i £150,000-£155,000).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân ar sail perfformiad a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Cymeradwyodd yr Awdurdod godiad cyflog o 7% yn ystod 2023/24 ar gyfer yr holl weithwyr, yn ogystal â chynnydd mewn nifer o lwfansau. Dyma achos y cynnydd mewn taliadau chwarterel yn 2023/24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r gostyngiad yn y cymarebau.

Cynyddodd tâl wedi bandio'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf rhwng 2022/23 a 2023/24 oherwydd y codiad o 7% a gymhwyswyd i bob cyflogai.

Mae'r gostyngiad o 19.15% mewn taliadau bonws yn ymwneud â'r ffaith bod llai o daliadau bonws nag arfer ar gyfer un o'r mathau o fonws rhwng mis Medi 2023 a mis Rhagfyr 2023.

Budd-daliadau pensiwn

Cynllun pensiwn rheilffyrdd – Awdurdod a staff heddlu BTP

Darperir buddion pensiwn ar gyfer staff yr Awdurdod a Heddlu BTP trwy Adran Costau a Rennir Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Caeodd yr RPS i ymunwyr newydd ar 30 Medi 2023. Mae hwn yn gynllun pensiwn cofrestredig a'i fwriad yw bod yn gynllun wedi'i ariannu'n llawn sy'n darparu buddion ar "gyflog terfynol" ar oedran ymddeol arferol o 60. Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain rhan o dâl cyfartalog terfynol (wedi tynnu 1/40fed o gyfartaledd terfynol pensiwn sylfaenol y wlad) ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth ag 1/40fed o'r tâl cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy ar ymddeoliad. Talodd aelodau gyfraniadau o 10.68% o dâl pensiynadwy (wedi tynnu 1.5 gwaith pensiwn sylfaenol y wladwriaeth) hyd at, ac yn cynnwys, 31 Mawrth 2024. Cynyddir pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn unol â Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau (Cynyddu) 1971.

Pan fydd aelod farw, mae'r pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd aelod yn marw mewn gwasanaeth mae'r cynllun yn talu cyfandaliad budd marwolaeth o bedair gwaith y cyflog cyfartalog terfynol a hefyd yn darparu ychwanegiad gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod, sy'n dibynnu ar hyd y gwasanaeth.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraid a chyda gwasanaeth ychwanegol fel ar gyfer pensiynau gweddwr neu ŵr gweddwr.

Mae buddion pensiwn ar gyfer newydd-ddyfodiaid bellach yn cael eu darparu trwy gynllun pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig sy'n cynnig ystod o gyfraddau cyfraniadau.

Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – Swyddogion Heddlu

Darperir buddion pensiwn i Swyddogion Heddlu trwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae hwn yn gynllun

pensiwn cofrestredig a bwriedir iddo fod yn gynllun wedi'i ariannu'n llawn sy'n darparu buddion ar sail "budd diffiniedig". Mae tri strwythur budd-daliadau ar waith ar gyfer aelodau, sy'n amrywio yn ôl p'un a wnaethant ymuno â'r Gronfa cyn 1 Ebrill 2007, rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015, neu ar ôl 31 Mawrth 2015. Cyn 1 Ebrill 2015, roedd aelodau'n ennill buddion ar strwythur "cyflog terfynol", tra bod gweithwyr a ymunodd o 1 Ebrill 2015 yn gallu ymuno â strwythur buddion Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio ("CARE"). Ar gyfer pob strwythur budd-daliadau, mae BTPA yn talu 60% o gyfanswm cost flynyddol cronni buddion newydd, gydag aelodau'n talu'r 40% sy'n weddill.

Ar gyfer aelodau a ymunodd cyn 1 Ebrill 2007, gellir cymryd buddion heb eu lleihau o 55 oed (ac eithrio pan fo gan aelodau oedran pensiwn 'gwarchodedig'). Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/45fed o'r cyflog cyfartalog terfynol (wedi tynnu 1/30ain o gyfartaledd terfynol pensiwn sylfaenol y wladwriaeth) ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth lesiannol. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 1/30ain o'r cyflog cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth lesiannol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar hyn o bryd mae aelodau'n talu cyfraniadau o 16% o enillion pensiynadwy (wedi tynnu 1.5 gwaith Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth). Cynyddir pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

Ar gyfer aelodau'r Gronfa a ymunodd rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015, gellir cymryd buddion heb eu lleihau o 55 oed (ac eithrio pan fydd gan aelodau oedran pensiwn 'gwarchodedig') os ydynt yn ymddeol o wasanaeth gweithredol ac o 65 oed os ydynt yn ymddeol ar ôl gadael BTPA. Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/70ain o'r cyflog cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 4/70ain o'r cyflog cyfartalog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy ar ymddeoliad. Mae aelodau ar hyn o bryd yn talu cyfraniadau o 12% o gyflog pensiynadwy. Cynyddir pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

Ar gyfer aelodau a ymunodd o 1 Ebrill 2015, yr oedran ymddeol arferol o wasanaeth

gweithredol yw 60 ac ar gyfer ymddeoliad, ar ôl gadael cyflogaeth BTPA, mae'n 65. Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/55.3 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth gweithredol, gyda chyfradd ailbrisio ar gyfer aelodau gweithredol yn seiliedig ar Chwyddiant Pris Defnyddwyr ynghyd ag 1.25% y flwyddyn. Nid oes unrhyw fuddion arian parod ar wahân yn cronni, er bod gan aelodau'r opsiwn o gyfnewid rhywfaint o bensiwn am arian parod (yn unol â rheolau CThEM), ar delerau y cytunir arnynt rhwng yr Ymddiriedolwr a BTPA o bryd i'w gilydd. Mae aelodau ar hyn o bryd yn talu 10% o'u cyflog pensiynadwy. Cynyddir pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

Pan fyddent farw, mae pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi neu ddibynnydd cymwys ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Mae pensiynau hefyd ar gael i blant aelodau. Efallai na fydd pensiynau goroeswyr yn daladwy mewn perthynas ag aelodau a ymunodd ar ôl 1 Ebrill 2007 os oes ganddynt lai na dwy flynedd o wasanaeth. Os bydd aelod farw mewn gwasanaeth mae'r Gronfa yn talu cyfandaliad budd marwolaeth o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy a hefyd yn darparu ychwanegiad gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod, sy'n dibynnu ar hyd y gwasanaeth.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o analluogrwydd. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad actiwaraid. Os nad yw'r aelod yn gallu gweithio mewn unrhyw swyddogaeth, (nid yn unig fel Swyddog Heddlu) gellir caniatáu pensiwn uwch iddynt yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwr.

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ("CETV") yw gwerth cyfalafol a aseswyd gan actiwari o'r buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol.

Cyfrifir CETV gan yr Ymddiriedolwr yn unol â deddfwriaeth a chyngor actiwaraid.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau CETV, ac o 2003/04 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn arall.

Mae'r cynnydd gwirioneddol mewn CETV yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



Budd-daliadau Pensiwn (Archwiledig)

Swyddogion	Gwerthoedd cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/24		Gwerth cynnydd gwirioneddol ar oedran pensiwn		CETV ar 31/03/23	CETV ar 31/03/24	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
	Pensiwn	Cyfandaliad	Pensiwn	Cyfandaliad			
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000

Aelodau'r Awdurdod

Nid yw aelodau'r Awdurdod yn gymwys i ymuno â'r cynllun

Swyddogion yr Awdurdod

Hugh Ind	10-15	10-15	0-2.5	2.5-5.0	122	151	5
Sarah Church	10-15	10-15	0-2.5	2.5-5.0	75	84	-
Rubeela Qayyum	0-5	0-5	0-2.5	0-2.5	10	16	-

Grŵp y Prif Swyddogion

Sean O'Callaghan	10-15	10-15	0-2.5	2.5-5.0	127	148	-
Rachael Etebar	10-15	10-15	0-2.5	2.5-5.0	172	209	11
Tracey Martin	5-10	10-15	0-2.5	0-2.5	121	114	-
Allan Gregory (restated)	70-75	95-100	15-17.5	2.5-5.0	1,240	1,261	-
Lucy D'Orsi	5-10	5-10	2.5-5.0	2.5-5.0	46	81	14
Steff Sharp	15-20	30-35	0-2.5	0-2.5	95	96	-
Charlie Doyle	Wedi optio allan o'r cynllun						
Alistair Sutherland	Wedi optio allan o'r cynllun						
Paul Furnell	Wedi optio allan o'r cynllun						





Adroddiad staff

Cyfanswm nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd (archwiliwyd)

	2023/24	2022/23
Staff a gyflogir yn barhaol*	4,900	4,840
Staff dros dro**	134	119
Cwnstabiliaid Gwirfoddol***	248	265
Cyfanswm	5,282	5,224

Mae niferoedd cyfartalog y staff yn seiliedig ar nifer y staff a thelerau cyflogaeth.
Gostyngodd trosiant staff yn 2023/24 gyda chyfradd o 9.55% (2022/23: 13.58%).

- * Staff a gyflogir yn barhaol a ddiffinnir fel staff â contract cyflogaeth parhaol (DU).
- ** Staff a gwirfoddolwyr wedi eu cyflogi ar sail dros dro i fodloni amcanion yr endid.
- *** Mae gan Gwnstabiliaid Gwirfoddol contract gyda BTP sydd ychydig yn wahanol i un gweithwyr eraill, felly maent wedi’u datgelu ar wahân.

Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys (Archwiliwyd):

	2023/24			2022/23
	Staff a gyflogir yn barhaol	Staff eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
	£’000	£’000	£’000	£’000
Cyflogau	236,870	1,266	238,136	219,495
Costau nawdd cymdeithasol	23,555	-	23,555	22,863
Costau pensiwn	45,610	-	45,610	109,149
Is-gyfanswm	306,035	1,266	307,301	351,507
Wedi tynnu adferiadau mewn perthynas â secondiadau allanol	(952)	-	(952)	(1,136)
Cyfanswm costau net	305,083	1,266	306,349	350,371

Cyfanswm y gwariant ar ymgynghoriaeth ar gyfer 2023/24 yw £965,322 (2022/23: £1,167,137). Yn grynysedig yn y rhain mae £42,222 o gostau ymgynghori wedi’u cyfalafu yn 2023/24 (2022/23: £10,318).

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro ar gyfer 2023/24 yw £1,265,880 (2022/23: £1,459,769).

Adrodd ar hawliadau am iawndal y gwasanaeth sifil a hawliadau eraill – pecynnau ymadael (Archwiliwyd):

Gadael band cost pecyn	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23
£0-£25,000	14	16	1	4	15	20
£25,001-£50,000	-	1	-	-	-	1
£50,001-£100,000	-	-	-	1	-	1
£100,000-£150,000	-	-	-	-	-	-
£150,000+	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	14	17	1	5	15	22
Cyfanswm gwerth y pecynnau (£'000)	128	143	12	88	140	231

Cyfansoddiad y gweithiwr

Nifer y bobl o bob rhyw a oedd yn gyflogaion i'r endid ar 31 Mawrth 2024:

	2023/24			2022/23		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Aelodau'r Awdurdod	10	5	15	8	3	11
Swyddogion Awdurdod a Rheolaeth Strategol	6	4	10	5	5	10
Staff sy'n weddill	3,521	1,737	5,258	3,562	1,691	5,253
Cyfanswm	3,537	1,746	5,283	3,575	1,699	5,274

Diwrnodau Absenoldeb Salwch Cyfartalog Fesul Person 2023-24

Ar gyfer 2023/24 gostyngodd diwrnodau dyletswydd salwch cyfartalog BTP fesul person cyfwerth ag amser llawn o 0.21 diwrnod i gyfartaledd o 8.48 (2022/23: 8.69). Bu cynnydd bychan iawn mewn diwrnodau salwch fesul Swyddog Heddlu ers 2022/23, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiadau mewn diwrnodau salwch ar gyfer Staff a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO). Mae rheoli salwch a phresenoldeb yn parhau i fod yn ffocws allweddol i bawb, gyda'r bwriad o gefnogi lles gweithwyr a chynyddu presenoldeb yn y gwaith i'r eithaf.

Amser Cyfleuster Undeb Llafur

O dan Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offeryn Statudol 328) roedd gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 12 o unigolion a oedd yn swyddogion undeb yn ystod y cyfnod. Roedd yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb yn cyfateb i 100% o gyfanswm yr amser gweithio ar gyfer un unigolyn, ac 1% -50% ar gyfer yr ll arall, ac mae 0.0189% o gyfanswm bil cyflog BTP, sy'n £235,961,070k, yn cael ei wario ar amser cyfleuster. Rhoddwyd cyfanswm o 0.72% o ylliau â thâl ar gyfer gweithgareddau undeb llafur nad oedd hawl statudol i ylliau â thâl ar ei gyfer. Mae hyn yn cyfateb i werth cyflog o £4k.

Tablau Oddi ar y Gyflogres

Mae proses lywodraethu gadarn ar waith i herio a rheoli'r defnydd o ymrwymïadau oddi ar y gyflogres a sicrhau cydymffurfiaeth. Ystyriwyd bod pob ymgysylltiad naill ai o fewn cwrmpas neu heb fod yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth. I'r rhai nad oeddent yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth, cawsant eu cyflogi drwy gwmnïau ymbarél neu ar gyflogres sefydliad yn y gadwyn gyflenwi. Ailaseswyd dau ymgysylltiad i weld beth oedd eu cysondeb a'u cydymffurfiaeth ac ni arweiniodd hyn at newid yn ei statws cychwynnol.

Ymrwymïadau gweithwyr oddi ar y gyflogres oedd ar gyflog uchel ar 31 Mawrth 2024, oedd yn ennill £245 y diwrnod neu fwy:

	2023/24	2022/23
Nifer yr ymrwymïadau presennol ar 31 Mawrth 2024	4	8
O'r rhain, y nifer oedd yn bodoli:		
ers llai na blwyddyn ar y dyddiad adrodd	3	7
Ers rhwng 1 a 2 flynedd ar y dyddiad adrodd	0	0
ers rhwng 2 a 3 blynedd ar y dyddiad adrodd	0	1
ers rhwng 3 a 4 blynedd ar y dyddiad adrodd	1	0
ers mwy na 4 blynedd ar y dyddiad adrodd	0	0

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres oedd ar dâl uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, ac oedd yn ennill £245 y diwrnod neu fwy.

	2023/24	2022/23
Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024	10	18
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	8	14
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un sydd o fewn cwmpas IR35	2	4
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un y tu allan i gwmpas IR35	0	0
Nifer yr ymrwymïadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0	0
O'r rhain: Nifer yr ymrwymïadau a welodd newid i IR35 yn dilyn adolygiad	0	0

Ar gyfer unrhyw ymrwymïadau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

	2023/24	2022/23
Cyfanswm yr unigolion yr ystyriwyd eu bod yn 'aelodau bwrdd', a/neu, yn uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ymrwymïadau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres	10	10
Nifer yr ymrwymïadau oddi ar y Gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion oedd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol	0	0

Ymgysylltu â gweithwyr

Mae BTP yn cydnabod y cymdeithasau staff canlynol:

- Ffederasiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Cangen BTP o Gymdeithas yr Uwcharolygwyr
- Cymdeithas y Staff ar Gyflog ym maes Trafnidiaeth

Mae'r grwpiau cymorth canlynol yn gweithredu o fewn BTP:

- Y Rhwydwaith Anabledd a Niwroamrywiaeth
- Cymdeithas yr Heddlu Mwslimaidd
- Cymdeithas Gristnogol yr Heddlu
- Y Gymdeithas Heddlu Benywaidd
- Y Gymdeithas Heddlu Sipsiwn Roma Teithwyr
- Cymdeithas yr Heddlu Iddewig
- Rhwydwaith Cefnogi LHDT+ (Cymorth Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol)
- Cymdeithas Gymorth i Staff Lleiafrifoedd Ethnig
- Cymdeithas yr Heddlu Hindŵaidd
- Cymdeithas y Sikhiaid

Rheoli anabledd

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu ymgeiswyr ag anableddau ac mae'r tîm recriwtio'n gweithio mewn ymgynghoriad â'r Tîm Cynhwysiant ac

Amrywiaeth, lle bo'n briodol, i gefnogi cyfweiliadau cynhwysol ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau.

Mae gan BTP hefyd broses ar waith i hwyluso ymgynghori â'r Adran Iechyd Galwedigaethol ar gyfer pob cyflwr meddygol ac iechyd i sicrhau bod yr holl addasiadau a chymorth rhesymol priodol yn cael eu hystyried fesul achos.

Mae BTP wedi sefydlu grŵp llywio anabledd a niwroamrywiaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, sydd wedi'i gadeirio ar lefel Prif Gwnstabl Cynorthwyol, i weithio drwy'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau bod addasiadau yn y gweithle a darpariaethau yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi cyflogeion, gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd a niwroamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys lansio pasbort addasiadau'r gweithle sy'n cynnig cymorth cyfannol ar gyfer pob cyflwr anfeddygol sydd angen addasiadau. Mae'r tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth yn cynnal digwyddiadau, gweminarau a sesiynau gwybodaeth yn rheolaidd i gefnogi'r gwaith hwn drwy godi ymwybyddiaeth o bynciau a themâu anabledd a niwroamrywiaeth, gyda hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer uwch arweinwyr a rheolwyr llinell.



Hugh Ind

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad

25 Gorffennaf 2024



ADRODDIAD ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ARCHWILIO

Rheoleidd-dra gwariant:

Colledion a Thaliadau Arbennig (archwiliedig)

	2023/24	2022/23
Cyfanswm nifer y colledion a thaliadau arbennig	214	214
Cyfanswm gwerth colledion a thaliadau arbennig	£1,629,980	£979,929
Datganiad colledion		
Nifer y colledion	96	104
Gwerth y colledion	£38,751	£75,102
Datganiad taliadau arbennig		
Nifer y taliadau arbennig	118	110
Gwerth y taliadau arbennig	£1,591,229	£904,827

Colledion

Nid oes unrhyw golledion unigol o fwy na £300,000.

Taliadau arbennig

Talwyd cyfanswm o £1,536,013 (2022/23: £822,634) i setlo hawliadau cyfreithiol yn ymwneud â cherbydau modur, atebolrwydd cyflogwyr, atebolrwydd cyhoeddus yn ogystal ag achosion hanesyddol Stockwell Six ac Oval Four. Mae'r symiau uchod yn cynnwys ffioedd cyfreithiol. Nid oedd unrhyw daliad unigol o fwy na £300,000.

Mae'r holl daliadau pecynnau ymadael wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Tâl.

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;
- Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 31 Mawrth 2024 a'i diffyg net (cyfanswm cyn OCI) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol,

mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail i farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs y DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynol ar Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o sail cyfrifyddu'r busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wrth ystyried y gofynion sydd wedi eu nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif archwilydd a'r adroddiad sydd arni. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ag eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall ar fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am y wybodaeth honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol mewn unrhyw ffordd arall.

Os byddaf yn nodi anghysonderau perthnasol o'r fath neu'r hyn sy'n edrych fel camddatganiadau perthnasol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw'r rhain yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf

wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyfateb â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng nghyd-destun y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r

rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid yw rhai datgeliadau o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl sydd i gael ei archwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y pethau hyn:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- caniatáu i'r C&AG weld yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratod y datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol i'r C&AG y mae eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi i'r C&AG fynediad anghyfyngedig at bersonau o fewn Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y mae'r archwilydd yn penderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y rheolaethau mewnol ar waith y bernir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol a fydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg ac sy'n cyfateb â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelwch

Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003; ac

- asesu gallu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf yn gwneud hyn:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys llunio polisiau cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.
- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys derbyn ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 a Rheoli Arian Cyhoeddus
- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
 - a oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
 - a oedden nhw'n gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig,
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yng Nghronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth

Prydeinig a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, Rheoli Arian Cyhoeddus, a chyfraith cyflogaeth berthnasol, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth dreth.

Ymateb yr archwiliad i'r risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a'r profion i'r dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac adroddiadau archwilio mewnol; a
- Rhoddais sylw i'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesais a oedd y dyfarniadau am amcangyfrifon yn dangos unrhyw ragfarn bosibl; a gwerthusais sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol oedd yn anarferol neu oedd y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Dyddiad 25/07/24

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP





ADRODDIAD ARIANNOL



Datganiad o incwm cynhwysfawr
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodi- adau	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023
		£'000	£'000
Incwm			
Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu	6	263,564	249,167
Incwm Arall	6	104,687	101,495
		368,251	350,662
Gwariant			
Costau staff	7	(306,349)	(350,371)
Dibrisiant ac amorteiddiad	8	(25,321)	(29,181)
Gwariant arall	8	(68,629)	(54,086)
		(400,299)	(433,638)
Diffyg gweithrediadol		(32,048)	(82,976)
Llog net derbyniadwy		934	279
Llog net taladwy ar gyfer cynlluniau pensiwn	23	(1,720)	(23,420)
Costau cyllid	8	(515)	(1,082)
Ennill ar addasu les		–	–
Diffyg net ar gyfer y flwyddyn ariannol		(33,349)	(107,199)
Incwm cynhwysfawr arall			
Eitemau na fyddent yn cael eu hailddosbarthu:			
Enillion/(colled) net ar ailbrisio asedau anghyfredol	22	1,583	7,673
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig	22	50,920	968,480
		52,503	976,153
Cyfanswm gwarged/(diffyg) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024		19,154	868,954

Trosglwyddir unrhyw ddiffyg neu warged net ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol i'r cronfeydd wrth gefn. Nodir y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn nodyn 22.

Ystyrir yr holl weithrediadau'n rhai sy'n parhau; ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau na gwarediadau perthnasol yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol
Ar 31 Mawrth 2024

	Nodi- adau	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023
		£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	9	89,643	96,205
Asedau anniriaethol	10	1,596	2,105
Derbyniadau eraill	13	6	-
Cyfanswm asedau anghyfredol		91,245	98,310
Asedau cyfredol			
Stocrestrau	12	57	114
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	13	19,569	16,504
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	14	50,435	49,812
Cyfanswm asedau cyfredol		70,061	66,430
Cyfanswm asedau		161,306	164,740
Rhwymedigaethau cyfredol ¹			
Masnach a symiau taladwy eraill	15	(63,788)	(57,451)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	16	(8,054)	(7,925)
Rhwymedigaethau prydles	15	(4,447)	-
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(76,289)	(65,376)
Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net		85,017	99,364
Rhwymedigaethau anghyfredol ¹			
Rhwymedigaethau pensiwn	23	(16,109)	(49,419)
Symiau taladwy eraill	15	-	(25,709)
Rhwymedigaethau prydles	15	(22,108)	-
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(38,217)	(75,128)
Asedau heb y rhwymedigaethau		46,800	24,236
(Diffyg) net y trethdalwyr			
Cronfa incwm a gwariant	22	44,942	57,271
Cronfa ailbrisio	22	17,967	16,384
Cronfa bensiwn wrth gefn	22,23	(16,109)	(49,419)
		46,800	24,236

¹ Mae rhwymedigaethau prydles bellach yn cael eu datgelu ar wahân i symiau masnach a symiau taladwy eraill. Yn 2022/23 roedd y symiau taladwy eraill yn ymwneud yn gyfan gwbl â rhwymedigaethau prydles.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 97 i 140 gan yr Awdurdod ar 25/07/24 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



Hugh Ind
Swyddog Cyfrifo
Dyddiad 25/07/24

Datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodi- adau	Cronfa incwm a gwariant	Cronfa ailbrisio	Cronfa benswn wrth gefn	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn
		£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 01 Ebrill 2022		57,240	8,753	(912,506)	(846,513)
Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr 2022/23					
Enillion/(colled) net ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol	9,10,22	-	8,689	-	8,689
Enillion/(Colledion) Actiwaraid	22	-	-	968,480	968,480
Diffyg net am y flwyddyn	22	(107,199)	-	-	(107,199)
Ailddosbarthu	22	(521)	(42)	-	(563)
Trosglwyddo i/o'r Cronfeydd Wrth Gefn	23	106,409	(1,016)	(105,393)	-
Cydnabuwyd cyllid grant yr Adran Drafnidiaeth		1,342	-	-	1,342
Balans ar 31 Mawrth 2023		57,271	16,384	(49,419)	24,236
Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr 2023/24					
Addasiadau IFRS 16 ar ôl trosglwyddo	22	-	-	-	-
Enillion/(colled) net ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol	9,10,22	-	4,112	-	4,112
Enillion/(Colledion) Actiwaraid	22	-	-	50,920	50,920
Diffyg net am y flwyddyn	22	(33,349)	-	-	(33,349)
Ailddosbarthu	22	(1,219)	-	-	(1,219)
Trosglwyddo i/o'r Cronfeydd Wrth Gefn	23	20,139	(2,529)	(17,610)	-
Cyllid grant yr Adran Drafnidiaeth wedi'i gydnabod ²	22	2,100	-	-	2,100
Balans ar 31 Mawrth 2024		44,942	17,967	(16,109)	46,800

2 Mae hwn yn arian cymorth grant a ddarperir gan yr Adran Drafnidiaeth (y parti rheoli) ar gyfer Operation Overhand.

Datganiad o lif arian
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

		2023/24	2022/23 Wedi'i ailddatgan
	Nodi-adau	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu ³			
Diffyg gweithrediadol		(32,048)	(82,976)
Wedi tynnu'r addasiadau nad ydynt yn arian parod			
(Elw)/Colled wrth waredu asedau anghyfredol	8	164	(32)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	13	(3,065)	(5,987)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn stocrestrau	12	57	261
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	15	15,072	13,220
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	(3,601)	199
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau	16	129	573
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9	19,556	15,813
Dibrisiant asedau hawl-i-ddefnyddio	9	4,998	12,442
Amorteiddio asedau anniriaethol	10	767	926
Addasiad pensiwn IAS 19	23	15,890	81,970
Datgydnabod asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	9,10	136	1,102
Datgydnabod ased hawl i ddefnyddio	9	–	259
Symudiadau mewn arian parod a atafaelwyd a chronfeydd eraill yn mynd i gronfeydd wrth gefn		(1,221)	(579)
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		16,834	37,191
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	9	(14,462)	(30,197)
Prynu asedau anniriaethol	10	(143)	(297)
Elw o waredu asedau		163	203
Llog a dalwyd/(derbyniwyd)		–	–
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi		(14,442)	(30,291)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Ad-daliad cyfalaf o rwymedigaethau hawl-i-ddefnyddio	19	(4,803)	(12,040)
Cyllid grant a dderbyniwyd		2,100	1,342
Llog a dderbyniwyd		934	279
Llif arian net o weithgareddau ariannu		(1,769)	(10,419)
Cynnydd/(gostyngiad) net yn y cyfnod mewn arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod		623	(3,519)
Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		49,812	53,331
Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod		50,435	49,812

3 Yn 2022/23 datgelwyd y diffyg net, mae hwn wedi'i ailddatgan i'r diffyg gweithredu. Mae'r ailddatganiad hefyd yn cynnwys dileu gwariant anweithredol yn 2022/23. Felly, mae'r ffigur cymharol ar gyfer 2023/24 wedi newid.

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Cyffredinol

Mae'r cyfrifon yn cynrychioli cyfrifon endid sengl ar gyfer Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, sef yr endid statudol sy'n cynrychioli Awdurdod y BTP a'r Heddlu mewn termau ariannol. Nid oes unrhyw endidau y mae Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn eu rheoli wedi'u nodi ac felly nid oes unrhyw gyfrifon cyfunol wedi'u paratoi.

Arian cyflwyniadol y cyfrifon yw'r bunt sterling. Ac eithrio lle nodir yn wahanol mae'r symiau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

2. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRoM) 2023/24 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y cawsent eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (yr Awdurdod) at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

2.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau anghyfredol.

2.2 Busnes byw

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol oherwydd bod BTPA yn parhau i fod yr unig ddarparwr gwasanaethau plismona ar y rhwydwaith rheilffyrdd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRoM) 2023/24 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y cawsent eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (yr Awdurdod) at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

2.3 Safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond sydd heb eu mabwysiadu eto

Mae Contractau Yswiriant IFRS 17 yn sefydlu'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant o fewn cwmpas y safon ac mae'n gymwys ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dod i ben ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023. Mae Trysorlys EF yn ymgynghori ar ddehongliad y sector cyhoeddus o'r Safon hon ar gyfer cyrff Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Disgwylir i'r gweithredu fod o 2025/26. Mae'r rheolwyr wedi cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r safon hon ac nid ydynt yn disgwyl unrhyw effaith ar yr Awdurdod gan na fyddai unrhyw un o gontractau BTP yn bodloni'r diffiniad o gontractau yswiriant o dan IFRS 17.

2.4 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys gwelliannau a gwaith cyfalaf i adeiladau lesddaliad,

offer a pheiriannau, asedau hawl i ddefnyddio, offer technoleg gwybodaeth (TG), gosodiadau a ffitiadau, a cherbydau ffordd sydd eu hangen ar gyfer gweithrediadau parhaus yr Heddlu. Mae'r holl wariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu, yn amodol ar derfyn ariannol lleiaf o £1,000, ar sail croniadau yn unol ag IAS 16 – Eiddo, peiriannau ac offer. Mae'r asedau anghyfredol hyn yn cael eu cydnabod i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys pris prynu (gan gynnwys Treth Ar Werth (TAW) anadferadwy ac unrhyw gostau o ddod ag asedau i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn iddynt allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd). Yn dilyn cydnabyddiaeth, caiff Eiddo, peiriannau ac offer ei ailbrisio a'i ailddatgan i'w werth cyfredol bob blwyddyn gan ddefnyddio'r mynegeion costio hanesyddol addasedig perthnasol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Y dyddiad y daeth yr ailbrisriad i rym oedd 31 Mawrth 2024, nid oes unrhyw brisiwr annibynnol wedi bod yn gysylltiedig.

Mae costau staff mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i adeiladu ased, gan gynnwys cynlluniau adnewyddu cyfalaf, yn cael eu cyfalafu. Mae hyn yn cynnwys staff ar gyflogres yr Awdurdod sy'n gweithio'n benodol ar brosiectau cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi grwpio ar brynu eiddo, peiriannau ac offer. Mae hyn yn golygu pan brynir sawl eitem o natur cyfalaf gyda'i gilydd ac mae'r gost gyfunol yn fwy na £1,000, cânt eu cyfalafu hyd yn oed os yw'r eitemau unigol yn costio llai na £1,000.

Mae gwariant sy'n is na'r gwerthoedd hyn yn cael ei godi fel traul yn y datganiad o incwm cynhwysfawr (SoCI).

Mae'r Awdurdod yn datgydnabod asedau sydd â dim gwerth llyfr net pan gânt eu tynnu'n ôl o ddefnydd ac ni ddisgwylir unrhyw fanteision economaidd yn y dyfodol o'u gwaredu. Yr ennill neu'r golled wrth waredu yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r swm cario ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae Trysorlys EF yn disgwyl gwneud newidiadau i'r sail prisio ar gyfer asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau yn 2025/26. Y dosbarthiadau asedau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau mesur arfaethedig yw Asedau Anniriaethol ac Eiddo, Peiriannau ac Offer (ac eithrio asedau Hawl-i-Ddefnyddio).

2.5 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn adlewyrchu prosiectau cyfalaf sy'n dal i fynd rhagddynt ac nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio. Maent yn cael eu mesur yn ôl cost hanesyddol ac maen nhw'n destun adolygiad amhariad blynyddol.

2.6 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth dros gyfnodau sy'n cynrychioli oes fuddiol amcangyfrifol asedau. Mae cerbydau modur yn dechrau cael eu dibrisio unwaith y bydd y cwmni rheoli fflyd wedi cadarnhau eu bod yn cael eu defnyddio. Mae'r holl asedau eraill yn dechrau cael eu dibrisio yn y mis ar ôl ystyried eu bod ar gael i'w defnyddio.

Yr hydau oes a ddefnyddir ar gyfer y prif gategorïau o asedau yw:

- Gwelliannau prydles – Nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y brydles ar adeg prynu
- Offer a pheiriannau – 5 mlynedd
- Asedau hawl-eu-defnyddio – Nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y brydles
- Darnau gosod a gosodiadau – 5 mlynedd
- Cerbydau modur – 5 mlynedd
- Offer TG – 2 – 5 mlynedd

Ni ddarperir dibrisiant ar asedau sy'n cael eu hadeiladu.

2.7 Asedau anniriaethol

Mae ased anniriaethol yn ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol. Mae asedau anniriaethol yn cael eu cyfalafu os yw'n debygol y bydd y buddion disgwyliedig yn y dyfodol sydd i'w priodoli iddynt yn llifo i'r Awdurdod ac os gellir mesur eu cost yn ddibynadwy. Mae meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol, y prosiect rhwydwaith ardal eang a gwariant ar ddatblygu gwefan yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol lle ceir gwariant o £1,000 neu fwy.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi grwpio ar brynu asedau anniriaethol. Mae hyn yn golygu pan brynir sawl eitem o natur cyfalaf gyda'i gilydd ac mae'r gost gyfunol yn fwy na £1,000, cânt eu cyfalafu hyd yn oed os yw'r eitemau unigol yn costio llai na £1,000.

Mae asedau anniriaethol a ddatblygwyd yn fewnol, megis meddalwedd rhaglen neu gronfeydd data, gwariant ar ddatblygiad mewn cysylltiad â chynnyrch neu wasanaeth, sydd i'w gyflenwi ar sail adennill costau llawn, a gwariant arall ar ddatblygu, oll yn cael eu cyfalafu os ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 – Asedau Anniriaethol. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys bod yna ased adnabyddadwy a fydd yn arwain at fanteision yn y dyfodol a bod modd pennu'r gost yn ddibynadwy.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur i ddechrau ar gost. Yn dilyn cydnabyddiaeth, caiff asedau anniriaethol eu hailbrisio bob blwyddyn, lle bo'n briodol, gan ddefnyddio mynegeion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol o ddwy i bum mlynedd yn dibynnu ar fanylion yr ased anniriaethol.

Mae'r BTPA yn datgydnabod asedau pan gânt eu tynnu'n ôl o ddefnydd ac ni ddisgwylir unrhyw fanteision economaidd yn y dyfodol o'u gwaredu. Yr ennill neu'r golled wrth waredu yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r swm cario ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

2.8 Gwarediadau

Codir dibrisiant hyd at y dyddiad y gwaredir yr ased. Mae unrhyw enillion neu golledion ar waredu eiddo, peiriannau ac offer yn y pen draw yn cael eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysfawr pan fydd yr ased yn cael ei ddatgydnabod.

2.9 Amhariad ar asedau anariannol

At ddibenion profi amhariad, edrychir ar eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol yn unigol. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle mae llifoedd arian y gellir eu hadnabod ar wahân, a elwir yn unedau cynhyrchu arian.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae'r BTPA yn adolygu symiau cario ei eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled drwy amhariad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased er mwyn pennu maint y golled drwy amhariad, os oes colled o gwbl. Lle nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adenilladwy ased unigol, mae'r BTPA yn amcangyfrif swm adenilladwy yr uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddi.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased neu uned cynhyrchu arian parod yn llai na'i swm cario, gostyngir swm cario'r ased neu'r uned cynhyrchu arian parod i'w swm adenilladwy. Mae colled amhariad yn cael ei gydnabod ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Pan fydd colled drwy amhariad yn gwrthdroi wedyn, cynyddir swm cario'r ased neu'r uned cynhyrchu arian parod i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, i beidio â bod yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na bai unrhyw golled drwy amhariad wedi'i chydabod ar gyfer yr ased neu'r uned cynhyrchu arian parod mewn blynyddoedd blaenorol. Mae gwrthdroi colled amhariad yn cael ei gydnabod ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

2.10 Cydnabod Refeniw

Cydnabyddir incwm wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni yn unol ag IFRS15 – Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid. Daw mwyafrif yr incwm o Gytundebau Gwasanaeth yr Heddlu (PSA) a Chytundebau Gwasanaeth Heddlu Uwch (EPSA). Gosodir Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, ac maent yn nodi'r rhwymedigaethau ar gyfer yr Awdurdod a'r gweithredwyr rheilffyrdd. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i weithredwyr rheilffyrdd ddal Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu. Seilir y taliadau ar y cynllun plismona blynyddol a luniwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae taliadau'n cael eu cydnabod yn gyfartal dros y flwyddyn ariannol flynyddol, ac mae taliad yn digwydd mewn 13 rhandaliad cyfartal. Mae unrhyw incwm dros ben yn cael ei symud i incwm gohiriedig a'i dynnu i lawr pan fo angen. O dan y Ddeddf mae gan BTPA hawl i glirio cost yr Heddlu gan gynnwys unrhyw ddiffyg ariannol a grëwyd. Os bydd diffyg, bydd BTPA yn asesu a fydd yn cael ei adennill drwy daliadau Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu blynyddol sydd i ddod yn y flwyddyn ganlynol. Os cytunir i hynny, bydd balans incwm cronedig yn cael ei ddal hyd nes y cesglir yr arian. Mae'r un fethodoleg yn berthnasol os bydd tanwariant yn digwydd a bod ad-daliad yn cael ei gymeradwyo.

Mae Cytundebau Gwasanaeth Heddlu Uwch yn bodoli lle mae gweithredwr rheilffyrdd yn gofyn am wasanaeth penodol ochr yn ochr â Chytundeb Gwasanaeth yr Heddlu neu i fynd i'r afael â mater penodol. Codir cost lawn darparu'r Cytundeb Gwasanaeth Heddlu Uwch ar y gweithredwr rheilffyrdd. Codir y costau yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r gwasanaeth a ddarperir wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad gael eu bodloni. Caiff Cytundebau Gwasanaeth Heddlu Uwch eu contractio am gyfnod penodol. Codir cost wirioneddol ar ddeiliaid Cytundebau Gwasanaeth Heddlu Uwch am y gwasanaethau a ddarperir bob cyfnod. Nid yw triniaeth Cytundebau Gwasanaeth Heddlu Uwch yn arwain at unrhyw asedau neu rwymedigaethau.

Mae taliadau London Underground (TfL) yn cael eu hanfonebu ymlaen llaw dros 13 cyfnod o fewn y flwyddyn ariannol, ymhob cyfnod mae cronriad yn cael ei godi i dalu am unrhyw ddiffygion ac i sicrhau bod yr incwm yn cael ei gofnodi yn y cyfnod y cyflenwir y gwasanaeth. Mae BTPA yn negodi i adennill unrhyw ddiffyg/adennill y swm dros ben trwy broses 'olchi' sydd fel arfer yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol pan fydd incwm cronedig yn cael ei ddal hyd nes y derbynnir yr arian.

2.11 Prydlesi

Mae Prydlesi IFRS 16 yn darparu model cyfrifyddu prydleswr unigol sy'n arwain at gynrychiolaeth fwy ffyddlon o asedau a rhwymedigaethau prydlesai ac, ynghyd â datgeliadau manylach, bydd yn darparu mwy o dryloywder o drosoledd ariannol y prydlesai a'r cyfalaf a ddefnyddir. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai bod cyfnod y brydles yn 12 mis neu lai, neu fod yr ased gwaelodol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i'w ddosbarthu fel "gwerth isel". Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau'n cael eu cydnabod i ddechrau ar werth gostyngol y taliadau prydles lleiaf, a chyflwynir yr asedau, a ddisgrifir fel asedau "hawl i ddefnyddio", o dan Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae'r asedau hawl i ddefnyddio wedi'u dibrisio ar sail llinell syth ac mae llog wedi'i gydnabod ar y rhwymedigaethau. Mae'r model cost wedi'i gymhwyso i asedau ar gyfer prydlesi heblaw prydlesi gyda rhent rhad, sydd wedi'u mesur ar sail gwerth cyfredol yn y defnydd presennol. O ganlyniad, mae amseriad cydnabod cyfanswm costau prydlesu wedi newid, gan y bydd costau llog yn uwch ar ddechrau prydles.

O dan IFRS 16, fel y mae wedi'i addasu a'i ddehongli gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, mae rhagdybiaeth, lle na all endidau benderfynu'n rhwydd ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles, ei bod yn ofynnol iddynt yn lle hynny ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus fel eu cyfradd fenthycy gynyddrannol. Y gyfradd ddisgownt a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF oedd 3.51% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2023, sydd wedi'i chymhwyso gan BTP ar gyfer lesedd sy'n cychwyn neu'n cael eu hailfesur cyn Ionawr 2024 ac ym mlwyddyn galendr 2023. Y gyfradd ddisgownt a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF yw 4.72% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2024. Ar gyfer prydlesi a gychwynnodd neu a gafodd eu hailfesur cyn Ionawr 2023, defnyddiwyd cyfradd ddisgownt berthnasol Trysorlys EF a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae gan yr Awdurdod nifer o brydlesi mewn perthynas ag eiddo nad ydynt yn dod o dan gwmpas IFRS 16. Mae'r prydlesi hyn naill ai'n cael eu hystyried yn rhai tymor byr neu'n rhai lle nad oes modd rhoi tystiolaeth o ased a nodwyd. Caiff rhenti o dan y prydlesi hyn eu codi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi ynddo. Cyfanswm y taliadau rhent ar gyfer 2023/24 oedd £4.2m.

2.12 Darpariaethau

Mae'r Awdurdod yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau yn unol ag IAS 37 – Darpariaethau, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd presennol (h.y. rhwymedigaeth bresennol o ddigwyddiadau'r gorffennol), mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn cael eu trosglwyddo, a gellir gwneud amcangyfrif rhesymol.

Mae darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau yn seiliedig ar amcangyfrifon dibynadwy o'r gwariant sydd ei angen i setlo rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol yn y dyfodol. Caiff darpariaethau eu codi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a'u rhyddhau pan wneir trosglwyddiad budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth. Y darpariaethau allweddol a oedd yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn oedd hawliadau yn erbyn yr Awdurdod, dadfeiliadau ac adolygiadau rhent.

2.13 Rhwymedigaethau amodol

Yn unol ag IAS 37, mae'r Awdurdod yn datgelu fel rhwymedigaethau digwyddiadol oblygiadau posibl yn y dyfodol sy'n deillio o ddigwyddiadau rhwymol yn y gorffennol, lle mae bodolaeth goblygiadau o'r fath yn parhau i fod yn ansicr wrth aros am ganlyniad digwyddiadau yn y dyfodol sydd y tu allan i reolaeth y BTPA, oni bai yr ystyrir eu bod yn debygol o fod yn anghysbell.

2.14 TAW

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r BTPA y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn berthnasol ac ni ellir adennill treth fewnbwn ar bryniannau. Gellir adennill TAW mewnbwn ar wasanaethau anstatudol. Codir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu, os yw'n briodol, caiff ei gyfalafu gydag ychwanegiadau at asedau anghyfredol. Lle codir treth allosod neu lle gellir adennill TAW mewnbwn, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

2.15 Llog taladwy/derbyniadwy/traul cyllid

Mae'r llog taladwy yn cael ei gronni fel bod y cyfnod yn talu cost lawn y llog sy'n ymwneud â benthyciadau gwirioneddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae gwariant cyllid yn cynrychioli llog a godir ar asedau hawl i ddefnyddio o fewn cwmpas IFRS 16.

Rhoddir cyfrif am y llog sy'n dderbyniadwy yn y cyfnod y mae'n ddyledus.

2.16 Stocrestrau

Mae'r stocrestrau'n cynnwys gwisgoedd iwnifform yn bennaf. Nodir y stocrestr yn ôl y gost neu'r gwerth gwiredadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

2.17 Amhariad ar asedau ariannol

Adolygir pob dyled ddwrwg ac amheus fesul achos i asesu pa mor debygol yw hi y bydd camau adennill yn llwyddiannus. Mae pob asesiad yn cymryd i ystyriaeth natur y ddyled, cofnod talu'r dyledwr, a fu neu a oes anghydfod gyda'r Awdurdod ac unrhyw wybodaeth briodol arall. Os yw'n ymddangos bod cost wedi'i chodi ar ddyledwr yn anghywir, yna bydd y swm hwn yn cael ei roi yn ôl yn y model codi tâl a bydd y gost yn cael ei had-dalu'n gywir.

Lle bo'n berthnasol, adlewyrchir amhariad ar sail lwfansau colled credyd disgwylidig ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a threfniadau tebyg sy'n cael eu mesur ar swm sy'n hafal i golledion credyd disgwylidig 12 mis ac a gydnabyddir lle bo'n berthnasol.

Nid oes gan BTP unrhyw fenthyciadau i fenthycwyr allanol.

Cydnabyddir lwfansau colled credyd lle bo'n berthnasol. Mae BTP o'r farn nad oes yr un o'i ddyledion wedi cynyddu'n sylweddol mewn risg credyd yn 2023/24 ac nad oes unrhyw golled credyd disgwylidig o fewn oes wedi'i chyfrifo ar gyfer y flwyddyn.

2.18 Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod

At ddibenion y datganiad llif arian (SoCF), mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon ar alwad mewn sefydliadau ariannol. Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw eitemau sy'n bodloni'r diffiniad o arian parod cyfatebol megis buddsoddiadau hylifol iawn tymor byr.

2.19 Costau staff

Buddion gweithwyr

Mae cyflogau, taliadau bonws, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol, absenoldeb salwch, ac amser i ffwrdd yn lle hynny yn cael eu cronni yn y cyfnod pan fydd y gweithwyr yn darparu gwasanaethau cysylltiedig.

Costau buddion ymddeol

Gall gweithwyr fod yn aelodau o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig fel y datgelir yn Nodyn 23.

Y gost gwasanaeth gyfredol yw cost ddisgwylidig y buddion a gronnwyd yn y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r buddion disgwylidig a gronnwyd dros y flwyddyn, ac o ystyried y taliadau disgwylidig a wneir mewn perthynas â'r budd-dal hwn. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw godiadau cyflog a phensiwn disgwylidig. Y gost yw'r swm sydd ei angen ar y dyddiad prisio, fel bod y taliadau wedi'u cynnwys ar ôl derbyn y llog disgwylidig.

Ar gyfer y cynlluniau buddion diffiniedig, pennir cost darparu buddion gan ddefnyddio'r dull credyd uned amcanedig, gyda phrisiadau actiwaraid llawn yn cael eu cynnal o leiaf bob tair blynedd a diweddariadau i'r prisiadau hyn yn cael eu cynnal yn y blynyddoedd rhwng hynny. Mae cost y gwasanaeth cyfredol a threuliau gweinyddu'r cynllun yn cael eu cydnabod fel traul gweithredu yn y datganiad incwm cyfunol.

Cydnabyddir cyfran y BTPA o enillion a cholledion actiwaraid yn llawn yn y cyfnod y maent yn digwydd. Cânt eu cydnabod y tu allan i'r datganiad incwm a'u cyflwyno yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Y gost llog net yw'r tâl yn y flwyddyn ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net. Mae'r tâl yn adlewyrchu treigl amser ac fe'i cydnabyddir fel cost ariannol yn y datganiad incwm. Cydnabyddir cost gwasanaeth blaenorol a chredydau ar unwaith yn y datganiad incwm cyfunol.

Mae'r rhwymedigaeth buddion ymddeol a gydnabyddir yn y fantolen yn cynrychioli gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig, fel y'i haddaswyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol heb ei gydnabod, ac fel y'i gostyngwyd gan werth teg asedau'r cynllun. Mae unrhyw ased sy'n deillio o'r cyfrifiad hwn wedi'i gyfyngu i gost gwasanaeth y gorffennol, ynghyd â gwerth presennol yr ad-daliadau sydd ar gael a gostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol.

Mae'r BTPA yn adlewyrchu ei gyfran o'r diffyg yn y datganiadau ariannol. Ceir rhagor o fanylion am y cynlluniau buddion ymddeol yn nodyn 23.

Darperir buddion pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Awdurdod a BTP trwy Adran Costau a Rennir (RPS) Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o dâl cyfartalog terfynol (wedi tynnu 1/40fed o bensiwn sylfaenol y wladwriaeth terfynol) ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Er ei fod yn drefniant pensiwn cost a rennir mae'r Awdurdod yn dewis rhoi cyfrif am asedau a rhwymedigaethau yn llawn. Darperir buddion pensiwn ar gyfer Swyddogion Heddlu trwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPFSF). Cyfeiriwch at yr adran Buddiannau Pensiwn yn yr Adroddiad Tâl i gael rhagor o fanylion.

Roedd gan yr RPS warged o £9.52m yn unol â dehongliad IAS 19 (IFRIC 14). Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prawf terfyn asedau gael ei gynnal i gyfrifo gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Mae IFRIC 14 yn nodi y gellir cydnabod hyn os gall yr endid ei wireddu ar ryw adeg yn ystod y cynllun oes neu pan fydd rhwymedigaethau'r cynllun wedi'u setlo. Yn benodol, gall budd economaidd o'r fath fod ar gael hyd yn oed os na chaiff ei wireddu ar unwaith ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae BTPA yn cydnabod y gwarged yn llawn oherwydd gellir rheoli setliad graddol, h.y. nid oes gan yr ymddiriedolwyr y pwerau unochrog i ddirwyn yr adran i ben. Nid yw'r BTPFSF yn nodi gwarged.

Lansiodd BTPA gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig newydd ym mis Hydref 2023, a weinyddir gan Royal London. Rhoddwyd cyfrif am hyn o dan IAS 19 Buddiannau Gweithwyr, lle mae rhwymedigaeth yr endid adrodd yn cael ei phennu gan y symiau a gyfrannwyd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth (nodyn 15), yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a thraul (nodyn 7), yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 24.

2.20 Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r BTPA yn gweithredu:

- Cronfa ailbrisio wrth gefn sy'n cynrychioli effaith gronol ailbrisiadau i fyny/i lawr o eiddo, peiriannau ac offer; a
- Cronfa bensiwn wrth gefn sy'n hafal i'r rhwymedigaeth pensiwn net a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.
- Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn.

Rhoddir rhagor o fanylion am y symudiadau yn y cronfeydd hyn yn Nodyn 22.

2.21 Cymorth grant a grantiau'r llywodraeth

Mae cymorth grant a dderbynnir gan yr Adran Drafnidiaeth yn cael ei gydnabod ar sail arian parod drwy'r datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr (SoCTE) yn uniongyrchol oherwydd yr ystyrir ei fod yn gyfraniad parti sy'n rheoli a chaiff grantiau cyfalaf hefyd eu cydnabod ar unwaith ac eithrio pan fydd y cyllidwr yn gosod amod. Mae'r driniaeth hon yn cyd-fynd ag IAS 20 fel y'i dehonglir gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FrEM).

Mae grantiau'r llywodraeth a dderbynnir oddi wrth adrannau eraill y llywodraeth lle bodlonir amodau penodol yn ymwneud â'r gweithgareddau gweithredu yn cael eu cydnabod yn unol ag IAS 20. Nid yw'r grant yn cael ei gydnabod nes bod sicrwydd rhesymol y bydd BTP yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig ag ef, ac y bydd y grant yn cael ei dderbyn. Delir y grant fel rhwymedigaeth hyd nes y bodlonir yr amodau, o fewn symiau taladwy eraill yn nodyn 15. Pan fodlonir yr amodau cânt eu cydnabod fel incwm arall yn nodyn 6. Ar y dyddiad adrodd roedd grantiau llywodraeth o £371k yn cael eu dal fel

rhwymedigaeth gan fod ganddynt amodau heb eu cyflawni, y disgwylir iddynt gael eu bodloni yn y flwyddyn nesaf.

3. Dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu a nodir uchod, mae'r Awdurdod wedi nodi IAS19 fel dyfarniad cyfrifyddu critigol. Er bod prisiad IAS19 o'r cynlluniau pensiwn wedi'i nodi isod fel ffynhonnell allweddol o ansicrwydd amcangyfrif, mae'r dewis o ragdybiaethau ac ystyriaeth o amodau economaidd hefyd yn cynnwys lefel o farn. Mae effaith y dyfarniad hwn yn bwydo i mewn i elfennau perthnasol y datganiad incwm cynhwysfawr a'r datganiad o'r sefyllfa ariannol.

4. Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcanedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol, neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau yn bendant, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Dyma'r eitemau yn y cyfrifon y mae risg sylweddol o addasiadau sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol i ddod:

- Eiddo, peiriannau ac offer - o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau am fywydau economaidd defnyddiol. Byddai unrhyw leihad mewn oesau economaidd defnyddiol yn lleihau'r asedau ac yn cynyddu gwariant. Gweler manylion pellach yn nhroednodiadau nodyn 9;
- Rhwymedigaethau pensiwn - o ganlyniad i ragdybiaethau ar gyfraddau disgownt, codiadau cyflog a marwolaethau. Gweler y manylion pellach yn Nodyn 23;
- Asedau pensiwn - o ganlyniad i brisio eiddo, ecwiti preifat ac asedau cyfrwng buddsoddi cyfun nad ydynt yn cael eu masnachu mewn cyfnewid. Gweler rhagor o fanylion ar ddiwedd Nodyn 23 i weld sensitifrwydd y prisiadau hyn;
- Darpariaethau - o ganlyniad i ganlyniadau ymglyfreitha yn y dyfodol, achosion, anghydfodau, ac adolygiadau rhent eraill. Gweler Nodyn 16 am fanylion pellach ar effaith mewnbynnau amcangyfrif.

5. Dadansoddiad segmentol

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel un dosbarth o fusnes, sef plismona'r rheilffyrdd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ac yn ymgymryd â'r dosbarth hwnnw o fusnes mewn un segment daearyddol, sef Prydain Fawr. Mae strwythur BTP yn seiliedig ar dair Adran. Y tair adran yw Adran B (Dwyrain, De Lloegr a Transport for London), Adran C (Pennine, Canolbarth Lloegr, De Orllewin Lloegr a Chymru) ac Adran D (Yr Alban). Mae Pencadlys yr Heddlu yn Camden yn cadw rheolaeth gyffredinol ar weithgarwch yr Heddlu ac yn gartref i adrannau a swyddogaethau canolog. Er bod costau uniongyrchol yn cael eu monitro ar sail is-adrannol, cynhyrchir cyfran fawr o'r gorbenion yn ganolog. Mae mwyafrif yr incwm hefyd yn cael ei gynhyrchu a'i fonitro'n ganolog yn hytrach nag ar sail adrannol. At hynny, ni chaiff asedau a rhwymedigaethau eu dadansoddi yn y modd hwn oherwydd nad ydynt yn cael eu hadrodd yn fewnol ar sail segmentol.

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Adrannau		
Adran B		78,826
Adran C		45,169
Adran D		10,128
Gorbenion sy'n weddill	260,087	299,515
Cyfanswm gwariant cyn costau cyllid	400,299	433,638

6. Incwm

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Incwm Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu	263,564	249,167
Incwm arall		
Incwm Cytundeb Tanddaearol Llundain	77,964	75,827
Incwm Cytundeb Gwasanaeth Heddlu Uwch	14,574	14,383
Cytundebau ariannu llai	4,115	3,253
Incwm arall	7,475	6,892
Cyllid cyfalaf	559	1,140
Cyfanswm incwm arall	104,687	101,495
Cyfanswm	368,251	350,662

Mae Awdurdod Trafnidiaeth Prydain yn gweithredu nifer o ffrydiau incwm gweithredol. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn cael eu hysgwyddo wrth i rwymedigaethau perfformiad gael eu bodloni. Gellir categorïddio'r ffrydiau incwm fel a ganlyn:

6.1 Cytundeb Gwasanaeth Heddlu

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, mae'r Awdurdod yn llunio Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus gyda'i gwsmeriaid er mwyn darparu gwasanaeth plismona fel y nodir yn y cytundeb. Wrth benderfynu ar gyfraniad y cwsmeriaid, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod ei gostau blynyddol llawn yn cael eu talu ac yn defnyddio mecanwaith codi tâl a bennwyd ymlaen llaw sy'n gyson â'r Ddeddf ac sy'n cyd-fynd â Chytundeb Gwasanaeth Heddlu'r cwsmer. Cyfeirir at y cwsmer fel arfer fel deiliad Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu.

6.2 Cytundebau Gwasanaeth Heddlu Gwell

Mae unrhyw wasanaethau ychwanegol y tu allan i gytundeb deiliad Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu yn cael eu cyfeirio at Gytundeb Gwasanaeth Heddlu Uwch. Codir tâl llawn am y gwasanaeth ychwanegol yn unol â'r cytundeb cwsmer penodol.

6.3 Cytundeb Tanddaearol Llundain

Mae incwm Cytundeb Tanddaearol Llundain yn cael ei gyfrifo ar wahân i Fodel Codi Tâl y Cytundeb Gwasanaeth Heddlu. Mae BTP yn trafod gofynion plismona gyda London Underground ac yn codi'r gost llawn.

6.4 Incwm arall

Mae nifer o gytundebau contract llai gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff allanol. Mae'r incwm a dderbynnir gan gwsmeriaid o'r fath yn ariannu mentrau penodol sy'n ymwneud yn fras ag atal troseddu ac amddiffyn y gymdeithas ehangach ar y seilwaith rheilffyrdd. Mae'r cronfeydd hynny a dderbynnir gan sefydliadau'r llywodraeth a chwmnïau gweithredu trenau yn cael eu dosbarthu fel "incwm arall". O fewn y ffigwr hwn mae incwm a dderbyniwyd o Gynllun Cymhelliant Adennill Asedau'r Swyddfa Gartref (ARIS) sy'n dosbarthu cyfran o ad-daliad enillion troseddau o dan y Ddeddf Enillion Troseddau (POCA) i BTP mewn achosion lle'r oedd yn awdurdod ymchwilio. Mae'r cyllid hwn yn cael ei gydnabod, yn unol ag IFRS15, wrth i rwymedigaethau perfformiad gael eu bodloni. Mae cyllid a dderbynnir gan sefydliadau y tu allan i'r llywodraeth yn cael eu dosbarthu fel "cytundebau ariannu llai". Mae arian a dderbynnir oddi wrth adrannau'r llywodraeth at ddiben ariannu prosiectau cyfalaf yn cael ei ddosbarthu fel "cyllid cyfalaf".

7. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

I weld y niferoedd staff a chostau cysylltiedig gweler yr Adroddiad Tâl.

	2023/24		2022/23	
	Staff a gyflogir yn barhaol	Staff eraill £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys:				
Cyflogau	236,870	1,266	238,136	219,495
Costau nawdd cymdeithasol	23,555	-	23,555	22,863
Costau pensiwn eraill ¹	45,610	-	45,610	109,149
Is-gyfanswm	306,035	1,266	307,301	351,507
Wedi tynnu adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(952)	-	(952)	(1,136)
Cyfanswm costau net	305,083	1,266	306,349	350,371

1 Mae costau pensiwn eraill wedi gostwng o ganlyniad i gost gwasanaeth cyfredol pensiwn IAS19 ac addasiad cyfraniadau gan gyflogwyr, gwerth £15.89m (£81.97m yn 2022/23). Mae gweddill y costau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau cynllun pensiwn a thaliadau diffyg o £29.72m (£27.18m yn 2022/23).

8. Gwariant arall

Mae'r diffyg ar weithgareddau arferol cyn llog yn cael ei ddatgan ar ôl codi'r canlynol:

	Note	2023/24	2022/23
		£'000	£'000
Costau cysylltiedig â staff		4,095	4,812
Cyfathrebu a chyfrifiaduron		20,071	18,404
Treuliau gweithredol		3,909	2,525
Treuliau gweinyddol		2,348	2,940
Gwasanaethau proffesiynol		2,977	3,442
Cyfreithiol ac Yswiriant		2,413	1,105
Prynu offer		2,848	2,908
Rhenti o dan brydlesi gweithredu ¹		5,083	(2,506)
Adeiladau (ac eithrio rhenti o dan brydlesi gweithredu)		16,292	13,343
Costau cludiant		8,339	7,125
Arall		254	(12)
Gwariant arall		68,629	54,086
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9	19,556	15,813
Dibrisiant asedau hawl-i-ddefnyddio ²	9	4,998	12,442
Amorteiddio asedau anniriaethol	10	767	926
Dibrisiant ac amorteiddiad		25,321	29,181
Costau cyllid		515	1,082
Cyfanswm		94,465	84,349

Yn ystod y flwyddyn ni phrynodd yr Awdurdod unrhyw wasanaethau heblaw archwilio gan ei archwilydd, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Yn gynwysedig yn y "Gwasanaethau proffesiynol" mae'r ffi archwilio o £165k ar gyfer tâl yr archwilydd am waith archwilio sy'n ymwneud â 2023/24 (2022/23: £144k).

1 Mae rhent o dan brydlesi gweithredu wedi cynyddu £7.6m ac mae dibrisiant ar asedau hawl i ddefnyddio wedi gostwng £7.4m. Y rheswm am hyn yw ein bod, ym mlwyddyn ariannol 2022/23, wedi ailasesu'r holl brydlesi yn erbyn meini prawf IFRS16 a arweiniodd at ailasesu nifer o brydlesi fel yng nghwmpas IFRS16 ac i'r gwrthwyneb. O fewn y ffigurau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 mae taliadau rhent wedi'u hól-ddyddio a dibrisiant ar gyfer prydlesi a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2022. Roedd y rhan fwyaf o'r addasiad ym mlwyddyn ariannol 2022/23 o ganlyniad i'r newid yng nghwmpas y brydles ar gyfer Pencadlys Camden.

9. Eiddo, peiriannau ac offer

	Gwelliannau prydles	Offer a pheiriannau	Cerbydau Modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu - Cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu - Arall	Asedau Hawl-i- Ddefnyddio	Gosodiadau a ffitiadau	Offer TG	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost									
Ar 1 Ebrill 2023	61,384	18,732	18,748	5,491	2,976	53,755	4,111	67,932	233,129
Ychwanegiadau	340	702	558	3,029	5,954	171	59	3,260	14,073
Newidiadau mewn rhagdybiaethau¹	–	–	–	–	–	389	–	–	389
Gwarediadau	(1,352)	(5)	(1,708)	–	–	–	–	(57)	(3,122)
Datgydnabod	–	–	–	–	(136)	–	–	–	(136)
Ailbrisiadau	2,031	111	438	–	–	–	35	1,383	3,998
Ailddosbarthiadau	775	249	3,970	(3,970)	(2,485)	–	16	1,445	–
Ar 31 Mawrth 2024	63,178	19,789	22,006	4,550	6,309	54,315	4,221	73,963	248,331
Dibrisiant									
Ar 1 Ebrill 2023	35,618	17,264	11,304	–	–	24,471	3,552	44,715	136,924
Codir tâl yn y flwyddyn	4,625	736	3,212	–	–	4,998	199	8,722	22,492
Gwarediadau	(1,157)	(5)	(1,587)	–	–	–	–	(41)	(2,790)
Datgydnabod	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	726	127	322	–	–	–	30	857	2,062
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2024	39,812	18,122	13,251	–	–	29,469	3,781	54,253	158,688
Swm cario ar 31 Mawrth 2024	23,366	1,667	8,755	4,550	6,309	24,846	440	19,710	89,643

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan brydlesi a ddelir gan BTP, mae pob ased yn eiddo.

1 Ar gyfer asedau Hawl i Ddefnyddio yn unig. Mae'r cyfanswm o £389k yn ymwneud ag adnewyddu prydlesi £178k, prydlesi dal drosodd £30k, codiadau rhent £103k, treth dir y dreth stamp £76k ac addasiadau £2k.

9. Property, plant and equipment

	Gwelliannau prydles	Offer a pheiriannau	Cerbydau Modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu - Cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu - Arall	Asedau Hawl-i- Ddefnyddio ¹	Gosodiadau a ffitiadau	Offer TG	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost									
Ar 1 Ebrill 2022	52,323	17,923	17,008	2,788	5,887	40,313	4,000	58,360	198,602
Ychwanegiadau ²	1,131	478	765	5,180	2,727	13,701	23	6,192	30,197
Gwarediadau ²	(66)	(17)	(2,017)	–	–	(259)	–	(510)	(2,869)
Datgydnabod	–	–	–	(445)	(657)	–	–	(67)	(1,169)
Ailbrisiadau ³	4,227	250	960	–	–	–	78	2,853	8,368
Ailddosbarthiadau	3,769	98	2,032	(2,032)	(4,981)	–	10	1,104	–
Ar 31 Mawrth 2023	61,384	18,732	18,748	5,491	2,976	53,755	4,111	67,932	233,129
Dibrisiant									
Ar 1 Ebrill 2022	31,129	16,485	10,591	–	–	12,029	3,362	37,589	111,185
Codir y tâl yn y flwyddyn ⁴	4,168	700	2,464	–	–	12,624	178	7,283	27,417
Gwarediadau ⁴	(65)	(17)	(1,913)	–	–	(182)	(6)	(511)	(2,694)
Datgydnabod	–	–	–	–	–	–	–	(4)	(4)
Ailbrisiadau	386	96	162	–	–	–	18	358	1,020
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2023	35,618	17,264	11,304	–	–	24,471	3,552	44,715	136,924
Swm cario ar 31 Mawrth 2023	25,766	1,468	7,444	5,491	2,976	29,284	559	23,217	96,205

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan brydlesi a ddelir gan BTP, mae pob ased yn eiddo.

1 Ar ddiwedd 2022/23 cynhaliwyd ymarfer ailasesu prydles ar gyfer yr holl brydlesi parhaus er mwyn pennu statws IFRS16, gan arwain at 20 newid i'r cwmpasu blaenorol. Ar gyfer y prydlesi hynny a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2022, mae'r addasiadau ar gyfer asedau, rhwymedigaethau, llog, dibrisiant a thaliadau rhent y flwyddyn flaenorol wedi'u cyfrifo yn y flwyddyn ariannol hon.

2 Wedi'i gynnwys yn yr ychwanegiadau Asedau Hawl-i-Ddefnyddio o £13.7m mae £13.6m o ychwanegiadau oherwydd ailasesiad o 17 o brydlesi fel yng nghwmpas IFRS16, gyda'r £0.1m sy'n weddill yn ymwneud ag ychwanegiadau safonol ym mlwyddyn ariannol 2023 . Mae'r gwarediadau o £0.3m yn ymwneud â 3 prydles a gafodd eu hailasesu fel rhai y tu allan i'r cwmpas.

3 Wedi'i gynnwys yn y dibrisiant Ased Hawl-i-Ddefnyddio a godwyd yn y flwyddyn o £12.6m mae £6.6m o ddibrisiant ôl-ddyddiedig ar gyfer y prydlesi a gafodd eu hailasesu fel rhai o fewn y cwmpas ac a gychwynwyd cyn 1 Ebrill 2022; mae'r £6m sy'n weddill yn ymwneud â thaliadau dibrisiant safonol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Y gwarediad dibrisiant o £0.2m yw'r 3 prydles a gafodd eu hailasesu fel rhai y tu allan i'r cwmpas.

4 Mae ailbriso eiddo, peiriannau ac offer yn seiliedig ar y data CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) a gyhoeddwyd. Gwnaethom ddadansoddiad sensitifwydd a asesodd effaith newid o 1% yng nghanran y CPI. Pe bai canran y CPI yn cynyddu 1% byddai gwerth teg eiddo, peiriannau ac offer yn cynyddu £1.1m. Byddai gostyngiad o £1.1m hefyd yng ngwerth teg eiddo, peiriannau ac offer pe bai canran y CPI yn gostwng 1%.

10. Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd, trwyddedau meddalwedd, y prosiect rhwydwaith ardal eang a gwariant ar ddatblygu gwefan.

	Trwyddedau	Meddalwedd	Rhwydwaith ardal eang	Gwefannau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost						
Ar 1 Ebrill 2023	8,015	14,991	4,251	348	12	27,617
Ychwanegiadau	11	37	–	–	95	143
Datgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau ¹	43	72	–	–	–	115
Ailbrisiadau	–	4	–	–	(4)	–
Ar 31 Mawrth 2024	8,069	15,104	4,251	348	103	27,875
Amorteiddiad						
Ar 1 Ebrill 2023	7,167	13,747	4,250	348	–	25,512
Codir tâl yn y flwyddyn	355	412	–	–	–	767
Datgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	–	–	–	–	–	–
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2024	7,522	14,159	4,250	348	–	26,279
Swm cario ar 31 Mawrth 2024						
	547	945	1	–	103	1,596

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan brydlesi a ddelir gan BTP, mae pob ased yn eiddo.

¹ Mae ailbrizio Asedau Anniriaethol yn seiliedig ar y data CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) a gyhoeddwyd. Gwnaethom ddadansoddiad sensitifrwydd a asesodd effaith newid o 1% yng nghanran y CPI. Pe bai canran y CPI yn cynyddu 1% byddai gwerth teg yr Asedau Anniriaethol a adroddwyd yn cynyddu £30k. Byddai gostyngiad hefyd o £30k yng ngwerth teg yr Asedau Anniriaethol a adroddwyd pe bai canran y CPI yn gostwng 1%.

	Trwyddedau	Meddalwedd	Rhwydwaith ardal eang	Gwefannau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost						
Ar 1 Ebrill 2022	7,547	14,782	4,251	348	67	26,995
Ychwanegiadau	275	16	–	–	6	297
Datgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	148	177	–	–	–	325
Ailddosbarthiadau	45	16	–	–	(61)	–
Ar 31 Mawrth 2023	8,015	14,991	4,251	348	12	27,617
Amorteiddiad						
Ar 1 Ebrill 2022	6,790	13,200	4,250	346	–	24,586
Codir tâl yn y flwyddyn	377	547	–	2	–	926
Datgydnabod	–	–	–	–	–	–
Ailbrisiadau	–	–	–	–	–	–
Ailddosbarthiadau	–	–	–	–	–	–
Ar 31 Mawrth 2023	7,167	13,747	4,250	348	–	25,512
Swm cario ar 31 Mawrth 2023						
	848	1,244	1	–	12	2,105

Ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddion sy'n codi o dan brydlesi a ddelir gan BTP, mae pob ased yn eiddo.

11. Offerynnau ariannol

Mae gan BTP ddarpariaethau cytundebol i dderbyn taliadau arian parod yn gyfnewid am ddarparu gwasanaeth plismona ac am adennill costau llawn gwariant BTP. Mae gwahanol ffrydiau incwm BTP yn ymwneud â chytundebau sydd wedi eu cwmpasu gan y Cytundeb Gwasanaeth Heddlu, Gwasanaeth Heddlu Uwch , TfL (cyllid gan London Underground), Network Rail, cyllid gan Gcontractwyr Gweithredu Trafnidiaeth eraill, cyllid incwm penodol gan y Swyddfa Gartref ac ARIS.

Oherwydd natur anfasnachol ei weithgareddau i raddau helaeth a'r ffordd y caiff yr Awdurdod ei ariannu, nid yw'r Awdurdod yn agored i'r graddau o risg ariannol a wynebir gan endidau eraill. Mae gan yr Awdurdod bwerau cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi arian dros ben. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni chânt eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wrth gyflawni ei weithgareddau.

Hylifedd a risg credyd

Ariennir incwm net yr Awdurdod a gofynion adnoddau cyfalaf gydag adnoddau a ddaw gan ddeiliaid y Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus, a chyrrff eraill y Llywodraeth. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i risgiau hylifedd sylweddol. Nid yw risg credyd wedi cynyddu'n sylweddol o'r trallod ariannol ar y gweithredwyr trenau o ganlyniad i Covid-19 oherwydd cytundebau mesurau brys sydd ar waith a oedd yn trosglwyddo risg cost a refeniw y mwyafrif o weithredwyr i'r Adran Drafnidiaeth. Nid oedd gan BTP unrhyw offerynnau ariannol hirdymor yn ystod y flwyddyn.

Risg cyfradd llog

Mae holl asedau ariannol yr Awdurdod a'i holl rwymedigaethau ariannol yn cario dim cyfraddau llog neu gyfraddau llog sefydlog. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg arian tramor

Nid yw amlygiad yr Awdurdod i risg arian tramor yn sylweddol. Mae incwm a gwariant arian tramor yn ddibwys.

Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth fesul categori o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Awdurdod.

	2023/24		2022/23	
	Gwerth llyfr	Gwerth teg	Gwerth llyfr	Gwerth teg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Offerynnau ariannol sylfaenol				
Asedau ariannol				
Arian parod yn y banc	50,435	50,435	49,812	49,812
Derbyniadau masnach	2,796	2,796	2,812	2,812
Cyfanswm	53,231	53,231	52,624	52,624
Financial liabilities				
TAW yn daladwy	948	948	1,208	1,208
Symiau trethiant a nawdd cymdeithasol eraill sy'n daladwy	13,536	13,536	3,536	3,536
Symiau masnach taladwy	5,276	5,276	4,128	4,128
Cyfanswm	19,760	19,760	8,872	8,872

12. Stocrestrau

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Iwnniform ac eitemau cysylltiedig		
Balans agoriadol	114	375
Ychwanegiadau	–	120
Defnyddiau	(57)	(381)
Darpariaeth	–	–
Addasiad	–	–
Balans wrth gau	57	114

O gymharu 2022/23 â 2023/24, gostyngodd gwerth stocrestrau gan £57k i £57k. Disgwylir gostyngiad mewn ychwanegiadau oherwydd bod BTP yn symud tuag at system ar-alw lle mae ein cyflenwr stocrestr yn darparu eitemau inni sydd eu hangen arnom yn ôl yr angen, yn hytrach na'n bod ni'n prynu'r eitemau hyn a'u bod yn cael eu cadw mewn stoc. Wrth symud ymlaen, bydd yr ychwanegiadau ond yn cynrychioli stocrestr arbenigol nad yw ar gael yn rhwydd gan ein cyflenwr stocrestr. Nid oes unrhyw addasiad na darpariaethau yn 2022/23 a 2023/24.

13. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau eraill

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach derbyniadwy - contractau gyda chwsmeriaid	2,796	2,812
Symiau masnach derbyniadwy – eraill	–	–
Derbyniadau eraill	1,107	683
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	15,690	13,033
Tynnu: Amhariad ar symiau derbyniadwy gan ddefnyddio model colled ddisgwyliedig ¹	(24)	(24)
Cyfanswm	19,569	16,504

Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus gan endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrif y llywodraeth gyfan

Cyrff llywodraeth ganolog eraill	2,001	146
Awdurdodau lleol	1,878	1,915
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	(37)	–
Dyledwyr rhwynglywodraethol	3,842	2,061
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	15,727	14,443
Cyfanswm	19,569	16,504

¹ Gwnaethpwyd darpariaeth o £24k yn 2021/22 yn erbyn elfen o ddyled yr oedd y posibilirwydd o'i hadennill yn amheus.

Derbyniadau tymor hir

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	6	–

14. Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Balans ar 01 Ebrill	49,812	53,331
Newid net mewn arian parod a balansau arian parod cyfatebol	623	(3,519)
Balans ar 31 Mawrth	50,435	49,812
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn y lleoedd yma		
Gwasanaeth bancio'r llywodraeth	104	104
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	50,331	49,708
Balans ar 31 Mawrth	50,435	49,812

15. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
TAW sy'n daladwy	948	1,208
Symiau trethiant a nawdd cymdeithasol eraill sy'n daladwy	13,536	3,536
Symiau masnach taladwy	5,276	4,128
Symiau taladwy eraill	15,095	2,302
IFRS 16 Rhwymedigaethau prydles	4,447	4,682
Croniadau ¹	22,680	41,558
Incwm gohiriedig – contractau gyda chwsmeriaid ²	6,253	37
Cyfanswm	68,235	57,451
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Symiau taladwy, croniadau ac incwm gohiriedig eraill	–	25,709
IFRS 16 Rhwymedigaethau prydle ³	22,108	–
Cyfanswm	90,343	83,160

1 Mae'r balans croniadau yn cynnwys croniad ar gyfer hawliau gwyliau blyneddol gweithwyr nad ydynt wedi'u defnyddio eto.

2 Mae balans incwm gohiriedig – contractau gyda chwsmeriaid yn cynnwys cyfanswm y balans ar ddiwedd 22/23 blwyddyn o £37k.

3 Mae rhwymedigaethau prydles bellach yn cael eu datgelu ar wahân i symiau taladwy, croniadau ac incwm gohiriedig eraill. Yn 2022/23 roedd symiau taladwy, croniadau ac incwm gohiriedig eraill yn ymwneud yn gyfan gwbl â rhwymedigaethau prydles.

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus i endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrif y llywodraeth gyfan		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	12,352	6,442
Awdurdodau lleol	14,561	6,183
Cyrff y GIG	162	636
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	5	(3)
Symiau taladwy a rhwymedigaethau o fewn y llywodraeth	27,080	13,258
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	63,263	69,902
Cyfanswm	90,343	83,160

16. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u dosbarthu fel rhai cyfredol gan y disgwylir iddynt gael eu gwireddu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

	Hawliadau yn erbyn yr Awdurdod	Tribiwnlysoedd cyflogaeth	Dadfeiliadau	Darpariaethau eraill	Cyfanswm
	£'000	£'000			
Balans ar 1 Ebrill 2022	1,829	85	2,662	2,776	7,352
Darparwyd yn y flwyddyn	1,863	567	804	990	4,224
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(536)	(240)	(136)	(604)	(1,516)
Darpariaethau a ysgrifennwyd yn ôl yn y flwyddyn	(1,321)	(120)	(101)	(593)	(2,135)
Balans ar 31 Mawrth 2023	1,835	292	3,229	2,569	7,925
Darparwyd yn y flwyddyn	2,326	422	39	2,576	5,363
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(712)	(289)	(67)	(2,055)	(3,123)
Darpariaethau a ysgrifennwyd yn ôl yn ystod y flwyddyn	(1,594)	(191)	(24)	(302)	(2,111)
Balans ar 31 Mawrth 2024	1,855	234	3,177	2,788	8,054

Hawliadau yn erbyn yr Awdurdod

Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i hawliadau a wnaed gan weithwyr y BTPA ac aelodau'r cyhoedd, yr honnir iddynt gael eu hachosi gan esgeulustod y BTP neu BTPA ac a arweiniodd at anaf, colled neu ddifrod. Crëir y ddarpariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn rheolaidd gan staff mewnol

proffesiynol a chyfreithwyr a dyma'r amcangyfrif o gost y setliad gan gynnwys costau cyfreithiol ar gyfer rhwymedigaethau heb eu talu. Gallai'r tebygolrwydd o all-lif adnoddau newid yn seiliedig ar y mewnbynnau hyn gan arwain at fwy o ddarpariaeth neu, mewn rhai achosion, at ysgrifennu'n ôl yn llawn. Byddai ysgrifennu'n ôl yr achos mwyaf y darparwyd ar ei gyfer yn y flwyddyn gyfredol o fewn y categori hwn yn arwain at ostyngiad o £0.1 miliwn yn y ddarpariaeth.

Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Sefydlir y ddarpariaeth hon ar sail achos unigol ar y cyd â chynghorwyr cyfreithiol allanol, yn ymwneud ag anghydfodau cyflogaeth, megis diswyddo annheg a gwahaniaethu. Mae'r ddarpariaeth yn cwmparu costau amcanedig unrhyw setliad ac unrhyw gostau cyfreithiol. Wrth i'r achosion fynd rhagddynt bydd y tebygolrwydd o all-lif adnoddau yn newid. Pe bai'r holl all-lifau disgwylledig ar gyfer achosion byw newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cynyddu 10%, byddai'r ddarpariaeth yn cynyddu £0.03 miliwn.

Dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu ar gyfer setlo costau dadfeiliadau eiddo lesddaliad. Mae'r mewnbynnau ar gyfer y cyfrifiad yn cynnwys hyd y brydles, y gwaith a wneir ar yr eiddo, bwriad y landlord a thelerau'r brydles. Byddai cynnydd o 10% yn yr amcangyfrif dadfeiliad ar gyfer pob eiddo yn cynyddu'r ddarpariaeth £0.8 miliwn.

Darpariaethau eraill

Mae hyn yn ymwneud â'r holl ddarpariaethau eraill ac yn bennaf mae'n cynnwys costau sy'n ymwneud ag adolygiadau rhent a diswyddiadau. Mae ystod o farnau a mewnbynnau yn gysylltiedig â chyfrifo'r darpariaethau hyn. I ddangos sensitifrwydd; pe bai'r gwerthoedd codiad rhent amcanedig 10% yn uwch, byddai angen codi'r ddarpariaeth adolygu rhent £0.06 miliwn.

17. Rhwymedigaethau Amodol

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn bodoli o ran categorïau ychwanegol o hawliadau gan weithwyr mewn perthynas â Chyfreitha Hawliadau Goramser yr Heddlu, Categori 1, hawliadau gan Drinwyr/Rheolwr CHIS DC KSO ac eraill v Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan ac Eraill. Amcangyfrifir y bydd y gost yn uchafswm o £0.75 miliwn. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a oedd yn bresennol ar y pryd, a'r ffaith nad oes tystiolaeth o achosion wedi'u cwblhau ar gyfer y categorïau hyn o hawliadau yn bodoli o fewn yr Heddlu, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad yn ôl pwysau tebygolrwydd nad oes rhwymedigaeth ar gyfer setlo'r mathau hyn o hawliadau yn y dyfodol.

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn bodoli ynghylch hawliadau yn y dyfodol ar ôl i Ymchwiliad Arena Manceinion ddod i ben. Mae'r broses o ystyried hawliadau posibl ac atebolrwydd cyfreithiol y sefydliad yn mynd rhagddi. Ar ddyddiad llofnodi'r Datganiadau Ariannol nid yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod darpariaeth ariannol wedi'u bodloni eto.

Mae rhwymedi wedi'i roi ar waith ar 1 Ebrill 2022 yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl bod y diogelwch trosiannol sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn wahaniaethol. Bydd heddluoedd y Swyddfa Gartref yn cyflwyno'r holl swyddogion yn raddol i gynllun 2015 a bydd swyddogion â budd-daliadau CARE cyn 1 Ebrill 2022 yn dangos buddion CARE wedi'u symud yn ôl i gynlluniau etifeddol. Bydd y rhwymedi hwn yn effeithio ar rai sy'n trosglwyddo o heddluoedd y Swyddfa Gartref i BTP. O ganlyniad, efallai y bydd angen costau ôl-ddyddiedig ychwanegol i adlewyrchu'r rhwymedi hwn. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i gael amcangyfrif rhesymol o'r costau, fodd bynnag mae amcangyfrifon cynnar yn rhagdybio cost o £0.32 miliwn.

Ar adeg llofnodi'r Datganiadau Ariannol nid yw prisiad actiwaraid 2018 o'r BTPFSF (Cynllun Pensiwn Swyddogion) wedi'i gwblhau eto. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch rhagdybiaethau a wnaed gan yr Ymddiriedolwr.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod hawliadau posibl yn y dyfodol yn ymwneud ag achos cyfreithiol parhaus ac achos cyfreithiol hanesyddol ar wahân. Amcangyfrifwyd uchafswm cost o £0.7 miliwn ar gyfer costau pellach ac iawndal.

18. Ymrwymïadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gan yr Awdurdod yr ymrwymïadau cyfalaf a ganlyn:

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Ystadau	9	104
Technoleg	363	625
Fflyd	2,378	2,073
Arall	1	169
Cyfanswm ymrwymïadau cyfalaf BTP	2,751	2,971

19. Ymrwymïadau o dan brydlesi

Rhoddir cyfanswm y taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol o dan brydlesi tymor byr yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol¹:

Prydlesi tymor byr heb eu cydnabod o dan IFRS 16:	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Adeiladau		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	1,414	1,448
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	3,555	4,050
Yn hwyrach na 5 mlynedd	6,069	6,923
Cyfanswm prydlesi tymor byr	11,038	12,421

Rhoddir cyfanswm y taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol o dan asedau hawl-i-ddefnyddio yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

IFRS 16 Mae rhwymedigaethau prydles ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Adeiladau		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	4,447	4,682
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	10,445	12,380
Yn hwyrach na 5 mlynedd	11,663	13,329
Cyfanswm Rhwymedigaethau Prydles IFRS 16	26,555	30,391

1 Ystyrir y prydlesi hyn yn rhai tymor byr ar sail y ffaith nad yw'r contractau bellach yn orfodadwy gan fod gan BTP a'r prydleswr yr hawl i derfynu'r contract gyda chyfnod rhybudd o 12 mis neu lai.

Mae'r tabl canlynol yn darparu cysoniad rhwng sefyllfa agoriadol a chau rhwymedigaethau prydles IFRS 16²:

	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Atebolrwydd prydles IFRS 16 agoriadol	30,391	29,077
Ychwanegiadau atebolrwydd prydles ³	452	12,081
Gwarediadau atebolrwydd prydles ³	-	196
Ad-daliadau prydles ⁴	(4,803)	(12,040)
Tâl cyllid ⁵	515	1,077
Atebolrwydd prydles IFRS 16 wrth gau	26,555	30,391

20. Ymrwymïadau ariannol eraill

Isod mae manylion yr ymrwymïadau ariannol eraill a chontractau na ellir eu canslo yr ymrwymwyd iddynt gan yr Awdurdod:

Mae contractau na ellir eu canslo ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys	2023/24	2022/23
	£'000	£'000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	11,335	6,938
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	5,089	720
Hwyrach na 5 mlynedd	-	-
Cyfanswm yr ymrwymïadau ariannol	16,424	7,658

21. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus anadrannol i'r Adran Drafnidiaeth. Ystyrir yr Adran Drafnidiaeth yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r BTPA wedi cael y trafodion perthnasol canlynol gyda'r Adran a chydag endidau eraill y mae'r Adran yn cael ei hystyried yn Adran riant iddynt:

Anfonebwyd BTPA am £237k gan yr Adran Drafnidiaeth yn 2023/24 (£dim yn 2022/23) ac roedd balans o £22k yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (£dim yn 2022/23). Derbyniodd BTPA gymorth grant o £2,100k gan yr Adran Drafnidiaeth yn 2023/24 ar gyfer Operation Overhand. Anfonebwyd yr Adran Drafnidiaeth gan yr Awdurdod am £44k yn 2023/2024 (£dim yn 2022/23) ac nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (£dim yn 2022/23).

2 Ar ddiwedd 2022/23 cynhaliwyd ymarfer ailasesu prydles ar gyfer yr holl brydlesi parhaus er mwyn pennu statws IFRS16, gan arwain at 20 newid i'r cwmpasu blaenorol. Ar gyfer y prydlesi hynny a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2022, mae'r addasiadau ar gyfer asedau, rhwymedigaethau, llog, dibrisiant a thaliadau rhent y blynyddoedd blaenorol wedi'u cyfrifo yn 2022/23.

3 Wedi'i gynnwys yn ychwanegiadau rhwymedigaeth les 2022/23 o £12.1m mae £12m o ychwanegiadau rhwymedigaeth les oherwydd ailasesiad o 17 o brydlesi fel yng nghwmpas IFRS16, mae'r £0.1m sy'n weddill yn ychwanegiadau rhwymedigaeth les safonol. Mae'r gwarediadau prydles o £0.2m yn 3 les a gafodd eu hailasesu fel rhai y tu allan i'r cwmpas.

